

**Ymatebion i'r Ymgynghoriad Statudol ar y Cynnig i Gau Ysgolion Dalgylch Y Gader a Sefydlu Ysgol Ddilynol Ddalgylchol
Cyfrwng Cymraeg Cymunedol ar Chwech Safle ym Medi 2017**

Derbyniwyd 82 o Ymatebion Ysgrifenedig

Cod Sylwad	Sylwadau	Nifer ymatebion yn cymwys y sylwad	Ymateb Cyngor Gwynedd
1	Addysg		
1.1	Newid yn anochel er mwyn buddion a'r gorau i plant, teuluoedd ac athrawon	3	Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ac yn cytuno gyda'r sylwadau yma, a dyma pam bod consensws wedi'i gyrraedd nad yw parhau â'r drefn bresennol yn opsiwn mwyach a pham bod y Cyngor yn cyflwyno'r cynnig yma.
1.2	Angen cynllun arloesol a blaengar cael ei fabwysiadu, ar fyrder, mewn ardaloedd sydd bellach gwaetha'r modd mewn sefyllfa o argyfwng o ystyried y darnio a'r dryllio a ddigwydd yn economaidd, cymdeithasol, addysgol a diwylliannol, ni allwn ond rhagweld cynnydd yn y problemau a fyddai'n deillio o wneuthur dim / Yn cefnogi'r cynllun, ac yn gweld yr angen i symud ymlaen ar fyrder, a hynny ar sail yr hyn a argymhellir yn y ddogfen ymgynghorol / Cefnogi'r cynllun arfaethedig sy'n sôn am ddyfodol addysg y Dalgylch. Newidiadau yn angenrheidiol. Nifer o ysgolion y dalgylch â llyfdd gweigion ac eraill mewn cyflwr difrifol a'r plant yn cael eu haddysgu mewn adeiladau nad ýnt yn addas i'r pwrpas / Cefnogol i Fodel 8	4	
1.3	Cyngor Tref Dolgellau yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghorol ac yn edrych ymlaen yn fawr i weld cyfnod lle bydd buddsoddiad ariannol sylweddol yn cymryd lle yn yr ardal i sicrhau addysg o'r safon orau i bobl ifanc i'r dyfodol	1	Cyngor yn falch bod Cyngor Tref Dolgellau yn cefnogi'r cynnig
1.4	Estyn o'r farn fod y cynnig hwn yn debygol o gynnal ac o bosibl gwella safonau presennol y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal hon yng Ngwynedd.	1	Mae'r Cyngor o'r farn bydd y cynnig yn parhau os nad gwella ansawdd addysg y dalgylch ac yn falch iawn o wybod bod Estyn yn cytuno â'r farn hynny.
1.5	Diolch yn fawr am y cyfle i ymateb. Grŵp Llandrillo Menai yn falch iawn o'n cydweithrediad agos gyda Cyngor Sir Gwynedd yng nghydstun trefniadau addysg a datblygu busnes. Yn arbennig mae gwaith y Consortiwm Ôl-16 yn strategol bwysig i ni. Credwn fod y cynlluniau	1	Mae'r Cyngor yn falch iawn o'r sylwadau ac o'r berthynas cydweithio agos sydd yn bodoli gyda Grŵp Llandrillo Menai.

	ynglŷn a sefydlu un ysgol 3-16 o dan adain Ysgol Y Gader yn Dolgellau yn synhwyrol ac yn gynaliadwy. Rwyf felly yn cadarnhau ein cefnogaeth swyddogol i'r datblygiad sydd ar gynnig.																														
1.6	Nifer o blant yn mynychu Ysgol Clogau gan ei bod yn ysgol ddistaw heb fod yn orlawn	1	Fel y gwelwch o'r tabl isod, mae niferoedd wedi bod yn gostwng yn Ysgol Clogau ers rhai blynnyddoedd, ac ni ragwelir cynnydd mawr yn y rhagamcanion:																												
1.7	Byddai cau Ysgol Clogau yn cael effaith negyddol sylweddol ar nifer o blant	1																													
			<table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol Clogau</th> <th>Niferoedd</th> <th>Ysgol Clogau</th> <th>Rhagamcanion</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2009</td> <td>39</td> <td>2015</td> <td>27</td> </tr> <tr> <td>2010</td> <td>36</td> <td>2016</td> <td>26</td> </tr> <tr> <td>2011</td> <td>33</td> <td>2017</td> <td>27</td> </tr> <tr> <td>2012</td> <td>32</td> <td>2018</td> <td>24</td> </tr> <tr> <td>2013</td> <td>25</td> <td></td> <td></td> </tr> <tr> <td>2014</td> <td>28</td> <td></td> <td></td> </tr> </tbody> </table> <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod bydd y cynnig yn golygu newid safleoedd i rai disgyblion a'r gobaith yw bydd cyfnod trosiannol lle bydd gweithgareddau pontio yn cael eu cynnal i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y disgyblion.</p>	Ysgol Clogau	Niferoedd	Ysgol Clogau	Rhagamcanion	2009	39	2015	27	2010	36	2016	26	2011	33	2017	27	2012	32	2018	24	2013	25			2014	28		
Ysgol Clogau	Niferoedd	Ysgol Clogau	Rhagamcanion																												
2009	39	2015	27																												
2010	36	2016	26																												
2011	33	2017	27																												
2012	32	2018	24																												
2013	25																														
2014	28																														
1.8	Adran 2.3, Tud 8 – awgrym mai 'rhesymoliad' yw'r weledigaeth a bod addysg plant a phobl ifanc yn ymddangos fel ystyriaeth eilaidd.	1	Gwella ansawdd addysg a phrofiadau plant yw un o brif amcanion strategaeth ad-drefnu ysgolion y Sir. Roedd gwella ansawdd addysg a ffactorau fel maint dosbarthiadau, arweinyddiaeth a rheolaeth, niferoedd disgyblion, ansawdd ac addasrwydd adeiladau sydd i gyd yn effeithio profiadau disgyblion yn rhai o'r ffactorau ystyriwyd wrth werthuso opsiynau.																												
1.9	Manteision nodir yn y grid ar ben dudalen 61 mewn gwirionedd yn fanteision disgwylidig gan addysg dda mewn unrhyw ysgol. Nid yw'r rhain yn fanteision penodol i'r math o ysgol ddalgylch sydd yn cael ei chynnig - mae yna ysgolion ar draws Cymru, cynradd ac uwchradd, yn cwrdd â'r nodau craidd Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig yn llwyddiannus iawn ar hawliau'r plentyn.	1	Cytuno bod rhain yn fanteision disgwylidig mewn unrhyw ysgol a bydd yr un disgwyliadau o'r ysgol ddilynol ddalgylchol pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i wireddu'r cynllun.																												
1.10	Sôn yn y ddogfen ymgynghori bydd athrawon uwchradd yn teithio i'r safleoedd cynradd i ddysgu pynciau arbenigol. Awgrym gan y Cyngor nad yw athrawon cynradd y dalgylch yn ddigon arbenigol yn eu meysydd? Llawer o athrawon cynradd wedi eu trwytho yn holl bynciau'r cwricwlwm ac mae ganddynt hwythau bynciau arbenigol. Onid yw'n bosib hefyd y gall athrawon cynradd gynnig arbenigedd yn y safle uwchradd? / Dogfen yn awgrymu yn gryf, pebai angen cwtogi staff i'r dyfodol, mai staff sy'n addysgu Cyfnodau Allweddol 2 a 3 y byddai'r wasgfa / Pam rhoi'r argraff fod athrawon uwchradd yn fwy abl i ddarparu ar gyfer rhai pynciau cynradd? Nid oes awgrym fod angen codi safonau yn y pynciau 'arbenigol' yn ôl adroddiadau Estyn / Tra'n croesawu unrhyw gydweithio, yn pwysleisio nad yw'n ymarferol	4	Mae creu hyblygrwydd o fewn strwythur staffio'r dalgylch o fantais i holl staff a disgyblion y dalgylch. Nid yw'r posibiladau staffio a grybwyllwyd yn y ddogfen yn adlewyrchu'n wael ar staff cyfredol y cynradd nac ychwaith yr uwchradd.																												
			Gall athrawon arbenigol cerddoriaeth fynd i'r safleoedd cynradd i ddysgu cerddoriaeth am gyfnodau penodol. Golyga hyn bydd holl disgyblion cynradd y dalgylch yn derbyn yr un gwersi cerddoriaeth fel eu bod ar yr un lefel yn trosglwyddo i'r safle uwchradd. Nid yw'n bosib i bob ysgol gynradd gyflogi athro/athrawes cynradd sydd yn gallu dysgu cerddoriaeth i'r un lefel ag y byddai arbenigwr yn y maes yn gallu gwneud. Mae rhai ysgolion cynradd yn prynu'r arbenigedd a byddai trefniant fel hyn yn dileu'r angen. Gall trefniant o'r fath olygu rhyddhau athrawon cynradd i roi eu hamser di-gswllt heb yr angen am athrawon llanw. Bydd yn fuddiol i'r sector uwchradd hefyd, gan byddai llai o angen i'r athro/athrawes gerdd																												

	<p>nag yn ddefnydd effeithiol o amser staff i fod yn teithio rhwng cymaint o safleoedd – angen cydnabod hynny yn ariannol, fyddai'n gosod costau ychwanegol ar gyllideb yr ysgol arfaethedig / Nodir y byddai'r 'disgyblion yn manteisio'n fawr o'r strwythur rheoli newydd ac ennill mynediad at adnoddau newydd a phrofiadau...Gallent hefyd deithio i safleoedd eraill ar rai achlysuron ar gyfer gwarsi'. Rhaid sicrhau buddsoddiad teg ar yr holl safleoedd er mwyn i hyn lwyddo/ Teimlir yn gryf bod angen gwariant cyson ar draws y dalgylch fel y byddai pob safle yn cael ei uwchraddio i'r un safon.</p>		<p>ddysgu ail (neu hyd yn oed trydedd pwnc). Mae'r Cyngor o'r farn y byddai trefniant o'r fath yn fuddiol ar sawl lefel.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cytuno y byddai modd defnyddio arbenigedd cynradd yn yr uwchradd hefyd. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghorol, bydd yn fanteisiol <i>"defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgu a dysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, er mwyn gwella dysgu'r disgyblion ar draws cyfnod pontio"</i> a bydd <i>"cyfle i fanteisio ar arbenigedd staff ar draws y grwpiau oedran"</i>. Gall hyn olygu athrawon cynradd yn rhoi cymorth i'r athrawon uwchradd i ddatblygu'r modd o ddysgu llythrennedd a rhifedd.</p> <p>Gall hyn olygu athrawon cynradd yn rhoi cymorth dysgu yn yr uwchradd. Y gwahaniaeth rhwng athrawon cynradd ac uwchradd yw lefel eu harbenigedd i ddysgu pwnc hyd at safon TGAU. Gan nad oes chweched dosbarth yn Y Gader, nid oes angen ystyried dulliau dysgu tu hwnt i TGAU.</p> <p>Yn y sector cynradd mae'r cwricwlwm craidd yn cael ei gynllunio a'i ddysgu naill ai fel pynciau penodol neu fel gweithgareddau sydd yn deillio o'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd. Mae tueddiad i bynciau all-graidd gael eu dysgu'n 'thematig' ac er mwyn atgyfnerthu sgiliau Llythrennedd a Rhifedd.</p> <p>Mae athrawon uwchradd yn dysgu oddi fewn i sesiynau pwnc penodol gyda sgiliau Llythrennedd a Rhifedd yn derbyn sylw cynyddol yn y pynciau all-graidd.</p> <p>O gofio prinder cynyddol athrawon arbenigol yn y sector Uwchradd ynghyd â lleihad yn nifer y disgyblion yn y sector mae gofyn i athrawon yn y ddau sector gydweithio ar bedagogiaeth, cynllunio mewn partneriaeth ac addasu'r dysgu a'r addysgu er mwyn gwneud defnydd priodol o unrhyw arbenigeddau pwnc yn y ddau sector wrth i'r Ysgol Ddilynol Dalgylchol gael ei sefydlu.</p> <p>Cydnabyddir gall trefniant o staff yn teithio o un safle i'r llall amharu ar eu hamser dysgu ond yr hyn sydd ei hangen yw amserlennu effeithiol sy'n golygu bod yr amser teithio'n cael ei gadw'n isel. Ni fydd hyn yn rhwystr mawr i gallu gwneud y defnydd gorau o adnoddau.</p> <p>Y gobaith yw bydd y model yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau ar draws y sectorau.</p>
1.11	Ar ba sail mae'r Cyngor yn ffyddiog bod model 8 yn mynd i weithio yn	1	Nid yw'r Cyngor yn ymwybodol bod unrhyw gorff llywodraethol yr ysgolion dan sylw yn

	<p>nalgyrch y Gader? Onid oedd mwyafrif o gyrff llywodraethol y dalgyrch wedi gwrthod y cynnig am ysgol gydol oes / ysgol ddilynol? Nid yw model fel hyn yn bodoli yn unlle o gwbl ac felly sut bod y Cyngor mor sicr mai hwn fydd yn datrys pethau yn nalgyrch y Gader? Ysgolion yng Nghwm Afan wedi cadw eu hunaniaeth a chau yr ysgolion lleiaf o ran nifer a wnaethpwyd yno. Nid oes digon o dystiolaeth i brofi bod model fel hyn yn gallu llwyddo.</p>		<p>gwrthwynebu'r model. Yn wir, prin iawn yw'r ymateb yn ystod yr ymgynghoriad statudol yn erbyn y model arfaethedig. Mae rhan fwyaf yr ymatebion yn gysylltiedig â'r safleoedd a ddewiswyd.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol nad yw'r model wedi ei sefydlu yn y ffurf y cynigwyd yn flaenorol. Mae cryn ymchwil wedi ei wneud ar sefyllfaoedd a sefydliadau gwahanol ac addaswyd y rhain i ddatblygu'r model ystyrir i fod yn fwyaf addas yn nalgyrch Y Gader.</p>
1.12	<p>Model arfaethedig yn newydd a heb ei brofi. Ystyried bod ysgolion yn eich model mor bell oddi wrth ei gilydd (20 milltir), sut allwch chi fentro hyn, yn enwedig gydag un pennaeth dros y cwbl, ac o ystyried y problemau sydd wedi bod yn Ysgol Y Gader dros y ddwy flynedd ddiwethaf?/Os bydd y model yn chwalu, pwy fydd yn atebol?/ Dylid symud ymlaen gydag addysg, ond nid trwy gymryd risgiau</p>	8	<p>Nid yw'r Cyngor o'r farn bod y ffaith ei fod o'n fodel arloesol yn rheswm dros beidio â sefydlu'r ysgol ddilynol ddalgyrchol gan ystyried y manteision gwahanol gall ei gynnig.</p> <p>Nid yw'r Cyngor yn ystyried bod yr opsiwn yma yn cynnwys risgiau lefel uchel, mae'r cynnig yn un arloesol ond mae gwahanol ffactorau wedi'u hystyried cyn penderfynu ar yr opsiwn a ffafrir.</p>
1.13	<p>Llawer o rieni yn datgan pryderon am safon addysg Ysgol Y Gader ac ystyried trosglwyddo eu plant i Ysgol Uwchradd Tywyn yn dilyn cam argraff bod safonau am barhau i ddirywio. Gall y broses gadarnhau syniadau rhieni os yw y broses yn ymddangos nad yw yn syniad fod pob disgybl yn cael addysg gyfartal. Pryderu fod rhieni am symud eu plant i Ysgol Gynradd arall ac yna Ysgol Uwchradd Tywyn. Ddim eisiau rhieni benderfynu fod addysg gwell yn y dalgyrch nesaf / Plant Ysgol Y Gader yn ystod y flwyddyn academaidd yma prin wedi astudio hanner y maes llafur TGAU / Llawer o broblemau yn Ysgol Y Gader Blwyddyn diwethaf – wedi colli allan ar waith. Os yw'r newid yn digwydd bydd, bydd un pennaeth yn edrych ar ôl 6 safle – ddim eisiau problemau yn ystod cyfnod TGAU/ Sut allwch chi fentro'r model hwn, yn enwedig gydag un pennaeth dros y cwbl, ac o ystyried y problemau mawr yn Ysgol y Gader dros y ddwy flynedd ddiwethaf?/ Un o ddadleuon y Cyngor yw bod gormod o amser Penaethiaid yn cael ei dreulio ar addysgu yn hytrach na rheoli. Sut gall y Cyngor ddisgwyl i un Pennaeth dros ddalgyrch redeg ysgol aml-safle yn effeithiol, tros sectorau uwchradd a chynradd? Bydd y pennaeth (amheuaeth ynglŷn ag a ellir cael unigolyn o galibr digon da i redeg ysgol mor fawr) yn treulio gormod o'i amser yn teithio o un ysgol i'r llall. Gallai hyn weithio mewn ardaloedd mwy trefol ond nid yn yr ardal hon / O ystyried sefyllfa fregus Ysgol y Gader ar hyn o bryd, roedd y corff yn bryderus o</p>	7	<p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhai rhieni wedi bod yn pryderu am addysg Ysgol Y Gader yn ddiweddar. Mae'r adran addysg wedi rhoi mesurau mewn lle i rhoi cymorth i'r ysgol</p> <p>Mae Ysgol Y Gader yn derbyn cefnogaeth a chynhaliadau ychwanegol er mwyn datblygu ymhellach yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth sydd eisoes ar waith ac yn cael ei mesur wrth fonitro safonau cyflawniad y disgyblion. Yn 2014 mae tystiolaeth gadarn fod y cydweithrediad rhwng staff, llywodraethwyr a swyddogion wedi dwyn ffrwyth gyda'r canlyniadau a'r cymarebau lleol a chenedlaethol ar gael i rieni.</p> <p>Ar hyn o bryd mae Pennaeth Strategol yn cydweithio gyda Phennaeth Mewn Gofal dros dro a dau Bennaeth Cynorthwyl yn ymateb i gynllun gwella penodol sydd wedi ei lunio ar y cyd gyda swyddogion GWE ac sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan is-banel o'r corff llywodraethol.</p> <p>Mae cyfle gyda'r model newydd arfaethedig i greu strwythur staffio arloesol. Mae'n wir mai 1 pennaeth fydd yn yr ysgol ond bydd hefyd uwch dîm rheoli fydd yn cydweithio â'r pennaeth i redeg yr ysgol.</p>

	unrhyw ansicrwydd a godai wrth drafod a datblygu'r ysgol ddilynol. Mae'r sefyllfa yma yn un sydd angen cynhaliath a chefnogaeth adeiladol.		
1.14	Safonau Ysgol y Gader wastad yn uchel, ac y bydd yr ysgol Ddilynol yma yn cadarnhau a datblygu addysg o safon arbennig.	1	
1.15	Sut mae lleihau'r niferoedd staff a chynyddu maint dosbarthiadau am wella addysg?	1	Bydd y cynnig yn sicrhau'r lefel staff priodol, ac yn creu mwy o ddsbarthiadau o'r maint addas gyda disgyblion o'r un oed. Bydd hyn yn hwyluso dysgu ac addysgu i'r staff, gan bod llai o wahanol feysydd llafur (cwricwlwm) angen eu dysgu. Bydd disgyblion yn gallu dysgu gyda chyfoedion yr un oed.
1.16	Pam fod pwyslais ar gau ysgolion bach hapus a llwyddiannus ac nid ar yr ysgol uwchradd	1	Nid yw pwyslais y cynnig ar gau ysgolion bach ond ar ddatblygu cyfundrefn addysgol priodol gynaliadwy i'r dyfodol. I allu wireddu hyn mae angen lleihau nifer y safleoedd cynradd gan ystyried bod 9 safle i gwta 350 o ddisgyblion, mae hyn ar gyfartaledd yn creu safleoedd oddeutu 40 disgybl. O greu sefydliad addysgol gyda 5 safle cynradd, bydd y cyfartaledd oddeutu 70 disgybl.
1.17	Cynigiwr yn dangos bod manteision gwneud y newidiadau arfaethedig yn gorbwyso manteision cadw pethau fel ag y maent. Byddai'r cynnig yn bodloni'r chwech prif nod a nodwyd yn y strategaeth ad-drefnu ysgolion.	1	Dyma rai o'r rhesymau pam y ffafrir yr opsiwn arfaethedig ac mae'r Cyngor yn falch o dderbyn sylwadau yn atgyfnerthu'r pwyntiau yma.
1.18	Cynigiwr yn nodi'n briodol mewn nifer o adrannau beth yw manteision y cynllun o ran gwella'r cyfleoedd addysgol i blant.	1	Mae'r Cyngor yn gweld nifer o fanteision addysgol i holl ddisgyblion dalgylch Y Gader wrth sefydlu'r model arfaethedig.
1.19	Cynigiwr yn awgrymu'n briodol bod y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar wella darpariaeth a'r amgylchedd dysgu ar gyfer y disgyblion yn ysgolion y dalgylch.	1	Wrth fuddsoddi £4.34miliwn o arian cyfalaf i uwchraddio safleoedd mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau ansawdd amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf. Yn ogystal â'r gwaith yma mae safleoedd Friog, Gader a Dinas Mawddwy yn derbyn gwariant ôl-groniad cynnal a chadw i'w gwella. Mae cyfanswm y gwariant ôl-ddefnydd cynnal a chadw yn £491,000. Golyga hyn bod y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddi £4,831,000 erbyn Medi 2017 i sicrhau yr ansawdd dysgu gorau posib pe bai'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yn cael ei sefydlu.
1.20	Cynigiwr yn datgan y gallai'r cynnig roi cyfle i wella addysg ar draws y dalgylch. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn rhoi enghreifftiau o achosion yn yr awdurdod lleol neu'r tu hwnt lle mae trefniadau o'r	1	Mae ysgolion dilynol mewn gwahanol ffurf eisoes yn bodoli yng Nghymru, gweler wybodaeth amdanynt isod:

fath wedi arwain at ddarpariaeth a deilliannau gwell yn y Cyfnod Sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol.

Enw	Lleoliad	Oedran	Safleoedd	Dyddiad Agor	Nifer Disgyblion
Ysgol Bro Pedr	Llanbedr Pont Steffan	3-19 oed	2		1,086
Ysgol Bro Hyddgen	Machynlleth	3-19 oed	2	Medi 2014	539
Ysgol Llanhari	Llanhari	3-19 oed	2	Medi 2012	491
Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr	Glyn Ebwy	3-16 oed	2	Medi 2012	1,488

Trefniant sydd yn rhannu rhai rhinweddau'r cynnig arfaethedig yw Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf yn De Cymru. Mae'r ffederasiwn yn cynnwys un ysgol uwchradd a phedair ysgol gynradd, ac ers ei sefydlu, wedi gweld cynnydd yng nghyrrhaeddiad a phresenoldeb disgyblion fel a ganlyn:

Presenoldeb - yn dangos gwelliant:

	2012/13	2013/14
Cynradd	92%	94.40%
Uwchradd	90.45%	91.02%

Cyrrhaeddiad Cyfnod Allweddol 2 – yn dangos cynnydd:

	2012/13	2013/14
Saesneg	73%	77%
Mathemateg	71%	77%
Gwyddoniaeth	77%	77%
Cymdeithasol/Personol	67%	77%

Cyrrhaeddiad Lefel 2 CA4 (5A* - C) – yn dangos cynnydd:

Blwyddyn	Cyrrhaeddiad	Blwyddyn	Cyrrhaeddiad
2010	41%	2013	63%
2011	48%	2014	88.50%
2012	57%		


Er bod cymeriad unigryw i bob ysgol, mae pob ysgol yn y ffederasiwn yn rhannu'r un ethos, agwedd, adnoddau, staff, ac arfer dda. Pa gamau a gymerwyd gan y Ffederasiwn i wella cynnydd y disgyblion?

			<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal sesiynau craffu gwaith a rhannu syniadau gan athrawon y pedair ysgol gynradd ym mhob cyfnod allweddol. Llywodraethwyr hefyd yn mynychu'r sesiynau er mwyn derbyn y wybodaeth lawn. • Tracio oed Darllen, Sillafu a Mathemateg yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu cynnydd parhaus disgyblion • Asesu disgyblion ym mhob ysgol yn yr un modd. Golyga hyn bod modd cymharu data a chlustnodi ac ymateb i broblemau yn gyflym. • Asesu manwl yn arwain at gynllunio gwaith yn effeithiol ar gyfer pob disgybl • Canllawiau marcio cyson a chlr i bob ysgol - disgyblion yn deall y drefn ac beth sydd angen iddynt ei wneud, er mwyn gwella eu gwaith. Deall y targedau penodol. • Parhâd o un cyfnod allweddol i'r nesaf gyda data perthnasol yn trosglwyddo. <p>O ran arolygu allanol, cynhaliodd Estyn arolwg yn ysgol Gynradd Cymer Afan ym mis Hydref 2011, ychydig cyn i'r ysgol ymuno â'r Ffederasiwn yn 2012. Ar y pryd, roedd perfformiad a rhagolygon gwella yr ysgol yn Ddigonol ond roedd angen gwaith er mwyn ateb y gofynion. Daeth Estyn yn ôl ar Ymweliad Monitro ym mis Ionawr 2013 ac erbyn hynny canfuwyd bod yr ysgol wedi rhannol ateb y gofynion. Erbyn yr ail ymweliad monitor ym mis Mawrth 2014, roedd perfformiad yr ysgol wedi gwella'n arw ac wedi un ai llwyddo gyflawni'r argymhellion yn llwyr neu bron yn llwyr. Penderfyniad Estyn oedd tynnu enw'r ysgol oddi ar rhestr ysgolion sydd angen gwella sylweddol.</p>
1.21	Dogfen ymgynghori statudol yn nodi'r posibilrwydd i alluogi hyblygrwydd ar draws pob oedran fel bod rhannu adnoddau, staff a chyfleusterau yn dod yn arfer safonol, gan gael effaith gadarnhaol ar gyflwyno'r cwricwlwm.	1	Mae hwn yn un o brif rinweddau y model arfaethedig ac mae'r Cyngor yn falch ei fod yn cael sylw ac yn cael ei gydnabod fel un o'r manteision gan ymgynghorai.
1.22	Cyfle am gysondeb a pharhad wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mewn dulliau addysgu, dysgu ac asesu a ddefnyddir ar draws yr holl safleoedd a sectorau.	1	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rhai trefniadau cydweithio gwirfoddol yn bodoli yn y dalgylch eisoes. Wrth bod yr ysgolion yn sefydliadau addysgol ar wahân ar hyn o bryd, gyda chyrff llywodraethol unigol, nid yw'n rhwydd sicrhau cysondeb llwyr ar draws yr ysgolion i gyd. Gall er enghraifft un corff penderfynu beidio â chydweithio ac nid yw'n gyson ar draws yr ysgolion wedyn.
1.23	Nid yw'r ddogfen yn cydnabod cydweithio cadarn sydd eisoes yn digwydd o fewn y Dalgylch, yn arbennig rhwng ysgolion cynradd, a hynny yn aml yn wirfoddol. Mae'n destun siom i'n haelodau nad ydynt, yn wyneb y datblygiadau cyfredol, wedi elwa o arian sydd ar gael i ddalgylchoedd eraill i hyrwyddo cydweithio o'r fath.	1	Er bod yr un cwricwlwm yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd, gall y cynnig newydd sicrhau bod yr un themâu yn cael eu haddysgu ar yr un adeg fel bod cydweithio yn ystod tymor penodol yn bosib. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr ysgolion presennol yn gweithio o fewn yr un gweithdrefnau ond wrth sefydlu un ysgol o dan un drefn reolaethol (un corff llywodraethu,
1.24	Ddogfen yn tybio bod cael un ysgol yn mynd i warantu'r un profiadau a'r un cyfleoedd ar gael ar draws pob safle. Ar hyn o bryd, mae	1	

	ysgolion yn gweithio ar yr un Cwricwlwm Cenedlaethol, yn ymateb i'r Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Sgiliau ac yn gweithio dan arweiniad yr un Awdurdod a than lygad barcod yr un Consortia. A yw'n realistig tybio y gellir cael mwy o gysondeb na'r hyn sy'n bod yn barod?		un pennaeth ac un tîm rheoli) bydd yn cysoni'r profiadau ymhellach. Mae rhaid cydnabod ar adegau bod gwahanol gyrff llywodraethu a phenaethiaid yn rhoi pwyslais ar agweddau penodol ac o sefydlu un drefn reolaethol bydd hyn yn cael ei gysoni, nid yn unig o fewn y sector cynradd ond yn yr uwchradd hefyd.
1.25	Byddai hefyd yn galluogi safleoedd ysgolion bach i gydweithio'n effeithiol i rannu arbenigedd, ond cadw presenoldeb safleoedd ysgolion yn y cymunedau gwledig.	1	
1.26	Cynigiwr wedi datgan nad yw'r cynnig yn cael effaith negyddol ar grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig - ymddangos bod hyn yn wir. Darpariaeth ddisgyblion ag anghenion arbennig penodol mewn dwy ddarpariaeth arbenigol ar hyn o bryd, sydd ynghlwm ag Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Y Gader. Bydd rhain yn parhau. Ysgol Ieuan Gwynedd yw'r ysgol gynradd dalgylch sydd wedi ei dynodi i dderbyn disgyblion ag anableddau corfforol ar hyn o bryd, ond nid oes uned yn yr ysgol. Dogfen yn datgan byddai'r ysgol newydd yn gallu derbyn disgyblion ag anableddau corfforol / Sicrhau fod y cyfle yn parhau i fod yn ddynodedig ar gyfer mynediad i ddisgyblion ADY dwys a chymhleth – darpariaeth ac adnoddau i sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion ag anghenion dwys fyddai'n dymuno addysg wledig yn ne Meirionnydd (cadw'r offer presennol sydd o safon uchel ac yn adnoddau diweddar – hoist, ystafell wlyb, cawod, gwely pwrpasol, toiled anabl)	2	Mae hyn yn wir fel rhan o'r cynnig yma, nid oes unrhyw newid i'r darpariaeth yn yr unedau Tŷ Aran a Thŷ Meirion a bydd safle Cynradd Dolgellau yn gallu derbyn disgyblion ag anableddau corfforol. Mae cynnig ar wahân yn edrych ar ddarpariaeth addysg anghenion arbennig Meirion/Dwyfor. Mae cyfnod gwrthwynebu rhybudd statudol i ail-leoli Tŷ Aran (sydd ar safle Cynradd Dolgellau ar hyn o bryd) ac Ysgol Hafod Lon yn Y Ffor i safle newydd ym Mhenrhyndeudraeth wedi dod i ben ar 19 Rhagfyr 2014. Bydd penderfyniad terfynol ar y cynnig yn cael ei wneud yn fuan yn 2015.
1.27	UCAC yn pwysu ar y Cyngor i wneud pob dim posibl i ddod i benderfyniadau terfynol ar ddyfodol ysgolion dalgylch y Gader cyn gynted â phosibl. UCAC yn derbyn bod cynnal yr un safonau yn heriol mewn amser o ad-drefnu ac mae hyn yn cael ei nodi fel 'risg'.	1	Mae Cyngor Gwynedd yn deall yr awydd i fynd â'r rhaglen ad-drefnu yn ei blaen yn ddi-oed yn nalgylch y Gader. Mae natur y prosesau statudol yn golygu fod cyfnodau penodol angen eu cynnal yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013). Bydd y Cabinet yn trafod ym mis Ionawr 2015, ac yn penderfynu cyhoeddi rhybudd statudol neu beidio. Deallir y pryder yn ogystal am y cyfnod o gyflwyno newid. O ran cynnal safonau mewn cyfnod o newid, fe wneir pob ymdrech i sicrhau na fydd ansawdd yr addysg a ddarperir i ddisgyblion y dalgylch yn cael ei heffeithio mewn modd negyddol yn ystod y cyfnod hwn.
1.28	Dogfen ddim yn cydnabod na dathlu safonau uchel yr ysgolion ar hyn o bryd, efo mwyafrif yn darparu addysg o ansawdd dda ac elfennau amlwg o ragoriaeth / Mae Brithdir wedi bod yn ysgol rhagorol am 35 mlynedd.	2	Mae'r ddogfen ymgynghorol statudol yn nodi safonau addysgol yr ysgolion presennol, gan gyfeirio'n benodol at adroddiadau mwyaf diweddar Estyn.
1.29	UCAC yn derbyn bod cyfnod trosiannol o'r cynradd i'r uwchradd yn holl bwysig ym mywyd plentyn a bod sawl astudiaeth genedlaethol yn	1	Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd y cyfnod trosiannol o'r cynradd i'r uwchradd. Y gobaith yw bydd y model arfaethedig yn hwyluso trefniadau ymhellach yn y

	<p>adnabod gwendidau yn y broses drosglwyddo. Mae'r ddogfen yn awgrymu nad oes dim cynlluniau lleol ar gyfer ymateb i'r her yma. Arfer da mewn sawl cyd-destun wedi lleihau effeithiau negyddol symud o un ysgol i'r llall o ran safonau addysgol a lles cymdeithasol mae fod sawl proses cyffelyb ar waith yn Nalgylch Dolgellau / Croesewir pwyslais ar gryfhau profiadau i ddisgyblion wrth drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod 3. Dylai darpariaeth addysgol ddilynol hyrwyddo newid a bod o gymorth i leihau'r gostyngiad mewn cyflawniad a welir ym mhrofiad nifer arwyddocaol o ddisgyblion pan fyddant yn symud o'r sector cynradd i'r uwchradd. Dylai leihau dyblygu profiadau dysgu rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3. O fewn un strwythur dilynol dylai bod mwy o gyfleoedd i sicrhau cysondeb mewn dulliau dysgu ac addysgu effeithiol, defnyddio systemau asesu a thracio cynnydd disgyblion ar draws cyfnodau addysgu cynradd ac uwchradd a chyfle i athrawon CA2 a 3 gydweithio'n llawer agosach dan amodau mwy cynhyrchiol a chynhaliol o fewn yr un sefydliad.</p>		<p>dalgylch.</p>
1.30	<p>Dylai prif ffocws unrhyw ad-drefniad addysgol fod ar allu'r strwythurau newydd a gynigir i wasanaethu plant yn well: eu haddysg, eu hanghenion, eu perthynas ag eraill, yn hytrach nag ar adeiladau a lleoliad. Hyderir felly mai un o brif ysgol ddalgylchol ddilynol yw sicrhau fod gan blant ym mhob un o'r chwe lleoliad fynediad i brofiadau addysgol o safon uchel yn cynnwys gofodau dysgu addas sy'n cyfarch gofynion sylfaenol addysg yn yr ugeinfed ganrif ar hugain e.e. ardaloedd priodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chyfleusterau addas ar gyfer addysg gorfforol.</p>	1	<p>Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y pwynt pwysig hwn. Prif ddiben y cynnig dan sylw yw cynnig addysg o'r radd flaenaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'r galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn. Mae sicrhau gofod addas ac adnoddau priodol yn hanfodol mewn unrhyw gyd-destun addysgol.</p> <p>Wrth fuddsoddi £4.34miliwn o arian cyfalaf i uwchraddio safleoedd mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau ansawdd amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf. Yn ogystal â'r gwaith yma mae safleoedd Friog, Gader a Dinas Mawddwy yn derbyn gwariant ôl-groniad cynnal a chadw i'w gwella. Mae cyfanswm y gwariant ôl-ddefnydd cynnal a chadw yn £491,000. Golyga hyn bod y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddi £4,831,000 erbyn Medi 2017 i sicrhau yr ansawdd dysgu gorau posib pe bai'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yn cael ei sefydlu.</p>
1.31	<p>Siarad a rhyngweithio yn allweddol mewn datblygiad plant a dysgu. Datblygiad cymdeithasol yn effeithio patrymau rhyngweithio rhwng plant. Ymchwil meysydd cwricwlaidd amrywiol yn cynnwys y celfyddydau, gwyddoniaeth a mathemateg yn cefnogi'r farn y dylai gweithgareddau ar y cyd fod yn agwedd ganolog o fywyd dosbarth. Oherwydd niferoedd isel iawn yn rhai blynyddoedd ysgol mewn amryw o'r ysgolion, ni ellir creu'r amodau sylfaenol hyn i rai plant. O weithredu'r cynllun a ffafrir, ceir cyfle i ddarparu profiadau tecach i</p>	1	<p>Falch o'r sylwadau yma sydd yn crynhoi rhai o'r manteision posib i sefydlu'r model arfaethedig.</p>

	<p>holl blant y dalgylch o ran profiadau dysgu, cyfleoedd cwricwlaidd adnoddau, gwariant y pen, a mynediad i ofodau dysgu pwrpasol. Creu ethos a disgwyliadau cyffredin i ddisgyblion, staff a rhieni/gofalwyr; rhoi mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio a chymhwyso'r cwricwlwm; darparu addysg sy'n fwy priodol i anghenion gallu disgyblion unigol oherwydd gall staff gyfrannu at bolisiau ac arferion ym mhob maes ar draws yr ystod oedran a chreu polisiau cyson ar gyfer gofal bugeiliol sy'n addas i oedran a dealltwriaeth disgyblion.</p>		
1.32	<p>Mae'r lleihad rhag-weledig yn niferoedd disgyblion y dalgylch dros y tair blynedd nesaf yn frawychus. Rhaid derbyn fod ad-drefnu darpariaeth addysgol 3-16/19 yn newid trefniadol sy'n digwydd mewn ardaloedd gwledig a threfol, yng Nghymru, ym Mhrydain ac yn Ewrop. Oni symudir ymlaen yn gyflym iawn gyda'r ad-drefnu, pa fath o ddarpariaeth a dyfodol addysgol sy'n wynebu ein plant yn wyneb y crebachu niferoedd, y gwasgu cyllidebol, a'r heriau economaidd ehangach cenedlaethol a byd eang?</p>	1	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen symud ymlaen gyda'r ad-drefnu a dyna pam yr ymgynghorir ar y cynnig yma. Nid yw parhau gyda'r drefn bresennol yn bosib mwyach. Mae'r Cyngor yn croesawu'r sylwadau o blaid ysgol ddilynol.</p>
1.33	<p>Gwerthfawrogem pe byddai modd cyhoeddi'r ddogfen 'Gydol Oes' sydd ar y gweill yn y Sir – hyn ar gyfer cynnig arweiniad am opsiynau posibl o fewn y gyfundrefn newydd a syniadau ar gyfer gweithredu.</p>	1	<p>Nid oes dogfen 'Gydol Oes' ffurfiol, mae trafodaeth wedi bod yn datblygu'r cysyniad gydol oes/dilynol. Mae hyn wedi'i gynnal gydag Aelodau Lleol Meirionnydd ac wedi cael mewnbwn proffesiynol addysg gan Benaethiaid, a rhoddwyd cyflwyniadau mewn seminarau gan Benaethiaid sefydliadau 3-18.</p>
1.34	<p>Rydym yn bryderus iawn bod cynifer o ysgolion gwledig yr ardal yn cau dan y Model hwn. Nid ydym yn gefnogol i'r Model.</p>	1	<p>Derbyn y sylw yn gysylltiedig a barn ar y model. O ran nifer ysgolion cynradd gwledig yn cau, hoffai'r Cyngor amlygu bod pedair safle wledig cynradd addysgol yn cael eu parhau i warchod addysg wledig.</p>
1.35	<p>Prif bryder yr ysgol newydd yw ei bod wedi'i hamserlennu i agor ym mlwyddyn TGAU fy mab. Sut fydd yr holl newid i system newydd effeithio arno fo? Hoffwn weld mwy o esbonio ar hyn yn y dadansoddiad.</p>	1	<p>Os bydd penderfyniad i fwrw mlaen gyda'r cynnig, yna trwy gydol y cyfnod o newid, fe fydd pob ymdrech wrth reswm yn cael ei gwneud i sicrhau na fydd ansawdd yr addysg yn cael ei effeithio mewn modd negyddol.</p>
1.36	<p>Angen trafodaeth ar y term 'dalgylch' o ystyried nifer y disgyblion a ddaw o'r Bermo, nid ar sail diffiniad hanesyddol ond ar gychwyn newydd ym myd addysg yr ardal. Roedd y corff yn gweld anghysondeb yn enghraifft 3 (tud.64) o ystyried mai un ysgol ddilynol sydd yn y cwestiwn yma.</p>	1	<p>Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefn benodol ynglŷn â dalgylchoedd, dyma fap dalgylch y Gader:</p>

			 <p>Nid yw'r Bermo yn rhan o ddalgylch Y Gader.</p> <p>O ran yr enghraifft cludiant yn gysylltiedig â disgybl cynradd o Bermo, pe bai'r disgybl yn mynychu ysgol gynradd yn nalgylch Y Gader heddiw, ni fyddai'n derbyn cludiant am ddim. Ni fydd newid i'r drefn yma.</p> <p>Wrth gwrs mae'n bosib i ddisgyblion all-ddalgylch fynychu'r ysgol ddilynol os oes lle, mae'n ddarostyngedig i ddewis rhieni.</p>
1.37	<p>Siomedig o'r bwriadu cau Ysgol Gynradd Brithdir. Roedd yn ysgol hynod hapus a llwyddiannus, ac er efallai ei bod hi yn fach o ran maint nid effeithiodd hyn o gwbl ar fy addysg. Ar yr ochr chwaraeon/ymarfer corff, doedd dim iard chwarae fawr yn Ysgol Brithdir ond nid effeithiodd hyn arnom gan i ni ddod i'r brig yn aml iawn yng nghystadlaethau pêl-rwyd a phêl-droedNi chawsom gam yn Ysgol Brithdir, cawsom yr holl gyfleon da-Llwyddiannus iawn yn yr eisteddfodau ac aethom drwodd i'r genedlaethol ar fwy nag un achlysur. Fel un teulu mawr hapus, a phlant o bob oedran yn cydchwarae â'i gilydd. Yn bendant mae Ysgol Brithdir wedi rhoi dechrau da a chadarn. Felly plis wnewch chi ystyried o ddifri eto cyn cau Ysgol Brithdir, camgymeriad enfawr fyddai hyn.</p>	1	<p>Mae'r Cyngor yn falch o glywed bod yr addysg a ddarperid yn Ysgol Brithdir o ansawdd uchel a bod yr ysgol yn un hapus a theuluol. Mae'r Cyngor hefyd yn deall nad peth hawdd yw wynebu unrhyw newid.</p> <p>Bwriad y cynnig hwn yw cynnal a pharhau ag elfennau gorau addysg ac ethos y dalgylch tra'n buddsoddi mewn adnoddau sy'n gydnaws â'r 21^{ain} ganrif er mwyn rhoi profiadau amrywiol a datblygu sgiliau a hyder holl disgyblion y dalgylch.</p>
1.38	<p>Mae'r nod o gael dosbarthiadau rhwng 12 a 25 mewn nifer yn gymeradwy ynghyd â'r manteision o gael llai o ystod oedran ym mhob dosbarth. Nid yw'n glir o'r Ddogfen i ba raddau mae'r grwpiau dysgu</p>	1	<p>Bydd strwythur dysgu'r uwchradd yn benderfyniad i'r pennaeth, corff llywodraethol a'r tîm staff pennod i'r ysgol ddilynol.</p>

	yn yr uwchradd yn mynd i fod yn hyfyw a pha fath o drefniadaeth a ragwelir ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Nid oes sôn am yr angen i gysoni'r lwfansau presennol ar draws yr ysgolion ac mae i hynny oblygiadau ariannol.		Mae cyfle i greu strwythur staffio newydd a modern i weddu gyda gofynion disgyblion y dalgylch.
1.39	Yn sicr, ni roddir digon o sylw i'r strwythur staffio presennol o fewn yr ysgol uwchradd a'r bwriadau dan y strwythur a ffafrir. Bydd yr angen am arbenigedd pynciol yn yr uwchradd yn parhau. A yw'r dyraniad a'r strwythur staffio yn y safle uwchradd yn mynd i warantu digon o arweinwyr meysydd – gwyddoniaeth, ieithoedd, meysydd creadigol, dyniaethau ac ati i gynnal y cwricwlwm statudol yn CA3 a CA4? Sut fydd y meysydd cwricwlaidd hyn yn cael eu harwain ac ym mha ffordd y bydd yr ysgol newydd yn rhan o unrhyw gydweithio o fewn y sector uwchradd ym Meirionnydd? Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan sylwadau megis 'ysgwyddo cyfrifoldebau traws-sector', 'a lleihau'r defnydd a wneir o staff yn gweithio y tu allan i'w prif faes arbenigedd', 'penodi athrawon arbenigol i sicrhau cysondeb ar draws pob grŵp oedran'.	1	
2	Cymuned		
2.1	Mae nifer o gysylltiadau cymunedol wedi ei greu yn Y Friog, sut fydd rhain yn cael eu ail greu gyda'r staff newydd?	1	Bydd cyswllt cymunedol yn un o'r ystyriaethau wrth sefydlu'r ysgol newydd arfaethedig. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cau safleoedd addysgol mewn pentref yn cael effaith negyddol ar y cymunedau ond bod mesurau lliniaru yn gallu lleihau'r effaith negyddol. Mae'r adroddiad effaith cymunedol yn nodi: <i>"Mae effaith y Modelau ar y cymunedau, a pa mor bellgyrhaeddol yw'r ardrawiad yn ddibynnol ar y mesurau lliniaru sy'n cael eu mabwysiadu mewn ymateb i'r newid. Mae hyn yn wir ym mhob un o'r 8 Model.</i>
2.2	Cau Ysgol Y Clogau yn cael effaith negyddol ar y pentref	1	<i>Ar gyfer y cymunedau ble bydd ysgol yn cau, awgrymir mabwysiadu rhai mesurau i liniaru'r effaith negyddol. Bydd y mesurau lliniaru hyn yn cael eu hystyried gan y Cyngor i'w hymgorffori pe penderfynir gweithredu ar yr argymhellion yn y dalgylch:</i> <ul style="list-style-type: none"> <i>Er mwyn creu ysbryd cynhwysol a pherchnogaeth, dylid sicrhau ar gychwyn a thrwy gydol y broses drosiannol fod Llywodraethwyr pob ysgol yn rhan annatod o'r datblygiadau a'r penderfyniadau gyda gwybodaeth reolaidd yn cael ei raeadru i rieni,</i> <i>Ymgynghori'n briodol gyda'r pentrefi a'r cymunedau lleol o ran cytuno ar ddefnydd pwrpasol o'r holl adeiladau i'r dyfodol</i> <i>Dylid rhaglennu i sicrhau fod cyfran o weithgareddau cymdeithasol yr ysgolion newydd (cyngerdd, noson goffi, ayyb) yn cael eu cynnal yn y pentrefi lle mae ysgolion yn cau,</i>

			<p><i>yn ogystal â'r pentrefi lle bydd presenoldeb safle ysgol yn parhau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>Dylai'r Cyngor sicrhau fod cynlluniau cludiant ysgol yn bwrpasol"</i> <p>Pe bai'r model yn cael ei weithredu, gall y Cyngor rhoi ystyriaeth priodol i'r mesurau lliniaru nodwyd yma.</p>
2.3	<p>Yn erbyn cau ysgol bentref Brithdir - ysgol yw calon y gymuned, yn dod â phobl ifanc a hen at ei gilydd yn rheolaidd. Cyfeillgarwch ac awyrgylch glos yma / Pan fydd yr ysgol yn cynnal digwyddiad, mae'r gymuned yn ei cefnogi gyda nifer o bobl yn mynychu / Gofyn i'r Cyngor ail ystyried/ Mae'r pentrefwyr i gyd, yn Saeson a Chymry bob tro yn barod i gefnogi unrhyw weithgaredd y mae'r ysgol yn trefni. Bechod fyddai colli y cysylltiad yma / Mae ysgol yn gwreiddio plant yn eu bro ac mae'r trawsblaniad yma yn mynd i alltudio plant Y Brithdir o'u cynefin a thlodi ein hardal yn ddifrifol / Bwriad yw cau ysgol ffyniannus, ganolog sy'n argoeli'n ardderchog ar gyfer y dyfodol a symud plant ysgol Brithdir i safle ar y cyrion, sy'n groes i'ch polisi chi eich hun, ac sydd a niferoedd isel iawn yn barod ac yn argoeli'n wael iawn ar gyfer y dyfodol o ran niferoedd</p>	4	<p>Diben ysgol mewn unrhyw bentref yw darparu addysg o'r radd flaenaf i'r disgyblion. Er hynny, cydnabyddir bod unrhyw ysgol yn gallu bod yn rhan annatod o'r gymuned gyfagos a bod gan drigolion ysgolion deimladau cryfion ynghylch cynnal yr ysgol leol.</p> <p>Yr hyn y mae'r cynnig hwn yn ei wneud yw ceisio ymdrin â'r sefyllfa bresennol gan nad yw'r sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy. Diben y cynnig yw sefydlu trefn addysgol o'r ansawdd uchaf posibl i ddisgyblion dalgyllch y Gader gan ddatblygu profiadau, sgiliau a hyder er mwyn eu galluogi i ddatblygu i'w llawn botensial.</p>
2.4	<p>Yn y gorffennol Ysgol Brithdir wedi cael cyn lleied ag 20 o blant ond roedd rhieni a'r gymuned yn hel arian i gadw'r ysgol i fynd – mae'r cysegriad yma yn sicrhau y gorau i plant. Un blwyddyn y rhieni beintiodd yr ysgol gan fod y Cyngor wedi gwrthod.</p>	1	<p>Cydnabyddir ymdrech rhieni Brithdir a phob pentref arall i gefnogi addysg eu plant. Partneriaeth ydy addysg rhwng rhieni, disgyblion a'r ysgol. Y newyddion da ydy na fydd angen i rieni wneud gwaith tebyg o hyn ymlaen fel rhan o'r cynnig arfaethedig.</p>
2.5	<p>Byddai colli'r ysgol (Brithdir) yn gallu amharu ar y feithrinfa, llai o swyddi yma ac efallai adeilad gwag. Llwyddiant y feithrinfa yn dangos nad oedd trigolion pentref Brithdir eisiau gweld adeilad gwag yn y pentref, ac maen dal fel pwyllgor yn weithgar iawn. Buasai ffeindio menter arall tebyg yn anodd iawn adeilad yr ysgol.</p>	1	<p>Mae Meithrinfa Saith Seren yn fenter breifat ym mhentref Brithdir. Mae unrhyw newidiadau o fewn trefi a phentrefi yn gallu effeithio ar fusnesau a chwmnïau yn yr ardaloedd hynny, rhai er gwell, eraill er gwaeth.</p>
2.6	<p>UCAC yn cytuno ei bod yn ddymunol cynnal addysg mewn cynifer o gymunedau â phosibl er budd y gymuned ehangach ac i leihau amser teithio disgyblion. Ni ellir mesur y golled pan fydd ysgol yn cau a bydd angen cynlluniau penodol ar gyfer y cymunedau hynny sydd yn colli eu hysgol leol. Sylwadau am ôl-ddefnydd adeiladau ysgolion yn rhy gyffredinol ac amwys.</p>	1	<p>Mae Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd o ran effaith posibl cau ysgolion ar gymunedau yn nalgylch y Gader ac yn effro i'r her o geisio lliniaru'r effeithiau posib hynny. Os bydd y cynnig hwn yn cael ei wireddu, mae'r Cyngor yn ymrwymo i weithio gyda'r cymunedau hynny er lles y gymuned.</p>
3	Materion Staffio		
3.1	<p>Hybu penodi staff lleol sy'n nabod yr ardal a teuluoedd lleol</p>	2	<p>Bydd modd i aelodau'r corff llywodraethol cysgodol, sef cynrychiolwyr yr ardal, roi mewnbwn i'r broses benodi.</p>

3.2	<p>Nid yw'r ddogfen ymgynghorol statudol yn rhoi unrhyw arwydd o nifer y diswyddiadau / adleoli posibl. Cyngor Tref Abermaw yn gwrthwynebu camau i wneud gweithwyr yn ddi-waith / Faint o swyddi fydd dros ben? Achos poeni a straen / Pwy fydd yn cael eu gadael allan? / Pryder mawr nad yw staff ysgol yn cael eu gwarchod / Nid ydym yn teimlo bod atebion gan y swyddogion ynghylch dyfodol swyddi / Pawb yn bryderus iawn am hyn/ Allech chi gadarnhau y nifer o staff fyddai'n cael eu effeithio gan y cynnig? Awgrymwyd gan aelod o'r gynulleidfa mewn cyfarfod yn Gorffennaf byddai 70 staff yn cael eu diswyddo. Adroddiad yn awgrymu "ansicrwydd a diswyddiadau" a dim ffordd ymlaen eglur.</p>	4	<p>Gan mai ymgynghori ar yr opsiwn a ffafrir yn unig sydd dan ystyriaeth ac nad yw'r penderfyniad terfynol wedi ei wneud, mae'n anodd iawn rhoi ffigur benodol ar nifer y swyddi fydd ar gael yn yr ysgol newydd. Yn ogystal â hyn, bydd penderfyniad y strwythur staffio yn nwylo'r corff llywodraethol cysgodol. Bydd Ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i drafod gyda staff ysgolion y dalgylch ar holl gamau'r daith ac yn eu diweddarau fel bo'n briodol. Gan ystyried bod 4 safle addysgol yn cau bydd llai o swyddi o gymharu â'r nifer presennol ond nid oes modd ymhelaethu ymhellach.</p>
3.3	<p>UCAC yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol i nifer o bryderon godwyd gan yr Undeb yn sgil yr ad-drefnu ardaloedd eraill - pwyswn eto am benderfyniad buan ar faterion staffio, am sicrhau bod staff yn cael diweddariad cyson ar yr hyn sy'n digwydd, a phob cefnogaeth a chynhaliath wrth iddynt fynd drwy'r broses o lenwi swyddi. Cyfathrebu clir a chyson yn gallu bod yn gymorth mawr ar adegau o ad-drefnu sydd yn gallu creu llawer o ansicrwydd a gofid am swyddi.</p>	1	<p>Pe bai'r penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud, bydd Ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth gydol y broses. Mae nifer o gyfarfodydd a chymorth wedi cael ei rhoi i staff ysgolion yn gysylltiedig â datblygiad Ysgol Ardal Groeslon, Carmel a Bron y foel yn y 6 mis diwethaf, a bydd y cymorth yma ar gael i staff ysgolion dalgylch Y Gader. Mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r galw ar am gefnogaeth Ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol y Cyngor gan ystyried bydd staff 10 ysgol angen cymorth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.</p>
3.4	<p>Brithdir wedi ceisio hwyluso'r broses wrth wahodd pennaeth Ysgol Ieuan Gwynedd i reoli Ysgol Brithdir –Sir ac Estyn yn nodi llwyddiant y trefniant yma – lle mae cydnabyddiaeth o hyn yn eich penderfyniad? / Yn ystod blynyddoedd ad-drefnu mae sawl pennaeth wedi rhedeg dwy ysgol ac athrawon yn yr ysgolion hynny o ganlyniad wedi gorfod ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol fel Penaethiaid Cynorthwyol ar ben gofal dosbarth.</p>	2	<p>Mae'r Cyngor yn falch o weld y trefniant o rannu pennaeth yn llwyddo yn y dalgylch. Yn wir, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn un o'r ystyriaethau wrth gymharu modelau ac mae'n fwriad datblygu ar y math o sefyllfa sydd yn y Brithdir ac Ieuan Gwynedd gydag un pennaeth yn rheoli 6 safle. Mae trefniant o'r fath yn mynd i sicrhau cydweithio ffurfiol er mwyn rhannu arbenigedd ac adnoddau a chynllunio cwricwlwm ar draws y dalgylch cyfan. Fe fyddai hefyd yn golygu mwy o amser digyswllt i'r pennaeth arwain a rheoli ac fe fyddai cyfleoedd gwell ar gyfer datblygu gyrfaedd staff wrth fod yn rhan o dîm staff mwy.</p>
3.5	<p>Problem wrth geisio recriwtio penaethiaid ac athrawon uchel eu safon a phrofiadol ar gyfer ysgolion y dalgylch / Cynnig yn nodi'n glir yr anawsterau sy'n cael eu profi gan yr ysgolion presennol o ran arweinyddiaeth a rheolaeth, o ran recriwtio staff a galluogi digon o amser iddynt gyflawni eu rolau arwain. Mae'r cynnig yn cynnwys manylion am y gwelliant disgwylidig mewn amser arwain ac yn nodi nifer o gyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfa staff yn y strwythur staffio newydd, gan gynnwys rolau arwain fel arweinwyr bugeiliol a chwricwlaidd / A gallai rhywun hefyd ddadlau ei bod dipyn yn haws denu pennaeth o'r calibr gofynnol i ardal drefol fwy poblog.</p>	3	<p>Mae recriwtio penaethiaid ym Meirionnydd yn her ar hyn o bryd, a gall bod hyn oherwydd poblogaeth a'r elfen wledig, ond gall bod am nifer o resymau eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod penodi pennaeth i'r ysgol arfaethedig am fod yn her ond yn cynllunio ar gyfer hyn.</p>

3.6	Croesawir eglurhad o drefn rheolaethol y cynllun	1	Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghorol statudol nid yw'n bosib rhagweld beth fydd y strwythur staffio ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig i greu ysgol ardal ddilynol ddalgylchol newydd, yna bydd angen sefydlu corff llywodraethol cysgodol a fyddai'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r dalgylch. Y corff llywodraethol hwnnw fyddai'n gyfrifol am benodi Pennaeth ac yna llunio strwythur staffio ar y cyd gyda'r Pennaeth.
3.7	Heb fodel staffio clir ni ellir gweld bod sylw megis 'timau rheoli a gweinyddol o faint hyfyw' yn realistig. Bydd yr ysgol newydd efo oddeutu 600 o ddisgyblion, llai na sawl ysgol uwchradd yn y Sir a gwyddom mor dynn yw'n ariannol ar yr ysgolion hynny. Fe fydd gofynion gweinyddol ar bob safle yn ogystal ag unrhyw leoliad a ystyrir yn brif safle / Wrth baratoi strwythur staffio a disgrifiadau swyddi penodol, mae'n allweddol ystyried y ddyletswydd sydd ar y corff llywodraethol i sicrhau bod unrhyw sefyllfa staffio yn rhoi ystyriaeth ofalus i lwyth gwaith holl athrawon yr ysgol gan gynnwys y pennaeth. Mae'n ddyletswydd statudol ar yr ysgol i sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith priodol dan ofynion y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon ysgol.	1	Mae'r pwynt sy'n cael ei godi yma yn un dilys. Mae'n allweddol ac yn statudol i bob ysgol ofalu am aelodau staff o ran amodau gwaith a llwyth gwaith yn unol â gofynion y Ddogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon.
3.8	Corff llywodraethol Cysgodol yn pennu'r strwythur staffio yn osgoi prif her sefydlu ysgol o'r math yma. O dderbyn byddai'r penderfyniad terfynol yn nwylo'r Corff, dal i ddisgwyl i'r Awdurdod fod yn cynnig arweiniad pendant ar hyn gan ei fod yn fater mor greiddiol i lwyddiant yr ysgol. Byddai'n annheg disgwyl i'r Corff gychwyn efo llechen lân.	1	Bydd y Corff Cysgodol yn derbyn arweiniad gan Swyddog o'r Adran Addysg o'i sefydlu hyd at drosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r corff parhaol. Rhaid i'r corff parhaol fod yn ei le erbyn diwedd y tymor cyntaf yn dilyn yr agoriad (yn yr achos yma rhagwelir erbyn diwedd Rhagfyr 2017). Bydd y Swyddog Addysg yn arwain pob cyfarfod llywodraethol y Corff Cysgodol a bydd arweiniad pendant gan Uwch Swyddog Addysg i greu Strwythur Staffio gyda'r Pennaeth newydd ynghyd â'r Corff Cysgodol.
3.9	Cam cyntaf yw penodi pennaeth - UCAC am weld hyn yn digwydd o leiaf flwyddyn ymlaen llaw efo datblygiad mor gyffrous â hyn. Cytunwn y bydd angen person o galibr arbennig i gyflawni'r rôl heriol hon a rhaid gofyn a yw'n ymarferol bosibl i un person redeg Ysgol Ddilynol dros chwech safle. Yn ogystal ag arwain cwricwlwm 3-16 oed, bydd angen i'r person yma reoli tîm sylweddol o staff. O'r trafodaethau mae UCAC wedi'u cael efo penaethiaid mewn ysgolion aml-safle, mae rhieni, a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn disgwyl bod presenoldeb y pennaeth yn amlwg, yn gyson ac yn lled gyfartal ar bob safle. Fe fydd cael un Corff llywodraethol yn fanteisiol o ran llwyth gwaith y Pennaeth. Ond bydd y gofynion er hynny yn drwm iawn o	1	Cytunir y bydd penodi'r unigolyn priodol i'r swydd Pennaeth ar gyfer yr ysgol ddilynol ddalgylchol yn allweddol. Bydd angen rhywun sy'n meddu ar weledigaeth bendant, presenoldeb wrth ymwneud â rhieni a rhan-ddeiliaid allweddol eraill a'r gallu i ennill parch, cydweithio a hygredded ymhlith staff a disgyblion pob safle'r ysgol. Fodd bynnag, credir yn ogystal y bydd penodi aelodau staff brwdfrydig, profiadol a phroffesiynol ar y 6 safle yn hynod o bwysig ac yn greiddiol i lwyddiant yr ysgol newydd. O ran pwysau gwaith ar y Pennaeth, fe fydd angen sicrhau bod y strwythur staffio a ddatblygir yn hwyluso'r gwaith o ddydd i ddydd a'r baich gwaith wedi'i rannu rhwng yr uwch dîm rheoli er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn y modd mwyaf effeithiol er budd y disgyblion.

	<p>dan y math yma o strwythur o ran gorfod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi Set Ddata Craidd sawl uned wahanol a'u dehongli • Darparu hunan arfarniad ar sail y data a hynny ar wahân, o bosibl, yn arbennig adeg arolwg • Llunio Cynllun Datblygu Ysgol sy'n ymateb i anghenion pob safle <p>Sut fydd Estyn neu'r Consortia yn ymateb tybed os yw eu canfyddiadau yn amrywio o safle i safle ac a oes sicrwydd mai un 'ymweliad' fydd yr ysgol yn derbyn bob tro?</p>		<p>Parthed y cwestiwn am arolygu, os bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen, fe fydd yr Ysgol Ddilynol Ddalgyrchol yn cael ei hystyried fel un endid ar gyfer dibenion arolygu gan mai un set o staff, un corff llywodraethol ac un set o ddata a pholisïau gyda'r addysgu yn digwydd ar 6 safle.</p> <p>Ar sail gwersi a ddysgwyd mewn siroedd eraill dylai pennaeth gael ei benodi o leiaf blwyddyn cyn i'r ysgol ddilynol ddalgyrchol arfaethedig agor. Bydd hyn yn galluogi amser paratoi fel bod penodiadau a strwythur staffio yn gallu cael ei greu ynghyd â sicrhau amser digonol i greu polisïau a threfniadau cadarn cyn i'r ysgol agor. Bydd angen i'r Cabinet ystyried hyn a sicrhau fod ymrwymiad adnoddau allan o arbedion y cynllun er mwyn penodi unigolyn cymwys ac addas, a hynny'n amserol.</p>
3.10	<p>Mae rôl yr arweinyddion safle yn mynd i fod yn greiddiol i lwyddiant yr ysgol newydd. Mae gan UCAC bryderon nad yw amser digysyllt na chydabyddiaeth ariannol ddigonol yn cael eu sicrhau i ddeiliaid swyddi o'r fath. I bob pwrpas byddant yn cyflawni cyfran sylweddol o rôl y penaethiaid presennol ac mae'r Ddogfen yn adnabod bod ymrwymiad dysgu'r penaethiaid hyn yn destun pryder yn y sefyllfa bresennol. Profiad aelodau sydd yn dal swyddi o'r fath yng Ngwynedd – ac mewn awdurdodau eraill – ydy nad oes digon o amser yn cael ei neilltuo i gyflawni holl ofynion y swydd a bod yna amwysedd rhwng cyfrifoldeb pennaeth 'strategol' a phennaeth safle. Cyn penodi pobl i'r swyddi hyn, felly, fe ddylai'r Corff Llywodraethol Cysgodol fod yn glir ynghylch ymrwymiad dysgu'r sawl a benodir ac a fydd y disgwyliadau'n lled gyfartal rhwng pob safle fel ei gilydd. Cred UCAC y dylai'r broses recriwtio staff ar gyfer yr ysgol newydd ganolbwyntio ar hysbysebu mewnol ar draws yr ysgolion fydd yn cau. Dylid osgoi diswyddo gorfodol.</p>	1	<p>Unwaith y bydd y Pennaeth wedi'i benodi fe fydd Uwch Swyddog yn cynorthwyo'r Pennaeth newydd ynghyd â'r Corff Llywodraethol Cysgodol i greu Strwythur Staffio a fydd yn rhoi ystyriaeth fanwl i gyfrifoldebau penodol gwahanol rolau, bydd y rôl allweddol gan yr unigolion sydd yn rhedeg y safleoedd o ddydd i ddydd.</p>
3.11	<p>Staff dalgyrch yn bryderus iawn am y dyfodol o ran gwaith - llawer gyda contractau parhaol. Pa fesur neu fwriad sydd gan y Cyngor i warchod y gweithlu hwn?</p>	1	<p>Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd â'r Undebau Llafur a'r penaethiaid. Byddai'n benderfyniad i'r Corff Llywodraethu cysgodol i fabwysiadu, neu beidio â mabwysiadu'r polisi. Byddai'n ofynnol i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig gydymffurfio gyda'r gyfraith cyflogaeth perthnasol a chynllun Diswyddo Gwynedd. Bydd cyfathrebu clir ac agored gyda staff yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynig.</p>
3.12	<p>Siom fawr oedd deall, yn ystod dyddiau'r ymgynghoriad, nad oedd gan Adran Personél y Cyngor unrhyw wybodaeth i ni i leddfu ein pryderon</p>	2	<p>Yn anffodus nid yw'n bosib gwybod manylion sefyllfa unigolion staff nes bydd y penderfyniad wedi'i wneud. Roedd Ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol ar gael i egluro'r</p>

	am golli swyddi hyd nes y byddai penderfyniad wedi ei wneud ynghylch y cynnig. Byddai cael cynrychiolwyr yr undebau yn bresennol yn y deuddydd hynny wedi bod o fudd i'r gweithlu / Trueni nad oedd cynrychiolwyr o'r Undebau yn ymwybodol ein bod mewn cyfnod ymgynghori statudol er mwyn gallu gwarchod buddiannau'r staff a'u cynghori yn effeithiol.		broses ac i egluro pa gymorth sydd ar gael ar hyd y daith. Roedd croeso i unrhyw un fynychu'r diwrnodau agored. Anfonwyd y ddogfen ymgynghori i gynrychiolwyr undebau oedd yn nodi bod y dyddiau agored yn cael eu cynnal.
3.13	Mae'r ddogfen a rannwyd i ddisgyblion yn nodi y bydd yr ysgol ddilynol yn rhoi cyfleoedd gyrfa i staff'. Eironi llwyr yw hyn gan mai'r bwriad yn amlwg yw cwtdogi ar staff er mwyn arbed arian. Pa yrfa oedd sydd gan y Cyngor i'w cynnig i staff fydd yn colli eu swyddi ym Meirionnydd? / Adroddiad Cabinet 16/09/14 yn dweud (4.6.6) bydd cyfleoedd cyffrous i staff gael datblygu gyrfa mewn sefydliad mwy – ysgol fwy ar bapur yn unig fydd hon, bydd nifer y safleoedd a thrwy hynny nifer y swyddi'n lleihau'n aruthrol heb sôn am bobl yn colli eu gwaith. Sut y gall y Cyngor gyfiawnhau dweud hyn? Honni bod cyfleon cyffrous i staff yn Model 8; nid yw colli eich swydd yn gyfle cyffrous	4	Ar hyn o bryd mae nifer o benaethiaid cynradd yn dysgu am ran helaeth o'u hamser a ddim yn cael eu rhyddhau'n ddigonol i arwain, rheoli a cynllunio. Wrth greu strwythur arwain a rheoli newydd yn yr ysgol arfaethedig ni fydd yn ofynnol i'r pennaeth ddysgu am ran fwyaf ei amser. Bydd y strwythur yn caniatáu datblygu rheolwr/arweinwyr safle bydd yn magu sgiliau angenrheidiol i fod yn arweinwyr llwyddiannus, gyda'r sicrwydd o gefnogaeth ac unigolion profiadol i allu troi atynt.
3.14	Mae'r ddogfen ymgynghori statudol yn amlinellu'r cyfleoedd posibl i staff weithio gyda'i gilydd, trafod a rhannu arfer orau, cynorthwyo ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd.	1	Mae'r Cyngor yn ystyried y pwyntiau yma fel rhai o fanteision y cynnig arfaethedig.
3.15	Arbed arian trwy leihau nifer staff yw bwriad y Cyngor, maint a difrifoldeb cwmwl sydd wedi bod yn hofran dros holl staff ers deng mlynedd.	2	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod trafodaethau trefniadaeth ysgolion yn creu ansicrwydd yn y dalgylch a bod y cyfnod i ddod am fod yn ansicr a gall arwain at ddiswyddiadau. Gan fod penderfyniad terfynol heb ei wneud eto (ymgynghori'n unig yw'r cam yma) nid yw'n bosib rhoi gwybodaeth fanwl am sefyllfaoedd unigol. O ran nifer y swyddi bydd yn cael ei golli, mae hefyd yn gynamserol nodi hyn oherwydd bod y strwythur staffio'r ysgol newydd yn fater trafod i'r corff llywodraethol cysgodol. Pe bai'r penderfyniad terfynol i weithredu'r cynnig yn cael ei wneud, bydd ymgynghorwyr adran Adnoddau Dynol y Cyngor ar gael i roi cymorth gydol y broses. Mae nifer o gyfarfodydd a chymorth wedi cael ei rhoi i staff ysgolion yn gysylltiedig â datblygiad Ysgol Ardal Groeslon, Carmel a Bronyfoel yn y 6 mis diwethaf, a bydd y cymorth yma ar gael i staff ysgolion dalgylch Y Gader. Mae angen i'r Cabinet fod yn ymwybodol o'r galw ar am gefnogaeth gwasanaeth ymgynghorol Adnoddau Dynol y Cyngor gan ystyried bydd staff 10 ysgol angen cymorth pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.
3.16	Sefyllfa bresennol wedi rhoi straen eithriadol am 10 mlynedd ar staff, rhieni a llywodraethwyr, nid yw hyn wedi effeithio addysg y disgyblion oherwydd staff sydd wedi aros yn y Brithdir trwy bob dim – eu gwobr yw colli eu swyddi heb unrhyw sicrhad i'r dyfodol yn y trefniant newydd / Deall yr angen i ad-drefnu ond pwysleisiwn yr angen dybryd bellach i symud ymlaen er lles pawb. Staff yn gweithio dan bwysau sylweddol ychwanegol oherwydd y broses hirfaith yma. Angen mynd y filltir ychwanegol i gydweithio yn hynod effeithiol er mwyn sicrhau safonau uchel. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod y cynllun yn un llwyddiannus a bod buddsoddiad teilwng yn cael ei roi er mwyn cyflawni hyn. Teimlo bod yr ardal wedi ei thrin yn is-raddol ers blynyddoedd ac er gwaethaf unrhyw doriadau, mae dyfodol pob plentyn yn dibynnu ar lwyddiant y cynllun.	2	
3.17	Deall yr angen i ad-drefnu ond pwysleisiwn yr angen dybryd bellach i	1	

	<p>symud ymlaen er lles pawb. Rydym yn gweithio dan bwysau sylweddol ychwanegol newydd oherwydd y broses hirfaith yma ac yn mynd y filltir ychwanegol i gydweithio yn hynod effeithiol er mwyn sicrhau safonau uchel. Rhaid i'r Cyngor sicrhau fod y cynllun yn un llwyddiannus a bod buddsoddiad teilwng yn cael ei roi er mwyn cyflawni hyn. Teimlwn yn gryf fod yr ardal hon wedi cael ei thrin yn israddol ers blynyddoedd ac er gwaethaf unrhyw doriadau, mae dyfodol pob plentyn yn dibynnu ar lwyddiant y cynllun.</p>		
3.18	<p>UCAC bryderon bod gormod o amwysedd ynghylch y drefniadaeth staffio o fewn ysgol aml-safle a gormod o ragdybiaethau. Dogfen Ymgynghori yn cydnabod, mae trefniadaeth o'r fath yn dal yn lled unigryw yng Nghymru ac mae nifer o'r sialensiau heb eu hadnabod, heb sôn am eu datrys, hyd yma. Fodd bynnag, mae'r Undeb yn disgwyl y bydd llawer mwy o wybodaeth ar gael am y materion a nodwyd uchod o fewn unrhyw gynnig terfynol.</p>	1	<p>Mae'r Cyngor yn derbyn y pwynt ynghylch y pryderon ac yn deall fod y cyfnod hwn o newid yn un dyrys. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch opsiwn, bydd modd edrych yn fanylach ar drefniadaeth staffio a bydd gwybodaeth yn cael ei rhaedru yn amserol i ran-ddeiliaid perthnasol.</p> <p>Mae 4 ysgol 3-16 (3-19) a ffederasiwn 5 ysgol eisoes yn bodoli yng Nghymru gall bod o gymorth wrth greu'r strwythur staffio.</p>
3.19	<p>Yn amlwg o fewn strwythur ysgol ddalgylchol bydd gwell cyfleoedd i athrawon fedru arbenigo ar feysydd cwricwlaidd penodol o fewn y cwricwlwm cynradd a lledaenu eu harbenigedd trwy'r lleoliadau cynradd. Drwy weithredu fel hyn gellid cynnig profiadau arbenigol cyffredin i holl ddisgyblion, rhoi cyfle i blant dderbyn profiadau addysg mwy arbenigol o oedran iau a thrwy hynny godi safonau ymhellach. Yn ogystal gellir datblygu rolau cydlynwyr pynciol, traws gyfnod a fydd hefyd yn cyfrannu at ddatblygu arbenigedd athrawon a chodi safon cyflawniad disgyblion. Bydd cyfleoedd amlwg i sicrhau bod staff o'r sectorau gwahanol yn rhannu arfer da ac yn manteisio ar brofiadau ac arbenigedd ei gilydd ac wrth dynnu ar ystod ehangach o arbenigedd a phrofiadau ar draws y sectorau er mwyn datblygu profiadau dysgu'r disgyblion.</p>	1	<p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod hyn yn bwynt pwysig ac yn un o brif fanteision y cynnig arfaethedig. Nod yr holl gynllun yw darparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi profiadau eang ac yn datblygu sgiliau a hyder plant a phobl ifanc y dalgylch a all roi cyfle i athrawon dreulio mwy o amser yn canolbwyntio ar eu meysydd arbenigol, rhannu arfer da a dysgu'r naill oddi wrth y llall yn ychwanegu at gyfoeth yr hyn a gyflwynir i'r disgyblion.</p>
3.20	<p>Mynegir pryder gan rai rhieni parthed yr awgrym y gellid darparu rhai gwersi arbenigol i ddisgyblion hŷn yr ysgolion cynradd ar safle'r ysgol uwchradd. Arfer hwn eisoes yn digwydd i raddau gan fod sawl ysgol yn defnyddio cyfleusterau addysg gorfforol yr ysgol a chanolfannau hamdden mewn trefi sydd gryn bellter o'r ysgolion, ac ni fynegir gwrthwynebiad gan rieni i'r arfer.</p>	1	<p>Fel y nodwyd, mae trefniant o'r fath eisoes ar waith ac o ystyried y cyfnod trosiannol rhwng CA2, CA3 a'r uwchradd, mae'r cyfle i ddisgyblion blwyddyn 6 fynychu safle'r ysgol uwchradd ar gyfer rhai gwersi a gweithgareddau grŵp yn mynd i fod o fudd mawr i leddfu ofnau a chreu teimlad o barhad.</p>

3.21	Cydnabyddo'r ddogfen fod risg parthed anallu i benodi digon o staff cymwys i gynnal yr ysgol ddilynol ddalgylchol newydd. Yn wyneb trafferthion recriwtio penaethiaid a thrafferthion rheolaethol eraill sydd yn bodoli yn rhai o'r ysgolion ar eu gwedd bresennol, a yw'r awdurdod addysg yn gwbl hyderus y gellir penodi arweinyddiaeth a fydd yn dyblygu'r ysgol newydd yn llwyddiannus, yn gwireddu gweledigaeth y Cyngor, ac y gall staff addysgu'r holl gyfnodau addysg, disgyblion a rhieni fod ag ymddiriedaeth ynddynt?	1	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hyn yn risg, a phe bai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud bydd blaengynllunio er mwyn lliniaru'r risg.</p> <p>Ar sail gwersi a ddysgwyd mewn siroedd eraill dylai pennaeth gael ei benodi o leiaf blwyddyn cyn i'r ysgol ddilynol dalgylchol arfaethedig agor. Bydd hyn yn galluogi amser paratoi fel bod penodiadau a strwythur staffio yn gallu cael ei greu ynghyd â sicrhau amser digonol i greu polisiau a threfniadau cadarn cyn i'r ysgol agor. Bydd angen i'r Cabinet ystyried y cais yn gysylltiedig a hyn sydd yn yr adroddiad Cabinet.</p>
3.22	Ddim yn edrych ar ôl staff yr ysgolion oherwydd nid oedd rhaid i staff Llanuwchllyn geisio am eu swyddi, hyn yn achosi drwg deimlad rhwng ysgolion lleol, staff a rhieni. Amlwg fod y penderfyniadau wedi eu gwneud yn barod	1	Nid oedd newid i statws Ysgol OM Edwards yn Llanuwchllyn, felly nid oedd angen i'r staff geisio am swyddi. Nid yw'r penderfyniad wedi ei wneud eto yn ardal y Gader, mae'r cyfnod ymgynghori statudol wedi ei gynnal i darganfod barn pobl lleol ar y cynnig a bydd cyfnod i bobl gwrthwynebu'r cynnig cyn i'r penderfyniad terfynol cael ei wneud.
4 Iaith Gymraeg			
4.1	O'r 39% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol y Gader o tu allan i'r dalgylch, mae 80 yn dod o Abermaw (20% o boblogaeth yr ysgol) - Cyngor Tref Abermaw yn gwrthwynebu'r newid arfaethedig i newid yr ysgol o fod yn un ddwyieithog i Ysgol Gyfrwng Gymraeg / Tud. 39 – angen edrych ar y 'gwir rhesymau' pam mae disgyblion yn dewis Ysgol Y Gader – yn awgrymu am ei fod yn ddwyieithog.	1	<p>Gall rhieni a disgyblion ddewis ysgol am nifer o resymau gwahanol, a gall y rheswm yma newid dros gyfnod o amser.</p> <p>Mae statws ieithyddol yn derm technegol, sydd angen ei glustnodi wrth greu ysgol newydd yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a dogfen arweiniol y Llywodraeth, "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg" (023/2007).</p>
4.2	Hoffwn weld ysgol ddwyieithog	2	
4.3	Er lles y gymuned wledig a'r iaith Gymraeg mae'n hanfodol fod safle wledig yn Nyffryn Wnion yn gynaliadwy. Iaith ar ei chryfaf yma (93% a 94% rhugl). Mewn ysgolion gwledig mae'r dysgwyr yn cael eu bodd mewn Cymreictod naturiol ac yn fwy tebygol o fabwysiadu'r iaith yn llwyr. Sefyllfa'r iaith yn yr ardal yn fregus - Cymru Gymraeg yn gadael yr ardal er mwyn dod o hyd i waith / Mae unigrywiaeth daearyddol yr ardal yn cynnig ei hun i gyfle addysgol unigryw. Rydym yn gweld ein ysgolion cymuned bychain fel cyfrwng perffaith i ddwyieithrwydd ffynnu ac hefyd yn addas i ddarparu addysg i ardaloedd gwledig ar raddfa addas./ Mae'n hanfodol y bydd safle wledig dwyrain Dolgellau yn gynaliadwy er mwyn sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg. Mae 93% o ddisgyblion ysgol Brithdir yn rhugl yn y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn fyw ar iard yr ysgol ac yn cael ei siarad yn naturiol mewn gwaith a chwarae. Os bydd safle Rhydymain yn methu, ac mae ei niferoedd	7	<p>Mae Polisi Iaith Addysg Cyngor Gwynedd (Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg 2014-17) yn berthnasol i holl ysgolion y Sir ac yn golygu bod yr un disgwyliadau ieithyddol ar bob ysgol. Amcan y Polisi yw – "Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yr un yw'r disgwyliad ar gyfer pob ysgol...er mai nod cyffredinol y Polisi yw dwyieithrwydd, fe bwysir y fantol o blaid y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar er mwyn gosod sylfaeni cadarn ar gyfer datblygiad pellach. Yn y cyfnodau allweddol eraill disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg... disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd...", felly mater technegol yw statws ieithyddol yng Ngwynedd.</p> <p>Gan ystyried bod yr ysgolion cynradd i gyd yn ysgolion Gymraeg byddai rhoi statws dwyieithog ar y sector cynradd yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn unol â</p>

	<p>presennol, ei safle ar gyrion y dalgylch yn yn awgrymu mai felly y bydd, yna bydd rhaid i'r disgyblion fynd i'r safle sydd yn y dref gan mai hon yw'r safle agosaf. 34% o ddisgyblion ysgol gynradd Dolgellau sydd yn rhugl yn y Gymraeg. Sut all y Cyngor gefnogi safle sydd ddim yn gynaliadwy gan wybod mai addysg wledig yw asgwrn cefn cynnal y Gymraeg yn yr ardal?/ Os byddwch yn bwrw ymlaen â'r Model arfaethedig bydd teuluoedd, fyddai fel arall yn dod â'u plant i'r Brithdir i gael addysg Gymraeg naturiol yn dewis yr opsiwn hawdd, gan fynd â nhw i Ysgol Gynradd Dolgellau (gan fod Safle Rhydymain mor bell) Beth fydd yr effaith ar y Gymraeg?/ Hefyd mae'n debygol iawn y bydd niferoedd disgyblion, yn dilyn ad-drefnu, yn parhau i leihau yn Ysgol Ieuan Gwynedd, ac felly fe fydd gan o leiaf 3 o'r 4 ysgol gynradd gwledig (IG, Dinas Mawddwy a Friog) lefydd gweigion. Sut all y Cyngor ddisgwyl i'r model newydd hwn lwyddo ar y sail yma a sut bydd hyn yn cael ei egluro i Lywodraeth Cymru ac o'r Gweinidog Addysg a Sgiliau/ Pwyslais dda ar Y Gymraeg yn Ysgol Brithdir fel iaith addysgol a chymdeithasol fydd yn cael ei golli mewn awyrgylch fwy a phrysur.</p>		<p>rhagamcanion ym Medi 2017 mae mwy o ddisgyblion cynradd nac uwchradd. Yn ymarferol ni fydd newid dydd i ddydd yn yr iaith gaiff ei darparu i'r disgyblion uwchradd gan y bydd angen darparu addysg trwy gyfrwng sydd yn ymateb i drawstoriad demograffig y dalgylch.</p> <p>Un o heriau sefydlu'r ysgol ddilynol dalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i'r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan y Sir. Bydd angen gweithredu Polisi Iaith y Sir yn briodol ac mewn modd sydd yn ymateb i'r her yn yr asesiad ieithyddol.</p>
4.4	<p>Rwyf wedi pryderu wrth glywed mewn cyfarfodydd rhieni fod yna alw i 'fynnu bod plant yn siarad Cymraeg ar yr iard' a 'mynnu bod plant yn gofyn cwestiynau i athrawon yn y Gymraeg'. Fel Cymraes di-Gymraeg, rwyf yn meddwl mai gwahaniaethu ydy hyn. Dylai fy mhlentyn gael rhyddid a chael ei annog i ofyn cwestiwn yn ei famiaith a derbyn ateb yn ei famiaith. Os nad yw'n deall rhywbeth, dylai fod ganddo'r hawl i ofyn am esboniad heb orfod cyfieithu yn ei ben. Rwyf am i 'gyfartaledd ieithyddol' gael ei ystyried yn yr un modd ag y mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried.</p>	1	
4.5	<p>Mae angen diffinio ystyr ac arwyddocâd y term 'Ysgol Gymraeg'.</p>	1	
4.6	<p>Anghytunir gydag ystadegau ieithyddol tudalen 11 y pecyn ystadegol a tudalen 58 y ddogfen ymgynghori – dadansoddiad anghywir o allu ieithyddol disgyblion Ysgol Gynradd Dolgellau - hyn yn adlewyrchu'n ddrwg ar safonau yr ysgol – dymuno cywiriad, i'r cywiriad cael ei gofnodi'n ganolog a'i dosbarthu i'r dalgylch</p>	1	<p>Crëwyd y ddogfen ystadegol wrth ddefnyddio data 2013/2014. Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gyda phenaethiaid y dalgylch fel bod modd iddynt herio a gwirio'r wybodaeth. Er hyn, yn anffodus ymddengys bod camgymeriad yn data ieithyddol Ysgol Gynradd Dolgellau. Er cywirdeb, y wybodaeth diweddaraf am ystadegau ieithyddol Ysgol Gynradd Dolgellau yw cyfrifiad PLASC Ionawr 2014. Mae'r data yma, ynghyd a data gweddill ysgolion cynradd y dalgylch isod er gwybodaeth:</p>

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl adref	Ddim yn siarad Cymraeg adref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg adref ond ddim yn rhugl	Ddim yn siarad Cymraeg adref a ddim yn rhugl	Ddim yn siarad Cymraeg o gwbl	Cyfanswm
Brithdir	30	1	4	7	4	46
Clogau	3	0	3	9	9	24
Cynradd Dolgellau	54	37	12	26	22	151
Dinas Mawddwy	11	1	3	4	1	20
Friog	0	10	3	9	5	27
Ganllwyd	11	5	0	4	0	20
Ieuan Gwynedd	10	1	1	4	1	17
Llanelltyd	14	19	0	6	2	41
Machreth	7	5	1	0	1	14

4.7 Dychryn darllen yr asesiad iaith bod tabl 5 (tudalen 7) yn nodi gwybodaeth anghywir am Ysgol Ardudwy – mae'r ysgol yn cael ei phortreadu fel ysgol gwbl Seisnig. Nodir bod y clwb ar ôl ysgol yn amherthnasol – sicr nid yw hyn yn wir, mae yna raglen lluosog o glybiau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal yn y Gymraeg. Gwarthus bod y ddogfen wedi ei chylchredeg i gynghorwyr, ysgolion eraill a'r cyhoedd. Pwy benderfynodd diffiniadau y Gymraeg?

1 Roedd asesiad ieithyddol dalgylch Y Gader wedi'i gomisiynu gan gwmni allanol, Gweriniaith. Mae'r cwmni wedi nodi bod y data yn gysylltiedig ag Ysgol Ardudwy yn seiliedig ar asesiad ieithyddol cwblhawyd yn 2011. I gwblhau yr adroddiad yma gofynnwyd i bennaethiaid lenwi holiadur – llenwodd pennaeth Ysgol Ardudwy holiadur bryd hynny. Ymdengys bod y wybodaeth o'r adroddiad ieithyddol 2011 wedi ei throsglwyddo'n anghywir i adroddiad ieithyddol 2014 dalgylch Y Gader. Dylai'r wybodaeth fod wedi darllen:

Ysgolion uwchradd Gwynedd	Clwb Brecwast	Amser chwarae	Yn adeiladau'r Ysgol	Wrth y bwrdd amser cinio	Yn y dosbarth	Clwb ar ôl Ysgol
Ardudwy	Amherthnasol	Arall – heb ymhelaethu	Arall – heb ymhelaethu	Arall – heb ymhelaethu	Cymraeg, gan amlaf	Cymraeg, gan amlaf

Mae dogfen gywiro wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn fuan yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, sydd yn amlygu'r newidiadau yma fel bod unrhyw un edrychodd ar ddogfennaeth y cyfnod ymgynghori statudol yn ymwybodol ohono.

4.8 Tueddiad yn y gorffennol i rai disgyblion Bl.6 drosglwyddo i Ysgol Uwchradd Tywyn yn hytrach na Ysgol Y Gader. Amryw o resymau e.e. safonau, ochr ieithyddol (llawer o ddisgyblion o gartrefi Saesneg). Yn sgil gwaith pontio a gweithgareddau, ffurfiwyd perthynas dda ag Ysgol Y Gader – disgyblion sy'n trosglwyddo i'r Gader yn cynyddu.

1 Gall rhieni a disgyblion ddewis ysgol am nifer o resymau gwahanol, a gall y rheswm yma newid dros gyfnod o amser.

4.9 Sut all ddwyieithrwydd fod yn fwy llwyddiannus mewn ysgol ar raddfa fwy? Pa dystiolaeth sy'n bodoli i arddangos hyn

1 Mae Polisi Iaith y Cyngor yn datgan mai'r "nod yw sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys".

Comisiynwyd asesiad ieithyddol gan gwmni allanol, Gweriniaith a casgliad yr adroddiad yn gysylltiedig a'r model arfaethedig oedd bod y cynnig yn "**cynllunio'r ddarpariaeth ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r**

			<i>adnoddau staffio a dysgu mwy fyddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch."</i>
4.10	Mae manteision disgwylid y cynnig presennol yn mynd i'r afael yn dda â nodau strategol Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru i gyflwyno darpariaeth addysgol ddwyieithog gynaliadwy. Mae'r cynnig yn nodi effaith negyddol bosibl yn briodol hefyd.	1	Mae'r Asesiad Iaith wedi ei gwblhau yn gwbl annibynnol o'r Cyngor ac yn adlewyrchu holl agweddau ieithyddol y dalgylch, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.
4.11	Cynigiwr wedi cynnwys canfyddiadau asesiad effaith iaith annibynnol ar bob un o'r wyth opsiwn posibl yn y ddogfen ymgynghori statudol, mae'r wybodaeth gefndir ar wefan y Cyngor yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y deilliannau asesu. Adroddiad asesu annibynnol yn awgrymu bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal. Sail yr honiad yn yr adroddiad yw mai cynllunio'r ddarpariaeth addysgol ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau o geisio cyflawni gofynion polisi iaith yr awdurdod lleol. Honiad rhesymol yng nghyd-destun y cynnig penodol hwn.	1	Mae cynnal asesiad ieithyddol yn ofniad statudol wrth ddilyn proses o ad-drefnu ysgolion ac mae'r Cyngor yn falch bod yr ymatebydd yn cytuno'r gyda chasgliadau'r asesiad annibynnol.
4.12	93% o ddisgyblion Brithdir yn rhugl yn y Gymraeg a gan fod y lleoliad yn hygyrch o'r dref, mae'n llwyddiannus ac orlawn. Yn wir mae Sgôr Iechyd Ieithyddol Ysgol Brithdir yn 23.	1	Yn unol â'r Polisi Iaith a'r asesiad iaith nid oes rheswm i ragdybio y bydd sefydlu ysgol ar safle Rhydymain yn cael effaith andwyol ar yr iaith. Nid oes unrhyw dystiolaeth yn awgrymu y bydd dod â phlant y tair ysgol ynghyd ar un safle, gyda'r safle honno wedi ei lleoli ymhellach oddi wrth y dref, yn cael effaith negyddol ar yr iaith.
4.13	Hawdd i gynghorwyr yng nghyffiniau Caernarfon deimlo'n hunanfodlon gan fod y Gymraeg mor gadarn yn eich ardal. Asesiad Ardrowiad Iaith yn dangos 'Gweddol' yw disgrifiad iechyd ieithyddol Ysgol y Gader a bod 'elfennau penodol o ddirywiad ieithyddol ar waith'. Ysgolion gwledig yn gwbl hanfodol i ddiogelu'r Gymraeg. A rhaid i'r ysgolion gwledig hynny fod yn ddewis realistig / Os ydych chi am i'r Gymraeg ffynnu rhaid sicrhau dyfodol ysgolion gwledig. Dim ond yno y mae'r Gymraeg i'w chlywed yn naturiol ar iard yr ysgol. Bydd effaith methiant y Model (oherwydd gwendid yr elfen wledig) yn un barhaol ar ddyfodol plant a'r Gymraeg am genedlaethau. Fel Cynghorwyr, mae gennych gyfrifoldeb i weithredu er lles cymunedau gwledig Cymreig.	2	Mae gwarchod a chynnal yr iaith Gymraeg yn elfen hanfodol o waith y Cyngor er mwyn sicrhau fod Gwynedd yn parhau yn un o gadarnleoedd y Gymraeg. Mae heriau parhaol ar yr iaith ond mae Polisi Iaith Addysg y Cyngor yn nodi " <i>yn ogystal â datblygu hyfedredd disgyblion yn y ddwy iaith, disgwylir i holl sefydliadau addysg y Sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd...disgwylir i ysgolion gynllunio'n fwriadus er mwyn datblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg</i> ".
4.14	UCAC yn croesawu'r canfyddiad y gallai'r datblygiad a ffafrir fod yn fanteisiol o ran y Gymraeg. Mae cynnal y Gymraeg yn sialens ym mhob rhan o Gymru. Bydd angen Pennaeth efo gweledigaeth ac ymrwymiad clir i sicrhau llwyddiant Addysg Gymraeg ac ethos Cymreig i'r ysgol newydd.	1	Mae heriau parhaol ar yr iaith ac mae'r asesiad iaith yn nodi bod dirywiad ieithyddol eisoes yn bodoli o fewn y dalgylch yma, ond hefyd yn nodi byddai datblygu'r model hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith ac yn gyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch gyfan.

4.15	<p>Gan fod hyrwyddo diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r defnydd ohoni yn un o amcanion strategol Cyngor Gwynedd, wrth sefydlu polisïau cyffredin ar draws safleoedd yr ysgol ddilynol mae cyfle i gadarnhau a lledaenu arferion da'r ysgolion cynradd o ran hybu a datblygu sgiliau disgyblion yn y Gymraeg a hybu Cymreictod, a sicrhau dilyniant ieithyddol priodol gadarnach yn y sector uwchradd, ar draws y cwricwlwm. Mae cynnal dilyniant a pharhad ieithyddol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn her, ond mae gwell tebygolrwydd o gyflawni hynny drwy strwythur dilynol gyda pholisi iaith cadarn yn ei le. Dengys astudiaethau ymchwil (e.e. Gruffudd, 1996,2002; Gruffudd a Hallam, 1999; Hughes, 2013) mai'r ffactorau amlycaf sy'n dylanwadu fwyaf ar batrymau defnydd iaith disgyblion yw cefndir iaith teuluol ynghyd â natur ieithyddol a chynnwys ieithyddol y dosbarth addysgu y gosodir disgyblion ynddynt ac mae penderfyniadau ieithyddol a wneir gan athrawon ac mewn ystafelloedd dosbarth yn dylanwadu ar arferion ieithu disgyblion (Hughes, 2013).</p>	1	<p>Prif ddiben Siarter Iaith Gwynedd yw sicrhau bod y Gymraeg, a defnydd cymdeithasol ein plant a phobl ifanc ohoni yn ffynnu, h.y. cael plant i siarad Cymraeg yn eu bywyd bob dydd. Ond mae angen mwy na hynny wrth reswm fel sy'n cael ei nodi yma. Mae angen sicrhau cydweithio rhwng y rhieni a'r ysgol fel bod y Gymraeg yn cael ei siarad gan y plant ym mhob cyd-destun er mwyn sicrhau seiliau cadarn a sefydlu patrymau gydol oes.</p> <p>Un o heriau sefydlu'r ysgol ddilynol dalgylchol fyddai sefydlu strwythur ieithyddol cywir, ar draws y sectorau oedran. Bydd ymateb i'r her a gweithrediad Polisi Iaith yr ysgol yng ngofal y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu, gyda chymorth gan y Sir. Bydd angen gweithredu Polisi Iaith y Sir yn briodol ac mewn modd sydd yn ymateb i'r her yn yr asesiad ieithyddol.</p>
4.16	<p>Bydd yr effaith ar gymunedau cefn gwlad, a'r iaith Gymraeg yn aruthrol.</p>	1	<p>Yn ôl yr ardrwiad iaith mae <i>"dirywiad ieithyddol amlwg"</i> yn y dalgylch ar hyn o bryd, serch hynny gyda <i>"dyhead, cymorth, adnoddau digonol ac arweiniad sirol a lleol, gall y dalgylch barhau i arfogi pobl ifanc gogledd Meirionnydd gyda sgiliau hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg, i'w gwneud yn ddinasyddion dwyieithog cyflawn"</i>. Yn unol â'r asesiad annibynnol mae...<i>"Model 8: Ysgol Ddilynol Dalgylchol ar safleoedd presennol ysgolion Y Gader, Cynradd Dolgellau, Friog, a Dinas Mawddwy a chau Ganllwyd, Clogau, Machreth a Brithdir. Un pennaeth, un corff llywodraethol. Dyfarniad o effaith cadarnhaol sy'n cynnig cyfle i sicrhau cysondeb ar draws y dalgylch cyfan. Tra nad oes modd gosod pob model mewn trefn sgorio effaith ar iaith, casglwn fod y model hwn yn cynnig manteision arbennig o ran cynllunio a darparu addysg statudol fydd yn gyson ac yn deillio o un weledigaeth gyflawn yn hytrach na chyfeiriad amrywiol nifer o sefydliadau fydd, yn anorfod, a safbwynt amrywiol o ran dyhead i gyflawni polisi iaith addysg y sir a chreu dinasyddion ifanc hyfedr ddwyieithog. Mewn dalgylch lle mae'r Gymraeg yn wyneb sawl her sylfaenol, efallai'n wir mae cynllunio'r ddarpariaeth ar sail un weledigaeth sefydliadol yw'r ffordd orau i geisio cyflawni'r polisi iaith, gan ddefnyddio'r adnoddau staffio a dysgu mwy fyddai gan un sefydliad i'r defnydd gorau ar draws gwahanol safleoedd y dalgylch."</i></p>
4.17	<p>Tra bum yn Ysgol Brithdir, bu dau deulu o ddwy wlad wahanol yno, a doedd dim gair o Gymraeg na Saesneg gan yr un o'r plant, ond o fewn dim, roeddent yn rhugl yn y Gymraeg. Hefyd, roedd dipyn o deuluoedd Saesneg yn yr ysgol, ond er hyn, Cymraeg a siaradwyd yn</p>	1	<p>Petai'r cynnig yma'n cael ei gymeradwyo y gobaith yw y bydd y cryfder yma'n parhau ac yn wir yn gwella wrth ddod â phlant o dair ysgol wledig ynghyd yn safleoedd Llanelltyd a Rhydymain. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau gydag addysg wledig yn y dalgylch, wrth barhau â safleoedd Dinas Mawddwy, Llanelltyd, Rhydymain a Friog.</p>

	yr ysgol ac ar yr iard drwy'r adeg. Mae hyn yn dangos cryfder ysgol fach wledig ar yr iaith Gymraeg, ac os am gadw'r iaith mae'n rhaid cadw ysgolion bach fel Brithdir ar agor.		
5	Statws – Cymunedol / Eglwysig		
5.1	Dymunir bydd perthynas glos gyda holl enwadau Cristnogol y dref a'r ardal yn dilyn colli'r cysylltiad ffurfiol gyda'r Eglwys	1	Statws arfaethedig yr ysgol yn y cynnig yw cymunedol. Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir addysgu addysg grefyddol o'r cam sylfaen hyd at 19 oed, waeth a yw'n ysgol o natur grefyddol ai peidio. Er bod addysg grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, nid yw'n rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol ac felly nid oes targedau penodol o ran cyrhaeddiad, rhaglenni astudio na threfniadau asesu wedi'u pennu ar gyfer y pwnc. Mae ysgolion nad ydyn nhw o natur grefyddol, ysgolion gwirfoddol a reoli ac ysgolion ffyrdd sefydledig yn defnyddio meysydd llafur addysg grefyddol y cytunir arnyn nhw'n lleol, gan gael cyngor gan CYSAG i helpu i sicrhau bod pob maes llafur addysg grefyddol yn adlewyrchu natur grefyddol yr ardal leol.
5.2	Hollol gefnogol i'r argymhelliad mai statws yr opsiwn a ffafirir yw cymunedol / 8 allan o 10 ysgol yn ysgol cymunedol ac yn ôl eich awgrym chi eich hunain yn eich datganiadau nid oes galw cryf am ddarpariaeth addysg fod yn addysg Eglwysig/ Hollol gefnogol i'r argymhelliad a geir yn yr Adroddiad: sef "yr opsiwn a ffafirir i ymgynghori arno o ran categori yw cymunedol". Credem y dylai pob enwad gael cyfle i chwarae rôl gyfartal o fewn cyfundrefn ysgol newydd.	5	O ganlyniad i ystyried y wybodaeth yma a ffactorau eraill, penderfynodd y Cyngor ymgynghori ar statws cymunedol fel y statws a ffafirir.
5.3	Siomedig bod yr Eglwys yng Nghymru wedi cael llais yn y trafodaethau categori cyfreithiol yr ysgol newydd arfaethedig – "cafwyd trafodaethau gyda cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn ystod cyfnod paratoi'r holiadur a chafwyd cyfarfod gyda phob parti i drafod natur a'r union gwestiynau i gynnwys yn yr holiadur" "Pob parti?" – na chafodd eglwysi anghydfurfiol eu cynnwys mewn trafodaethau nac ymgynghoriad. Gallai hyn arwain at yr Eglwys yng Nghymru yn cael gor-ddylanwad ar gynnwys yr holiadur a'r broses ymgynghorol statudol.	1	Gan ystyried bod yr Eglwys yng Nghymru yn gyd-ddarparwyr addysg yn nalgylch y Gader, roedd angen eu cynnwys mewn trafodaethau wrth ddatblygu'r opsiwn a ffafirir. Pan grëwyd yr holiadur fel rhan o'r asesiad o angen am wahanol fathau o ysgolion, cafwyd cyfarfod gyda'r ymgynghorydd annibynnol NFER, cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru a swyddogion y Cyngor (bob parti). Cynhaliwyd rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru cyn cynnal y cyfnod ymgynghori statudol llawn yn unol â'r cod trefniadaeth ysgolion. Roedd hyn yn gam statudol.
5.4	Siomedig bod y Cyngor wedi cynnal rhag-ymgynghoriad gyda Esgobaeth Bangor ar sail hanesyddol a pherchnogaeth llain bychain o dir safle Babanod Cynradd Dolgellau. Gan fod yr Eglwys Gatholig hefyd wedi cael cyfle i ddatgan barn, anfodlonrwydd na chafodd enwadau anghydfurfiol y cyfle i fod yn rhan o drafodaethau dechreuol / Siom i mi, fel i nifer o anghydfurfwyr y cylch yw bod ein barn a'n mewnbn	2	Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol statudol ar wefan y Cyngor, ac anfonwyd copïau i ymgynghorai craidd ac i bob unigolyn/grŵp gysylltodd gyda'r swyddfa yn holi am y datblygiad yn nalgylch y Gader. Dyna oedd y cam cyntaf i bawb gael rhoi eu barn. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu cyhoeddi rhybudd statudol, bydd pawb a dderbyniodd y ddogfen ymgynghori yn derbyn copi o'r rhybudd statudol.

	heb gael ei geisio na'i ystyried o bosib, ei anghofio pan fod na fater mor bwysig â dyfodol addysg plant y cylch yn y fantol.		
5.5	15 mlynedd nol roedd Ysgol Gynradd Dolgellau yn ysgol gymunedol, ildwyd y statws i gael perchnogaeth tir ar draws y ffordd i'r ysgol. Adeiladwyd Ysgol Machreth yn ystod oes Fictoria pan oedd y gyfundrefn addysg yn nwylo'r Sgweier lleol oedd yn Eglwyswr. Yng ngoleuni cysylltiadau tenau a'r Eglwys yng Nghymru, wrth i'r Cabinet benderfynu strwythur cyfansoddiad corff llywodraethol yr ysgol newydd, annoeth byddai rhoi lle i gynrychiolydd Esgobaethol heb sicrhau fod lle cytbwys a cyfartal i eglwysi anghydfurfiol yr ardal	4	Statws arfaethedig yr ysgol yn y cynnig yw cymunedol , golyga hyn na fyddai'r addysg yn cael ei chyd-ddarparu.
5.6	Dylai pob enwad o fewn y dalgylch gael yr un cyfle tryloyw a chyfartal i gyfrannu i fywyd ysbrydol, moesol a chrefyddol yr ysgol newydd.	1	
5.7	Byddai newid statws addysg y dalgylch i fod yn Eglwysig yn golygu newid sylweddol iawn yn yr adnoddau rheolaethol a pherchnogaeth safleoedd. Byddai trefn Eglwysig yn berthnasol i holl ysgolion a trosglwyddo tiroedd i berchnogaeth yr Eglwys – ffolineb fyddai hynny	2	Mae'n wir pe bai'r ysgol ddilynol ddalgylchol arfaethedig yn statws Eglwysig byddai'r safleoedd i gyd yn cael eu trosglwyddo i berchnogaeth yr Eglwys yng Nghymru. Statws cymunedol yw'r statws a ffafrir i'r ysgol ddilynol ddalgylchol arfaethedig.
5.8	Synhwyrrol i gael perswâd Esgobaeth Bangor i drosglwyddo safle Babanod i berchnogaeth Cyngor Gwynedd.	2	Tydi hi ddim yn bosib bellach i ysgolion gael eu ffedereiddio os ydy'r ysgolion dan sylw yn perthyn i gategoriâu gwahanol a hynny oherwydd Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir 2014. Felly nid yw'n opsiwn creu ffederasiwn dalgylchol fyddai'n parhau gydag addysg gynradd gymunedol ac eglwysig. Statws yr ysgol a ffafrir yn y cynnig hwn ydy cymunedol a byddai'n rhaid i'r Cyngor fod yn berchnogion adeilad babanod safle cynradd Dolgellau er mwyn gallu gwneud hyn.
5.9	Statws yn mater sensitif mewn ardal sydd â hanes gloyw o ymladd dros hawliau crefyddol, cymdeithasol a gwleidyddol. Dylai bod pob cyfarfod cyhoeddus a llywodraethwyr yr ardal fod o dan gadeiryddiaeth amhleidiol, annibynnol a thryloyw.	2	Mae'r Cyngor yn gwneud pob ymdrech i weithredu mewn modd tryloyw, democrataidd ac agored gan ymgynghori gyda'r holl ran-ddeiliaid yn amserol.
5.10	Henaduriaeth yn ymestyn o Ben Llyn hyd at Aberdyfi. Mae'r Pwyllgor yn trin a thrafod pob math o faterion a lles a buddiannau ysbrydol a bydol aelodau Eglwys Bresbyteriaid Cymru o fewn yr ardal, gan gynnwys Dalgylch y Gader. Fe fyddai'r newidiadau a argymhellir yn yr Adroddiad Ymgynghorol yn cael effaith pellgyrhaeddol, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar aelodau ein heglwysi o fewn Dalgylch Y Gader a thu hwnt.	1	Statws yr ysgol sydd yn rhan o'r cynnig hwn yw ysgol gymunedol sy'n golygu na fyddai unrhyw enwad na grŵp crefyddol yn gyd-ddarparwr addysg yn yr ysgol. Fe fyddai'r ysgol yn cyflogi staff, yn berchennog neu ddeiliad safle ac adeiladau'r ysgol, yn berchennog neu ddeiliad ar y meysydd chwarae ac yn awdurdod derbyn. Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir addysgu addysg grefyddol o'r cam sylfaen hyd at 19 oed, waeth a yw'n ysgol o natur grefyddol ai peidio. Er bod addysg grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol, nid yw'n rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol ac felly nid oes targedau penodol o ran cyrhaeddiad, rhaglenni astudio na threfniadau asesu wedi'u pennu ar gyfer y pwnc. Mae ysgolion nad ydyn nhw o natur grefyddol, ysgolion gwirfoddol a reolir ac

			ysgolion ffyrdd sefydledig yn defnyddio meysydd llafur addysg grefyddol y cytunir arny'n nhw'n lleol, gan gael cyngor gan CYSAG i helpu i sicrhau bod pob maes llafur addysg grefyddol yn adlewyrchu natur grefyddol yr ardal leol.
5.11	Byddem yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw fwiad i ffafrio'r Eglwys yng Nghymru trwy roi statws ysgol eglwysig i'r ysgol newydd. Yn yr oes o gydraddoldeb, sicr y dylai pob ffydd ac enwad gael yr un statws a chwarae teg o fewn bywyd a gwaith ac ni ddylai unrhyw enwad gael mantais / Ni fyddwn yn fodlon efo Ysgol Eglwys	2	Statws arfaethedig yr ysgol sydd yn rhan o'r cynnig hwn yw Ysgol Gymunedol.
5.12	Cynnig yn effeithio ar ddyodi'r ysgolion yn y dalgylch. Nid yw'r ddogfen ymgynghori statudol yn nodi'n glir beth yw effaith y cynnig sy'n cael ei ffafrio ar yr ysgol newydd.	1	Yr opsiwn a ffafrir i ymgynghori'n statudol arno o ran categori cyfreithiol oedd cymunedol. Byddai hyn yn golygu mai'r awdurdod lleol fyddai'n cyflogi staff, yn berchennog neu'n ddeiliaid ar safle ac adeiladau'r ysgol, yn berchennog neu'n ddeiliaid ar y meysydd chwarae ac yn gweithredu fel awdurdod derbyn. Er bod yr ysgolion hyn yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer y weithred feunyddiol o gydaddoli ac yn darparu gwersi addysg grefyddol statudol, mae'n bosib na fyddan nhw o natur grefyddol benodol.
5.13	Yn dilyn cynnal asesiad o'r galw am addysg o wahanol gategorïau mae'n gwbl eglur nad yw mwyafrif rhieni'r dalgylch yn dymuno i'w plant fynychu ysgol sy'n cael ei chynnal mewn partneriaeth gyda'r Eglwys yng Nghymru, Onid yw barn mwyafrif llethol rhieni'r dalgylch yn ei gwneud yn eglur mai categori cymunedol yw eu dymuniad ac y dylai'r Eglwys yng Nghymru barchu hynny?	1	Yn yr Asesiad o'r angen am wahanol fathau o ysgolion yn dalgylch y Gader Dolgellau, ansawdd yr addysg yn anad dim yw'r ffactor sy'n bwysig i rieni ysgolion dalgylch y Gader.
6	Cludiant a Teithio		
6.1	Gorlenwad traffig wedi ei gynnwys i amseroedd teithio?	1	Mae cyfartaledd pellteroedd ac amseroedd teithio 3 gwahanol 'routeplanner' electronig wedi ei ddefnyddio. Ni ystyrir bod gorlenwad sylweddol yn effeithio'r amseroedd nodwyd ac ni fydd unrhyw disgybl yn teithio ymhellach na'r polisi cenedlaethol.
6.2	Nid yw'n dderbyniol i blant deithio yn nol ac ymlaen o safle i safle dragwyddol i dderbyn eu haddysg. Byddai rhai o ardal y Brithdir a Chwm Hafod Oer wedi teithio hen ddigon yn barod.	2	Nid yw'n ddisgwyliedig, fel rhan o'r model yma, bod disgyblion yn teithio o un safle i'r llall yn ddyddiol. Bydd disgyblion yn mynychu un safle yn ddyddiol ac yn achlysurol efallai yn mynychu safle'r uwchradd am wersi arbenigol. Rhagwelir byddai staff yn hytrach na disgyblion yn symud safleoedd.
6.3	Nid yw ffyrdd yr ardal hon yn caniatáu rhywun i deithio 9 milltir yn yr un amser a 8 milltir ar draffordd.	1	Mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn bwysig rhoi sylw i amseroedd teithio yn ogystal â'r pellteroedd – yn wir mae amser teithio wedi ei ystyried fel rhan o'r asesiad opsiynau.
6.4	Bwriedir talu costau cludiant o £45,000 yn Rhydymain a £30,000 yn Llanelltyd. Am ba hyd y bydd y Cyngor yn talu am gludiant i blant y dyfodol lle mai ysgolion Brithdir a Machreth fyddai wedi bod eu hysgolion agosaf? Ac os na fydd yn talu am gludiant i blant yn y dyfodol, sut gall y Cyngor ddisgwyl denu'r niferoedd disgwyliedig (66) i	6	Nid oes terfyn amser penodol ar yr argaeledd cludiant, mae cludiant yn cael ei gynnig yn unol â'r polisi cludiant, fel sydd yn wir ledled y Sir. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol statudol, bydd angen addasu'r polisi cludiant ychydig i gydnabod elfen aml-safle yr ysgol arfaethedig, felly bydd angen iddo ddarllen bod

	Ysgol Rhydymain yn y dyfodol?/Cost uchel am gludiant / Angen sicrhau cludiant i bawb sy'n perthyn i ddalgylch y safle ac fod hynny yn parhau i'r dyfodol er mwyn sicrhau hyfywdra safle Rhydymain./ Pwysleisir yr angen i unrhyw gynlluniau fod yn rhai tymor hir. Gofynnir am addewid i gynnal unrhyw gynlluniau e.e. i gynnig costau teithio yn ddiamedod ac nid ar gyfer tymor peilot yn unig, gan ddileu yn dilyn.		y Sir yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o dan yr amgylchiadau canlynol: <i>"Disgyblion Oed Cynradd - i ddisgyblion sy'n byw 2 filltir neu fwy o safle'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r safle'r ysgol agosaf.</i> <i>Disgyblion Oed Uwchradd - ar gyfer disgyblion o dan 16 oed sy'n byw 3 milltir neu fwy o safle'r ysgol yn eu dalgylch neu safle'r ysgol agosaf."</i> Amcangyfrif costau cludiant yw £75,000 yn seiliedig ar brofiad costau cludiant a rhagamcanion niferoedd disgyblion yr ysgolion presennol.
6.5	Dadansoddiad Ystadegol Mai 2011, 6 o blant y dalgylch sy'n teithio mwy nag 20 munud (un ffordd) i'r ysgol. Ar sail 66 o blant yn Ysgol Rhydymain (tua 14 o blant rŵan) - hyd at 50 o blant yn gorfod teithio'n bellach i Ysgol IG. Sut gall y Cyngor gyfiawnhau'r amser teithio ychwanegol i'r ysgol a'r amser teithio y bydd y plant yn gorfod ei wynebu i fynychu gwersi neu weithgareddau y tu allan i safle'r ysgol?/Disgyblion pob safle yn gallu teithio i ddefnyddio adnoddau i'r safle canolog yn y dref e.e. gwersi gwyddoniaeth. Pam fod raid i'r plant yn safle Rhydymain deithio milltiroedd yn ôl ac ymlaen o hyd? Fydd dim gwelliant ar y sefyllfa sy'n bodoli yn barod. Safle Rhydymain yn y pen eithaf o ran pellter oni fydd y disgyblion hyn yn gorfod teithio digon yn barod i gyrraedd eu rhan hwy o'r ysgol ddilynol ?	9	Mae'r Cyngor yn cydnabod bydd mwy o ddisgyblion yn teithio'n bellach i'w safle addysgol, ond ni fydd unrhyw ddisgybl yn teithio tu hwnt i'r polisi Sirol/Cenedlaethol. Nid yw'n ddisgwyliedig fel rhan o'r model hyn bod disgyblion yn teithio o un safle i'r llall yn ddyddiol.
6.6	A yw rhieni'n fodlon gwneud y siwrnai i Rydymain ac yn ôl 2 waith y dydd? O holi'n anffurfiol, ni fydd rhieni ardal Brithdir/Machreth yn anfon eu plant i Ysgol Ieuan Gwynedd yn y pen draw, mae'n rhy bell ac ar gyrion y dalgylch / Lleoliad anghyfleus i rieni /	8	Mae'r Cyngor wedi darparu digon o lefydd i holl ddisgyblion presennol ysgolion Brithdir, Machreth a Ieuan Gwynedd ar safle Rhydymain. Wrth gwrs mae dewis safle yn ddarostyngedig i ddewis rhieni a phenderfyniad y llywodraethwyr.
6.7	Wedi ceisio ein darbwylo drwy anfon Mr Mike Tate, pennaeth Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf i'r diwrnodau agored i geisio dwyn perswâd arnom fod y model newydd hwn yn mynd i lwyddo. Mae pum safle y Ffederasiwn ysgolion hwn i gyd o fewn 5 cilomedr i'w gilydd. Mae 30 cilomedr rhwng y chwech safle o fewn y model sydd mewn golwg ar gyfer dalgylch y Gader (Dinas i Rydymain - 19.8 cilomedr; Dinas i Friog 30.7 cilomedr. Sut ellir cymharu'r ddwy ardal? Un yn ardal drefol a'r llall yn ardal wledig, wasgarog gyda ffyrdd culion, troellog a dau fwch serth/ Model newydd heb ei brofi: Model 6 safle ac ni ellir ei gymharu gyda model arall fel Rhydaman yn y De - 4	10	Mae Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf yn ffederasiwn ffurfiol o 4 ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd. Pennaeth yr ysgol ydy Mike Tate ac gwahoddwyd i ddyddiau agored yr ymgynghoriad statudol yn Nolgellau ar y 5 ^{ed} a'r 6 ^{ed} o Dachwedd er mwyn rhannu ei brofiad. Wrth reswm, nid yw model sy'n gweithio mewn un ardal o reidrwydd yn mynd i weithio mewn ardal arall ond mae modd rhannu profiadau ac arfer dda a chymhwyso rhai elfennau i ardaloedd o fewn Gwynedd. Mae Ysgol Gyfun Cymer Afan ac Ysgol Gynradd Cymer Afan wedi'u lleoli ym mhentref y Cymer. Mae poblogaeth o tua 2,883 i'r pentref. Mae Ysgol Gynradd Pen Afan ym mhentref Blaengwynfi ac mae i'r pentref boblogaeth o tua 1,495. Mae Ysgol Gynradd Glyncorrwg ym

safle yno ac mae'r ysgolion i gyd o fewn 5 milltir i'w gilydd. 20 milltir rhwng yr ysgolion yn nalgylch y Gader, bwlch serth a ffyrdd culion a hynod droellog. Gall weithio mewn ardaloedd trefol lle lleolir yr ysgolion yn agos at ei gilydd, ond nid yn yr ardal hon/ Mewn ardal wasgaredig y Gader, bydd yn amhosib ei weithredu - bron 20 milltir rhwng rhai safleoedd / Ysgolion yn eich model mor bell oddi wrth ei gilydd (20 milltir), sut ellir mentro hyn? Nid oedd yr ysgol debyg a soniwyd amdani wrthon ni gyda safleoedd mor bell oddi wrth ei gilydd. Nid yw'n deg ceisio dechrau cymharu'r ddau fodel. Mae addysg disgyblion 3 – 16oed yr ardal yn dibynnu ar lwyddiant y model hwn / Ni fydd rhieni'n anfon eu plant i Ysgol leuan Gwynedd: A fydd rhieni'n treulio hyd at 20+ munud pob ffordd a phob dydd yn cludo eu plant i ac o Ysgol IG yn y dyfodol? Os dewisir yr opsiwn a ffafir, mae llawer o rieni Ysgol Brithdir (o leiaf) yn rhagweld, ac o holi'n anffurfiol, y bydd rhieni o'r tu allan i ddalgylch Ysgol leuan Gwynedd (e.e. o Ysgolion Machreth / Brithdir), er yn gyndyn o wneud, naill ai'n anfon eu plant i ysgolion eraill yn syth a / neu'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol mewn blynyddoedd i ddod. Os bydd Ysgol leuan Gwynedd yn methu, ac mae popeth yn argoeli y bydd, bydd eich model newydd yn chwalo a phwy fydd yn atebol? Bydd y Cynghorwyr a'r swyddogion wedi gadael eu swyddi o bosibl mewn 5-10 mlynedd, ond bydd yr effaith yn un barhaol ar ddyfodol ein plant am genedlaethau i ddod / Nid oes unrhyw fuddsoddiad wedi ei wneud i wybod faint o blant fydd yn mynd i Rydymain, na chwaith faint o ddisgyblion y dyfodol fydd yn mynd yno

6.8 Ymddangos bod y model yn bodloni nodau'r Cyngor, ac yn gweithio'n dda o ran bodloni anghenion ardal wledig iawn ble gallai fod pellterau teithio pell.

mhentref Glyncorrwg sydd â phoblogaeth o tua 5,544 ac mae Ysgol Gynradd Croeserw ym mhentref Croeserw sydd â phoblogaeth o tua 1,380.

Pellter rhwng pob ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd:

O:	Ysgol Gynradd	Cilomedrau	Milltiroedd
Ysgol Gyfun Cymer Afan (yr ysgol uwchradd)	Penafan, Blaengwynfi	4.5 cilomedr	2.8 milltir
	Croeserw	1.9 cilomedr	1.2 milltir
	Glyncorrwg	4.2 cilomedr	2.6 milltir
	Cymer Afan, Cymer	0.3 cilomedr	0.2 milltir

Niferoedd y disgyblion yn yr ysgolion yn 2014/15:

Ysgol	Nifer Disgyblion
Ysgol Gynradd Penafan, Blaengwynfi	104
Ysgol Gynradd Croeserw	149
Ysgol Gynradd Glyncorrwg	95 (3-11 oed) 12 (2 oed - Dechrau'n Deg)
Ysgol Gynradd Cymer Afan, Cymer	70
Ysgol Gyfun Cymer Afan, Cymer	244

Mae dalgylch y Gader yn ardal wledig ac yn ddaearyddol eang, sydd yn golygu bod ystyriaeth i gludiant ac amseroedd teithio yn hanfodol. Mewn rhai achosion, er bod y pellteroedd yn fyr, mae cyflwr a natur y ffyrdd yn golygu bod y daith yn cymryd mwy o amser nag a ddisgwylir.

O ran pellter teithio, mae Cyngor Gwynedd yn rhagweld y gall disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Ganllwyd ac Ysgol Clogau ar hyn o bryd deithio i safle Llanelltyd a gall disgyblion sydd yn mynychu Ysgol Brithdir ac Ysgol Machreth deithio i safle Rhydymain. Bydd yr Awdurdod yn rheoli mynediad i'r ysgol a bydd llywodraethwyr yn penderfynu ar fynediad safleoedd penodol. Er mwyn sicrhau na fydd gweithredu'r cynnig yn mynd tu hwnt i'r polisi amser teithio (dim mwy na 45 munud un ffordd), defnyddiwyd yr amseroedd teithio o'r manau pellaf yn y dalgylch i amcangyfrifo'r amser teithio (gweler y mapiau ar dudalen 53 yn Nogfen Ymgynghorol Statudol Ysgolion Dalgylch y Gader).

1 Mae'r Cyngor wedi ystyried pellteroedd ac amseroedd teithio fel rhan o werthusiad yr opsiynau fel bod yr opsiwn a ffafir yn diwallu anghenion gwledig y dalgylch.

6.9	Cynigiwr wedi cynnwys manylion y pellterau teithio presennol ar gyfer disgyblion yn ysgolion cynradd y dalgylch. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn teithio ymhellach na'r amser a argymhellir yn genedlaethol, sef 45 munud. Gwybodaeth ddarparwyd yn awgrymu er y byddai'r newidiadau yn effeithio ar drefniadau teithio dysgwyr ac y byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol, nad yw'r pellterau hyn yn sylweddol a'u bod o fewn canllawiau.	1	Mae hyn yn wir. Ni ragwelir unrhyw ddisgybl yn teithio ymhellach i'r ysgol na'r hyn a argymhellir yn y canllawiau Cenedlaethol.
6.10	Onid yw'n bolisi gan Gyngor Gwynedd annog ei staff/cynghorwyr i arbed ynni. Dod i'r gwaith ar feic? Rhannu ceir? Mae anfon y nifer uchod o blant ar siwrnai fwy oherwydd yr ad-drefnu yn mynd yn gwbl groes i'w polisi arbed ynni. Onid lleihau ein ôl-troed carbon ydy'r nod, nid ychwanegu ato?	4	Wrth gyfeirio at ôl-troed carbon, mae angen ystyried bydd 4 safle addysgol yn cael eu cau, bydd yn golygu llai o safleoedd i'w gwresogi ayyb. Mae'r Cyngor wastad yn annog rhannu ceir i'r gwaith a bydd yn bosib i rai staff wneud hyn os gwireddir y model.
6.11	Mae'n hanfodol bod y dewis o addysg wledig Gymraeg ar gael i bawb, ond mae Model 8 yn lleihau'r dewis oherwydd amser a chostau teithio.	2	Nid yw'r Cyngor yn cytuno â'r pwynt yma. Wrth werthuso'r opsiynau posib gwahanol roedd yr iaith Gymraeg ac amser/pellter teithio disgyblion yn ffactorau ystyriwyd. Bydd pedwar safle cynradd gwledig yn parhau yn y dalgylch fel bod modd i ddisgyblion dderbyn addysg wledig Gymraeg.
6.12	Credu bod cludiant yn mynd i fod yn fater mawr ac ni fyddwn i'n bersonol am weld plentyn pedair oed yn teithio ar wasanaeth bws i'r ysgol bob dydd gyda fy mhlentyn 12 oed. Iaith ac ymddygiad plant yn warthus - dim yn gwisgo gwregysau, yn sefyll a cerdded yn y bws. Ras wyllt a pherygl i gael mynd ar y bws yn Nolgellau, ond dwi'n deall fod hyn yn fater gwahanol.	1	Nid yw'n fwriad rhoi disgyblion oed cynradd (4-11) ac uwchradd (11-16) ar yr un bws â'i gilydd. Mae disgwyl i blant a phobl ifanc ymddwyn yn briodol wrth ddefnyddio cludiant i'r ysgol, mae mwy o wybodaeth ar gael yn canllawiau statudol ynghylch y cod ymddygiad wrth deithio (Rhagfyr 2009), Llywodraeth Cymru.
6.13	Llawer mwy o blant (84%) yn byw yn nes at ysgol Brithdir nag at ysgol Rhydymain – llai o deithio o lawer (plant a phellter) a lleihau ôl-troed carbon sydd i fod yn ffactor pwysig.	1	Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy o blant yn byw yn nes i safle Brithdir, yn wir, roedd hyn yn rhan o'r rheswm pam y cynigwyd safle Brithdir fel rhan o'r cynnig blaenorol. Yn anffodus, nid yw datblygu safle Ysgol Brithdir yn opsiwn posib bellach.
7	Safle Rhydymain		
7.1	Hapus fod leuan Gwynedd, Rhydymain yn cael ei ddatblygu / Unfryd groesawu penderfyniad i ddewis safle Ysgol leuan Gwynedd fel un o safleoedd yr ysgol newydd/ Angen sicrhau buddsoddiad teg i gael adeilad o safon cystal a safleoedd eraill (e.e. Llanelltyd a Cynradd Dolgellau, OM Edwards, Craig y Deryn, Penybryn, Groeslon) / Os na fydd safle Rhydymain yn derbyn buddsoddiad teg a gyda'r adnoddau iawn sut ellir sicrhau bydd y safle yn denu plant ac felly'n gynaliadwy? Nifer plant yw'r peth pwysicaf i gynnal ysgol. Mae'n hanfodol bod safle wledig dwyrain Dolgellau yn gynaliadwy. Os na fydd y safle'n gynaliadwy a fydd safle Rhydymain yn cau ac felly yn dileu yr opsiwn o	19	Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau ar ddyluniad datblygiad safle Rhydymain. Dyluniadau cysyniadol sydd yn bodoli ar y pwynt yma ac yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bydd ymgynghori llawn gyda'r Pennaeth ac aelodau'r corff llywodraethu ar ddylunio pellach. Ni fydd newid i'r ffigur buddsoddiad sydd wedi ei glustnodi ar gyfer uwchraddio safle Rhydymain, sef £620,000 – dyluniadau cysyniadol sydd yn bodoli ar y pwynt yma, pe bai'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, bydd ymgynghori llawn gyda'r Pennaeth ac aelodau'r corff llywodraethu ar ddylunio pellach.

	<p>addysg wledig i rieni yn nwyrain y dalgylch?/ Oes gan y Cyngor dystiolaeth faint o rieni sydd am anfon eu plant i safle Rhydymain? Mae safle Rhydymain gyda 60% o lefydd gweigion ar hyn o bryd ac yn codi i 71% erbyn 2017, ac oherwydd na all y Cyngor efallai ddenu plant o'r tu allan i'r dalgylch yn y dyfodol oherwydd pellter a fydd y safle'n gynaliadwy? Os bydd Ysgol Ieuan Gwynedd yn methu, ac mae popeth yn argoeli y bydd, bydd eich model newydd yn chwalu a phwy fydd yn atebol? Bydd yr effaith yn un barhaol ar ddyfodol ein plant ac ar y gymuned am genedlaethau i ddod / O ran ysgolion Llanfachreth, Brithdir a Ieuan Gwynedd does ond un ohonynt yn amlwg mewn cyflwr i fuddsoddi rhagor o arian ynddi sef Ieuan Gwynedd/</p>		<p>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw addysg wledig yn opsiwn ac yn gwneud hyn wrth gynnwys safle Rhydymain yn rhan o'r model a ffafrir. Golyga hyn bod opsiwn addysg wledig i ardal Dwyrain y dalgylch. Bydd cynladwyedd safle Rhydymain yn fwy hyfyw yn dilyn y buddsoddiad hwn. Y neges sydd wedi ei derbyn yn ystod trafodaethau yw bod angen parhau i gynnig addysg wledig. Os oes dyhead yn lleol i gadw addysg wledig, y gobaith yw y bydd rhieni yn cefnogi safle addysgol Rhydymain. Drwy ddod â phlant yr ardaloedd lleol (Machreth, Brithdir a Rhydymain) at ei gilydd mewn un safle, y gobaith yw bydd yr ysgol yn un ffyniannus. Os yw rhieni'r dref yn parhau i ddewis addysg wledig i'w plant, serch y pellter, bydd hyn yn cyfrannu ymhellach tuag at gynladwyedd y safle.</p>
7.2	<p>Dylai bod cyfyngiad cyflymder y brif lon wrth ymyl Rhydymain cael ei ostwng i 50 milltir yr awr / Os yw'r cynlluniau'n dwyn ffrwyth, terfyn cyflymder ar y A494 angen ei gyfyngu i 40 neu 30 a'r ffordd i'r pentref yn 20 m.y.a.</p>	3	<p>Yn ystod y broses ddylunio a chyflwyno cais cynllunio, bydd trafodaethau manwl ynglŷn â pha fesurau rheoli traffig sydd angen eu cyflwyno o amgylch y safle ei hun a'r ffordd cysylltiol. Byddwn yn asesu'r risgiau ac yn sicrhau bod mesurau lliniaru risg priodol yn cael eu hymgorffori yn rhan o'r gwaith.</p>
7.3	<p>Dylai bod estyniad safle Rhydymain ar ochr Llanuwchllyn y safle. Os mai materion cynllunio sy'n rhwystru'r estyniad ar ochr Llanuwchllyn ddylai bod Parc Cenedlaethol Eryri'n cael ei herio /</p>	1	<p>Er bod yr estyniad yn cael ei ddangos mewn un lleoliad ar y cynllun presennol, cynllun cysyniadol yn dangos un opsiwn posib yn unig yw hwn. Byddwn yn parhau i ystyried a oes modd rhoi'r estyniad mewn lleoliad arall (yn y cefn efallai) er mwyn ceisio amharu cyn lleied â phosib ar y safle ei hun. Bydd y trafodaethau yn parhau dros y misoedd nesaf.</p>
7.4	<p>Mae dyluniad mewnol safle Rhydymain angen ei ail wampio'n llwyr fel nad oes unrhyw ymyrraeth ar ddisbarthiadau, gan ddarganfod dull rhwyddach a rhatach o ymestyn y neuadd, gan gofio am yr angen i gael mynediad i gadeiriau olwyn/ Byddai'n well – gadael y maes parcio at eto a defnyddio'r arian i adeiladu coridor allanol o'r neuadd i ystafelloedd y cyfnod sylfaen fel nad yw'r plant yn gorfod cerdded drwy'r dosbarthiadau eraill i fynd i'r neuadd.</p>	7	<p>Mae union ddyluniad safle Rhydymain (yn fewnol ac allanol) i'w gadarnhau yn dilyn trafodaethau pellach a dylunio manwl. Mae sut y defnyddir yr arian sydd wedi ei glustnodi yn ddibynnol ar y cynllun terfynol, yn dilyn mewnbyn gan ddefnyddwyr perthnasol.</p>
7.5	<p>Ystafell staff ar cynllun Rhydymain mewn lle gwallgof - rhy bell o'r swyddfa a'r brif fynedfa/ Mae gosod yr ystafell athrawon ym mhen pellaf yr adeilad yn anymarferol. Gellid ymestyn tu blaen yr ysgol a chreu ystafell yn ymyl y swyddfa.</p>	3	<p>Gellid ymestyn y drafodaeth hon ar ôl penderfyniad y Cabinet a chael mewnbyn defnyddwyr wrth ddylunio'r cynllun terfynol. Fodd bynnag mae'r cyllid sydd ar gael wedi ei gyfyngu.</p>
7.6	<p>Mae angen rhoi sylw manwl i'r nifer dosbarthiadau sy'n cael eu hargymell ar gyfer safle Rhydymain. Os am wella'r ddarpariaeth mae angen sicrhau bydd 4 dosbarth yn yr ysgol. Nid yw'n synhwyrol nac yn ymarferol cyfuno dosbarth o'r cyfnod sylfaen a CA2 gyda'i gilydd ac</p>	10	<p>Mae nifer dosbarthiadau yn cael eu penderfynu yn unol â'r dyraniad ariannol ar gyfer yr ysgol, sydd yn cael ei selio ar niferoedd yr ysgol. Mae rhagamcanion nifer y disgyblion yn gwarantu cyllideb ar gyfer 3 dosbarth. Bydd union ffurf dosbarthiadau yn cael ei benderfynu gan y Pennaeth a'r corff llywodraethu.</p>

	onid yw cael dros 30 mewn dosbarth yn anghyfreithlon? Nid yw'r ffaith fod y drefn yma'n bodoli mewn ysgolion eraill yn golygu fod y drefn yn iawn nac yn deg, addysg y plentyn yw'r flaenoriaeth.		
7.7	Angen ymestyn a gwella adnodd y neuadd fel bod modd cynnal pob gweithgaredd angenrheidiol ynddi (e.e. cinio i'r ysgol gyfan, gweithgareddau ymarfer corff, gwasanaeth boreol, cyngherddau) Teimlaf os y bydd y cynllun yn cael ei gefnogi byddai'n well buddsoddi'r arian sy'n cael ei neilltuo ar gyfer y MUGA (gan bod cae addas ar gyfer chwaraeon yna'n barod) i ymestyn y newydd ymhellach fel bo'r plant oll yn gallu bwyta'u cinio ar yr un ddesg.	7	Bydd y neuadd o faint digonol i gynnal gwasanaethau, gweithgareddau ymarfer corff a gweithgareddau cerddoriaeth ayyb. Bydd angen dau eisteddiad cinio pe bai'r safle yn llawn. Nid yw cynnal dau eisteddiad cinio yn anarferol yn ysgolion Gwynedd. Mae'r Cyngor wedi ystyried gosod neuadd fwy, ond gan ystyried y cyllideb sydd ar gael, ni ellid cyfiawnhau costau uwch na'r hyn sydd dan sylw, sef £620,00. Mae sut y defnyddir yr arian sydd wedi ei glustnodi yn ddibynnol ar y cynllun terfynol, yn dilyn mewnbwn gan bawb perthnasol.
7.8	Storfa ar gyfer offer ar y iard yn hen – angen edrych ar hwn	1	Byddwn yn edrych ar hyn wrth ddylunio'r gwaith – mae storfa yn rhan o'r cynllun cysyniadol.
7.9	Pam fod angen astro turf drud? Cae gwair yn ddigonol?/ Gwastraff hurt yw gwario ar y cwrt chwarae yn safle Rhydymain / Yn y sefyllfa gyllidol dynn sydd ohoni, gwastraff arian llwyr fyddai gosod cae aml-bwrpas yn lle'r cae presennol / Dim angen cwrt chwarae 'multi-use' – gwariant di-angen. Cae chwarae braf yn perthyn i'r ysgol a iard bwrpasol gyda digon o le arno.	4	Cytuno fod angen edrych eto ar hyn. Nid oes rheidrwydd i ddarparu hyn ac os bydd yr ymgynghori yn adnabod fod cae gwair yn cael ei ffafrio yna byddwn yn ymateb i hyn.
7.10	Hyderwn bydd cynrychiolaeth llywodraethwyr yr ysgol, ynghyd a chynrychiolwyr o'r dalgylch ysgol newydd yn cydweithio a'r Cyngor wrth baratoi'r cynllun terfynol	1	Bydd barn a mewnbwn rhai sy'n defnyddio'r ysgol yn hanfodol os am gael cynllun llwyddiannus.
7.11	Cynlluniau safle Rhydymain yn ymddangos na fydd fawr ddim gwelliannau yn digwydd yno. Bwriedir codi un ystafell ddosbarth a thoiledau, un cyntedd cotiau, ystafell ar gyfer staff a storfa allanol	2	Fel rhan o'r cynllun, buddsoddir £620,000 yn safle Rhydymain, sydd yn swm sylweddol gan y Cyngor. Canlyniad buddsoddiad arfaethedig y cynllun yw sicrhau adnodd priodol ar gyfer darparu addysg ac mae'r ychwanegiadau at yr adeilad presennol yn gwneud hyn.
7.12	Nid yw'r Cyngor yn fodlon cynnig rhywbeth gwell na'r hyn sydd gennym yn barod yn Ysgol Brithdir. Nid yw'r safle arfaethedig yn Rhydymain yn gwneud iawn am y blerwch a wnaeth y Cyngor yn y gorffennol wrth ymdrin â'r Brithdir.	1	Bydd y buddsoddiad yn Rhydymain yn sicrhau bod plant yr ardal yn derbyn eu haddysg mewn sefydliad addysgol addas i'r 21 ^{ain} Ganrif ac yn sicrhau na fydd disgyblion yn gorfod bwyta eu cinio yn y dosbarth.
7.13	Os bydd Ysgol Ieuan Gwynedd yn methu, ac mae popeth yn argoeli y bydd, bydd eich model newydd yn chwalu a phwy fydd yn atebol? Bydd yr effaith yn un barhaol ar ddyfodol ein plant ac ar y gymuned am genedlaethau i ddod / Yr ofn ydy y bydd Ysgol Rhydymain, os datblygir arni, yn fethiant, gan na fydd digon o blant yn mynd yno oherwydd y pellter. Beth wedyn? Wedi gwario ofer, bydd honno'n ca a bydd gan rieni ddim dewis ond mynd â'u plant i ysgol y dref. Oes gennych chi dystiolaeth o ymchwil i weld faint o rieni sydd am fynd	4	Mae cynllunio llefydd mewn ysgolion wastad yn anodd oherwydd bod dewis rhieni a theithio o du allan i ddalgylch naturiol yn digwydd. Pe byddai gwaith ymchwil wedi'i wneud, 'snapshot' yn unig fyddai gan bod tuedd dwewis rhieni'n gallu newid am nifer o resymau mewn amser sydyn iawn. Yn yr opsiwn a ffafrir arfaethedig mae digon o le yn safle Rhydymain i ddisgyblion presennol Brithdir, Rhydymain a Machreth ond croeso i rieni wneud cais mynediad i safle benodol arall. Rhagwelir bydd buddsoddi ac ymestyn safle Rhydymain i dderbyn disgyblion presennol tair ysgol yn gwneud y safle yn gynaliadwy i'r dyfodol.

	â'u plant i Rydymain?/ Dim pwrpas cael ysgol i'r dyfodol ar safle nifer plant isel, nac yn debygol o godi yno, "Dim plant, dim ysgol". Nifer plant yw'r peth pwysicaf i gynnal ysgol.																																																																																																																																																																										
7.14	Wal symudol bwrpasol yn nosbarth newydd y Cyfnod Sylfaen (fel yn Ysgol O M Edwards) er mwyn sicrhau fod cyfle i rannu'r dosbarth petai niferoedd yn uwch na 30 (anghyfreithlon i gael dosbarth uwch na 30 yn y Cyfnod Sylfaen) a sicrhau cyfle i rannu dosbarthiadau meithrin/derbyn ac 1 a 2 er mwyn sicrhau tegwch a chyfle gorau posibl i gynnal y safonau uchel	1	<p>Adroddwyd yn y ddogfen ymgynghorol ar sail y rhagamcanion a grëwyd ym Medi 2013 gan bennaethiaid, a chynigiwyd un ffordd posib gall maint dosbarthiadau safle Rhydymain gael eu trefnu. Enghraifft yn unig yw hyn, mae'r tabl isod yn dangos tair gwahanol ffordd gall niferoedd disgyblion gael eu trefnu yn seiliedig ar ragamcanion ddarparwyd gan bennaethiaid ym Medi 2014:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Safle</th> <th>Mekhen</th> <th>Dorbyn</th> <th>BI 1</th> <th>BI 2</th> <th>BI 3</th> <th>BI 4</th> <th>BI 5</th> <th>BI 6</th> <th>Cyf.</th> <th>Nifer Dosb</th> <th>Dosb Mwyaf</th> <th>Dosb Lleiaf</th> <th>Cyfartaledd Dosb</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td colspan="14" style="text-align:center;">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2013</td> </tr> <tr> <td rowspan="2">Rhydymain</td> <td>8</td> <td>8</td> <td>7</td> <td>8</td> <td>9</td> <td colspan="2">8</td> <td>12</td> <td>7</td> <td rowspan="2">67</td> <td rowspan="2">3</td> <td rowspan="2">23</td> <td rowspan="2">21</td> </tr> <tr> <td colspan="2">23</td> <td colspan="3">21</td> <td colspan="2">23</td> <td colspan="2"></td> </tr> <tr> <td colspan="14" style="text-align:center;">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 1</td> </tr> <tr> <td rowspan="2">Rhydymain</td> <td>8</td> <td>7</td> <td>6</td> <td>9</td> <td>8</td> <td colspan="2">8</td> <td>13</td> <td>7</td> <td rowspan="2">66</td> <td rowspan="2">3</td> <td rowspan="2">24</td> <td rowspan="2">21</td> </tr> <tr> <td colspan="2">21</td> <td colspan="3">21</td> <td colspan="2">24</td> <td colspan="2"></td> </tr> <tr> <td colspan="14" style="text-align:center;">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 2</td> </tr> <tr> <td rowspan="3">Rhydymain</td> <td>YB</td> <td>4</td> <td rowspan="2">7</td> <td rowspan="2">6</td> <td rowspan="2">9</td> <td rowspan="2">8</td> <td rowspan="2">8</td> <td rowspan="2">13</td> <td rowspan="2">7</td> <td rowspan="3">66</td> <td rowspan="3">3</td> <td rowspan="3">26</td> <td rowspan="3">16</td> </tr> <tr> <td>YP</td> <td>4</td> </tr> <tr> <td colspan="2">26</td> <td colspan="3">16</td> <td colspan="2">20</td> <td colspan="2"></td> </tr> <tr> <td colspan="14" style="text-align:center;">Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 3</td> </tr> <tr> <td rowspan="3">Rhydymain</td> <td>YB</td> <td>4</td> <td rowspan="2">7</td> <td rowspan="2">6</td> <td colspan="2">9</td> <td rowspan="2">8</td> <td rowspan="2">8</td> <td rowspan="2">13</td> <td rowspan="2">7</td> <td rowspan="3">66</td> <td rowspan="3">3</td> <td rowspan="3">20</td> </tr> <tr> <td>YP</td> <td>4</td> <td>5</td> <td>4</td> </tr> <tr> <td colspan="2">17</td> <td colspan="3">20</td> <td colspan="2">20</td> <td colspan="2"></td> </tr> </tbody> </table> <p>O'r enghreifftiau yn y tabl uchod, yn ddiabynnol ar benderfyniad y pennaeth, mae modd creu strwythur dosbarthiadau fel bod y cyfnodau allweddol ddim yn cael eu croesi. Bydd strwythur y dosbarthiadau yn cael eu penderfynu gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn seiliedig ar wir nifer y plant a'r staff a benodwyd i'r safle.</p>	Safle	Mekhen	Dorbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	Cyf.	Nifer Dosb	Dosb Mwyaf	Dosb Lleiaf	Cyfartaledd Dosb	Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2013														Rhydymain	8	8	7	8	9	8		12	7	67	3	23	21	23		21			23				Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 1														Rhydymain	8	7	6	9	8	8		13	7	66	3	24	21	21		21			24				Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 2														Rhydymain	YB	4	7	6	9	8	8	13	7	66	3	26	16	YP	4	26		16			20				Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 3														Rhydymain	YB	4	7	6	9		8	8	13	7	66	3	20	YP	4	5	4	17		20			20			
Safle	Mekhen	Dorbyn	BI 1	BI 2	BI 3	BI 4	BI 5	BI 6	Cyf.	Nifer Dosb	Dosb Mwyaf	Dosb Lleiaf	Cyfartaledd Dosb																																																																																																																																																														
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2013																																																																																																																																																																											
Rhydymain	8	8	7	8	9	8		12	7	67	3	23	21																																																																																																																																																														
	23		21			23																																																																																																																																																																					
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 1																																																																																																																																																																											
Rhydymain	8	7	6	9	8	8		13	7	66	3	24	21																																																																																																																																																														
	21		21			24																																																																																																																																																																					
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 2																																																																																																																																																																											
Rhydymain	YB	4	7	6	9	8	8	13	7	66	3	26	16																																																																																																																																																														
	YP	4																																																																																																																																																																									
	26		16			20																																																																																																																																																																					
Rhagamcanion Medi 2017 ar sail gwybodaeth gan Bennaethiaid ym Medi 2014 – Posibilrwydd 3																																																																																																																																																																											
Rhydymain	YB	4	7	6	9		8	8	13	7	66	3	20																																																																																																																																																														
	YP	4			5	4																																																																																																																																																																					
	17		20			20																																																																																																																																																																					
7.15	Angen uwchraddio system wresogi'r ysgol, lleihau costau gwresogi, osgoi gwastraffu ynni yn ddiangen, gwell rheolaeth dros y system wresogi sydd angen sylw parhaus yn ystod misoedd y gaeaf (costau ychwanegol cynnal a chadw ar hyn o bryd gan fod problemau parhaus gyda'r system wresogi)	1	Byddwn yn edrych ar hyn yn ystod y broses ddylunio.																																																																																																																																																																								
7.16	Does dim angen gwariant mawr ar faes parcio. Wrth ostwng y pafin ar y llain tir gyferbyn â'r ysgol, byddai'n caniatáu parcio yn rhwydd. Mae'r gwariant mwyaf angen ei wneud ar yr adeilad a'r adnoddau tu mewn – er mwyn sicrhau fod y disgyblion sydd i fynychu'r safle yn gwneud hynny	1	Cytuno y dylid blaenoriaethu gwariant ar adnoddau i'r plant. Fodd bynnag, mae'n rhaid sicrhau fod iechyd a diogelwch yn cael sylw hefyd yn arbennig trefniadau parcio a thraffig ger y safle.																																																																																																																																																																								

8. Safle Brithdir			
8.1	<p>Buasem yn hoffi gweld estyniad yn cael ei wneud ar ysgol Brithdir/ Gofyn am estyniad ydyn ni, nid ysgol newydd bellach. Mae gan rieni a chymuned Ysgol Brithdir gwmnïau tyllu a gwaith daear, peirianwyr sifil sydd wedi arfer a delio gyda chraig etc a fyddai'n barod iawn i baratoi'r cae gerllaw'r ysgol ymlaen llaw ar gyfer y datblygwyr.</p>	13	<p>Mae modd delio efo'r graig wrth gwrs ond mae'n ychwanegu at y costau. Fodd bynnag, nid oes modd goresgyn y problemau cynllunio mor rhwydd ac mae'r gost o wneud yr addasiadau i'r safle tu hwnt i'r gyllideb sydd ar gael.</p>
8.2	<p>Brithdir yn fwy canolog – nifer fwy yn mynychu'r ysgol ac mae'n gyfleus i rieni sydd am ddefnyddio Meithrinfa Seren Fach/ Mae'r lleoliad yn ganolog i'r ardal gyfan ac hefyd yn gyfleus i deuluoedd sydd a plant iau yn mynychu Meithrinfa Seren Fach / Mae Ysgol Ieuan Gwynedd Rhydymain yn bell iawn o safle Ysgol Dinas Mawddwy ac o'r safleoedd eraill i gyd – mae Brithdir yn llawer nes a chanolog. Mae agosatrwydd y safleoedd yn allweddol i sicrhau bod unrhyw fodel, yn enwedig un newydd, yn llwyddo / Ymgynghoriad gwreiddiol 2011 o blaid Brithdir oherwydd: Llauer mwy o blant (84%) yn byw yn nes at ysgol Brithdir nag at ysgol Rhydymain – llai o deithio o lawer (plant a phellter) a lleihau ôl-troed carbon sydd i fod yn ffactor pwysig / Mae ysgol Brithdir yn hwylus iawn i lawer o bobl yn yr ardal ac bysa'n bechod difetha'r gwaith da y mae'r staff yna yn ei wneud / Mae Ysgol Brithdir yn ganolog iawn ac yn hwylus i ni fel rhieni/ Mae'r ffaith bod bron 50 o blant yn dod i ysgol Brithdir bob dydd yn brawf o'r angen a'r galw am ysgol wledig hygyrch. Os ydych chi angen prawf pellach, mae 70 o blant hefyd yn cael eu cludo i'r Feithrinfa yn y Brithdir bob wythnos. Mae'r ysgol feithrin yn Rhydymain wedi cau hefyd oherwydd diffyg galw. Rydyn ni'n adnabod ein hardal. Ydych chi'n gyfarwydd â hi?</p>	14	<p>Mae'r Cyngor yn cydnabod bod safle Ysgol Brithdir yn nes at safle Ysgol Dinas Mawddwy ac yn wir, roedd hyn yn rheswm o blaid y safle pan penderfynwyd ei gynnwys fel rhan o'r cynnig blaenorol. Yn anffodus nid yw'n bosib bellach datblygu safle Brithdir.</p> <p>Rhwng safle Rhydymain a safle Dinas Mawddwy mae 12 milltir sydd yn cymryd oddeutu 20 munud i'w deithio.</p> <p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Seren Fach yn feithrinfa breifat sydd wedi'i lleoli yn y Brithdir, ond mae nifer o resymau wrth benderfynu ar ddewis safle.</p> <p>Wrth gyfeirio at ôl-troed carbon, mae angen ystyried bydd 4 safle addysgol yn cael eu cau, bydd yn golygu llai o safleoedd i'w gwresogi ayyb.</p>
8.3	<p>Cyngor wedi awgrymu nad craig y daeth yr asesiad peirianyddol ar ei thraws, dim ond na allai'r JCB fynd dim dyfnach – dim syndod o ystyried mai bwced heb ddannedd a ddefnyddiwyd. Rheswm am ddefnyddio bwced heb ddannedd, oedd archaeoleg gyfagos, o fewn 300m i Ysgol Brithdir (yn ôl swyddogion y Cyngor). Ysgol Brithdir pellach na hyn o'r olion Rhufeinig yn y Brithdir. JCB gyda bwced pwrpasol wedi gallu mynd llawer dyfnach, rhieni eu hunain wedi cadarnhau ar ôl tyllu'r cae. Camarwain / Datblygu'r cae wrth ymyl Ysgol Brithdir mor aruthrol bwysig i ddyfodol yr ysgol, pwy wnaeth y penderfyniad i ddefnyddio bwced di-ddannedd i dyllu'r cae, a pham? /</p>	14	<p>Cwmni preifat Betts Geo-environmental a gomisiynwyd i gwblhau gwaith daear ar safle cyfagos i Ysgol Brithdir. Penderfyniad y cwmni arbenigol oedd defnyddio bwced diddannedd i dyllu'r cae. Y rheswm oedd bod y safle o fewn pellter penodol i olion archaeolegol. Mae defnyddio bwced gyda ddannedd yn debygol o chwalu unrhyw olion archaeolegol ac mae hyn yn drosedd. Dyma'r offer a ddefnyddir gan bob cwmni arbenigol mewn sefyllfa o'r fath – cyrraedd lefel y graig yw pwrpas y rarchwiliad nid ceisio tyllu drwyddi ac felly mae bwced heb ddannedd yn gwbl rhesymegol.</p> <p>Mae adroddiad Geotech yn cadarnhau fod craig wedi ei darganfod 1 metr o dan y ddaear – mae'r term 'craig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio gwneuthuriad y deunydd o dan y</p>

<p>Soniwyd fod archeoleg yn y cae ger yr ysgol oedd yn rhwystro rhag adeiladu, beth yw hwn? Pan adeiladwyd nifer o dai yn Hengaer Brithdir, darganfuwyd ôl fathiau Rhufeinig ac adeiladwyd bungalo's ar y safle. Esgus arall dros beidio gwella safle Brithdir?/ Mae rhai o'r rhieni wedi bod yn tyllu wrth ymyl yr ysgol yn defnyddio bwced gyda dannedd ac, yn gwbl groes i'ch casgliad chi bod Betts Geoenvironmental Ltd wedi dod o hyd i graig yno, ni ddaethom ni ar draws UNRHYW graig o gwbl. Gwnaed un twll ar ben y boncyn wrth ymyl talcen yr ysgol lle byddech yn sicr o ddisgwyl dod ar draws craig. Yn enwedig gan mai dyma'r UNIG reswm pam y penderfynwyd ailfeddwl a chau Ysgol Brithdir, mae'r rhieni'n dechrau gofyn cwestiynau o ddirif a'r sefyllfa'n bygwth troi'n annifyr / Ystyried na ddaethom ni fel rhieni ar draws unrhyw graig yn y cael gerllaw Ysgol Brithdir, sut allwch chi gyfiawnhau'r gost ddiweddaraf o £2.72m i ddatblygu Ysgol Brithdir?/ Awgrymodd swyddogion y Cyngor yn gryf nad craig oedd yno, dim ond na allai JCB gyda bwced heb ddannedd fynd ddim dyfnach. Lle oedd yr ymdrech yn hyn? Yn enwedig o gofio nad oes unrhyw archaeoleg o fewn 300m i'r safle fel y credai swyddogion y Cyngor - olion Rhufeinig llawer pellach a thai eisoes wedi eu codi arnynt! Esgus tila iawn sydd eto wedi gwylltio rhieni a thrigolion Brithdir / Rhyfeddol bod Cyngor Gwynedd wedi newid eglurhad ar ôl i drigolion Brithdir brofi nad oedd craig 1 fedr dan y ddaear! Llwyddwyd i fynd lawr bron 2 fetr.</p>		<p>ddaear – nid yw o reidrwydd yn un craig solet. Roedd y cynnydd mewn costau yn gyfuniad o fwy nag un ffactor wrth gwrs gan gynnwys teyllu'r deunydd o'r safle, y gost o roi gwasanaethau drwy'r deunydd, y gost o ddraenio drwy'r deunydd, y gofynion newydd gan y Llywodraeth (gan gynnwys cynnydd mewn arwynebeddm a'r linc cymhleth rhwng un lefel y safle a'r lefel arall (gan gynnwys ayb).</p> <p>Mae adroddiad yn dilyn y gwaith yma wedi'i rannu gyda thrigolion Brithdir yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth. .</p> <p>Nid presenoldeb y graig yw'r unig reswm nac yn wir y prif reswm dros benderfyniad y Cabinet i ddirwyn y broses ddiwethaf i ben.</p> <p>Gweler isod ddarn o'r adroddiad aeth i Gabinet y Cyngor ym mis Gorffennaf 2013:</p> <p><i>1.4. Aethpwyd ymlaen i ymgynghori'n statudol ar y bwriad i wireddu'r cynllun yn ardal Brithdir a Dinas Mawddwy gan adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn yn Rhagfyr 2011. Oherwydd bod gwrthwynebiadau wedi eu derbyn trosglwyddwyd y mater i'r Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru am benderfyniad terfynol. Ym mis Tachwedd 2012 cafwyd penderfyniad o blaid y cynnig.</i></p> <p><i>1.5. Yn y cyfamser, gwnaethpwyd gwaith manwl ar safle Ysgol Brithdir a daethpwyd ar draws problemau a rhwystrau sylweddol o ran datblygu safle Brithdir o safbwynt materion cynllunio a chostau. Ers cyfnod yr ymgynghori ac wrth ddatblygu'r dyluniadau, daeth yn amlwg y byddai'n anodd iawn derbyn caniatâd cynllunio. Nodwyd y byddai'n rhaid gostwng lefel y tir yn sylweddol ar gyfer adeiladu a hynny mewn ardal ble mae craigm a byddai cost sylweddol ynghlwm â hyn. Yn ystod yr un cyfnod daeth yn amlwg fod gofynion technegol y Llywodraeth wedi newid ac y byddai angen mwy o ofod yn yr estyniad. Canlyniad hyn ydyw fod yr hyn a ystyrir bellach yn wahanol i'r hyn dybiwyd adeg yr ymgynghori, a chynnydd yn y gost a risg sylweddol na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi. Y pryder yw y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei wario er mwyn groesgyn problemau peirianyddol yn hytrach nag ar adnoddau addysg i ddisgyblion yr ardal.</i></p> <p><i>1.6. Yn sgil hyn, daethpwyd i gasgliad na fydd y cynnig gwreiddiol yn cael ei weithredu a bydd rhaid datblygu cynllun arall.</i></p> <p>Mae tri rheswm felly:</p>
<p>8.4 Rhieni Brithdir yn gandryll a methu deall sut gallwch gau ysgol lwyddiannus a ffyniannus heb unrhyw lefydd gweigion a symud plant i ysgol lai sy'n methu'n barod ac ar gyrion y dalgylch. Honiadau bod craig yn y cae ger Ysgol Brithdir ac felly bod costau cloddio'n mynd i fod yn uchel - costau cloddio honedig yw'r unig sail dros beidio â bwrw ymlaen â misoedd lawer o broses ymgynghori, a cynnig cymeradwywyd gan y Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru / Anodd profi'r rhesymau (e.e. tir anaddas, problemau cynllunio) dros peidio dilyn y cynllun arferol erbyn hyn a debycach o bosib fod ystyried costau yn unig mae'r Cyngor/ Fel y mae eich Prif Weithredwr eich hun wedi dweud, rhaid cael ateb hyfyw i'r dyfodol. Nid yw Ysgol Ieuan Gwynedd Rhydymain yn ateb hyfyw, beth bynnag yw eich rhesymau dros gau Ysgol Brithdir. Ni allwch ddarbwylo rhieni a phlant Ysgol</p>	<p>6</p>	<p>Mae tri rheswm felly:</p>

	<p>Brithdir eu bod yn symud i rywle gwell. Efallai y bydd rhai rhieni'n anfon eu plant i Ysgol Rhydymain yn y tymor byr, hynny yw, i orffen eu haddysg gynradd, ond yn y tymor hir ni fydd rhieni'n anfon eu plant yno fel sy'n digwydd yn barod. Y broblem fawr gyda'r sector cyhoeddus yw diffyg atebolrwydd ac, yn yr achos hwn, pwy fydd yn atebol mewn 5-10 mlynedd? Mae'n bosibl iawn na fydd y swyddogion sy'n gyfrifol am ad-drefnu ysgolion yn eu swyddi, na'r Cynghorwyr sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau mor bellgyrhaeddol hyn / Cael ysgol ar safle Brithdir fyddai'r un mwyaf cynaliadwy i'r dyfodol. Hollol gwastraff o arian gan y Cyngor fyddai buddsoddi yn safle Rhydymain, sydd ddim yn gynaliadwy, yn enwedig o ran niferoedd plant.</p>		<p>a) Y risg sylweddol o fethu cael caniatâd cynllunio doed a ddel. Yn ystod y cyfnod dylunio aeth barn y swyddogion cynllunio yn llawer mwy negyddol nag yr oedd adeg yr ymgynghori ac roeddent yn mynd yn fwy pryderus wrth i'r amser fynd heibio. Roeddem wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd y siawns o fod yn llwyddiannus yn fychan os nad amhosib. Dyma'r prif reswm felly, mater na all arian ei oresgyn wrth gwrs.</p> <p>b) Yn ystod y cyfnod dylunio, daeth gofynion y Llywodraeth yn gliriach. Os oeddem am ddefnyddio arian grant yna roedd angen gwariant ychwanegol ar natur yr adeiladwaith er mwyn cyrraedd gofynion amgylcheddol uchel iawn. Hefyd roedd angen 70m2 yn ychwanegol nag y dybiwyd yn wreiddiol os am gyrraedd y safonau disgwylidig i sicrhau arian grant.</p> <p>c) Yn ystod y dylunio bu i'r Parc fynnu y byddai'n rhaid gostwng lefel yr adeilad newydd yn sylweddol (hyd at 3m) er mwyn peidio ag effeithio ar yr ysgol bresennol a mwynderau'r tŷ yn y cefn. Eisoes mae safle'r ysgol bresennol fetr yn uwch na'r safle drws nesaf ac felly byddai angen cloddio 4 metr. Mae'r arolwg arbenigol yn dangos fod craig fetr o dan y ddaear. Nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu ei bod yn amhosib cyflawni'r datblygiad ond yn amlwg roedd yn ychwanegu at y gost. Byddai'r gwahaniaeth lefel hefyd yn golygu creu linc gymhleth a chostus rhwng yr hen a'r newydd gan gynnwys ayb.</p>
8.5	<p>Rhieni'r Brithdir wedi siomi na roddwyd eglurhad boddhaol dros beidio a chadw'r Brithdir fel safle - ar wahân i ddiffyg cyllid / Dryswch a diffyg tryloywder gwybodaeth/sarhad a siom yw cau Ysgol y Brithdir / Onid yw cyrff cyhoeddus yn atebol, yn gorfod dangos llwybrau penderfynu'n glir? Nid yw'r eglurhad a gawsom yn gwneud hynny / Yn y Brithdir, teimlwn fod rhywrai'n ceisio taflu llwch i'n llygaid. Mae'r wybodaeth gamarweiniol, diffyg bwriad a gwrthddweud difrifol yn peri gwir bryder inni. Bydd rhaid i ni gael atebion cwbl tryloyw a gonest i'r mater hwn</p>	5	
8.6	<p>Nodir y ddogfen ymgynghorol bod 'asesiadau technegol helaeth' wedi eu cynnal ar safle Ysgol Brithdir ac y byddai unrhyw ddatblygiadau yn 'eithriadol o ddud'. Argraff bod craig a bod angen 'cloddio helaeth' ar y safle. Daeth i'r amlwg nad oes craig yno a bod y Cyngor wedi taflu'r bai ar broblemau caniatâd cynllunio gyda'r Parc Cenedlaethol. Defnyddiwyd y ffaith hon fel bwch dihangol. Diddorol iawn yw deall bod Parc Cenedlaethol wedi cynnig i'r Cyngor newid cynlluniau ar gyfer y Brithdir a chynnig dyluniad gwahanol ond nad oedd y Cyngor wedi hyd yn oed ystyried nac ymateb i'r gwahoddiad / Yn wananol i'r hyn a dybiwyd oedd yn rheswm dros beidio a datblygu Ysgol Brithdir, cawson wybod gan swyddogion Cyngor Gwynedd NAD y graig a'r gost yw'r brif broblem ond yn hytrach y byddai cael caniatâd cynllunio bron wedi bod yn amhosibl, a bod modd goresgyn problem y graig a'r gost, ond nid y broblem gynllunio. Swyddogion y Parc yn gwadu hyn ac yn dweud y byddent yn croesawu cais cynllunio ac na ddaeth y</p>	18	<p>Cynhaliwyd sawl trafodaeth agored gda Swyddogion Cynllunio'r Parc. Crëwyd model 3D o'r ysgol a chyflwynwyd cynlluniau. Cynigiwyd gwneud newidiadau. Roedd yr ymateb yn negyddol ac roeddent yn gallu cyflwyno dadleuon digon rhesymol dros wrthod cais cynllunio. Byddai parhau i wneud y gwaith angenrheidiol i gyflwyno cais llawn wedi costio rhai degau o filoedd a phenderfyniad y Cabinet, o ystyried yr holl ffactorau, oedd peidio â bwrw ymlaen gyda'r datblygiad.</p> <p>Nid oedd y sefyllfa yn Llanegryn yn gymharol. Yn yr achos hwnnw roedd y swyddogion cynllunio yn eithaf cefnogol o'r cychwyn – nid oedd y gwrthwynebiadau yn rhai oedd â sail cynllunio yn perthyn iddynt.</p>

	<p>Cyngor yn ôl atynt o gwbl i gytuno ar newidiadau / Awdurdod y Parc yn dweud un peth a swyddogion Cyngor Gwynedd yn dweud peth arall yn bendant. Sut allwch ddisgwyl i rieni, plant a chymuned Brithdir dderbyn hyn? Mynnwn felly fod Cyngor Gwynedd yn cyflwyno CAIS CYNLLUNIO ar gyfer rhoi estyniad ar Ysgol Brithdir rhag blaen, er tegwch i'r broses ymgynghori gyntaf o blaid cadw Ysgol Brithdir ar agor / Cam argraff yn y PAD a'r diwrnodau agored am wybodaeth cynllunio /Parc yn fodlon trafod cais cynllunio / Cyngor wedi penderfynu peidio datblygu safle Brithdir gan fod Y Parc Cenedlaethol yn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio. Parc yn honni na gyflwynwyd cais cynllunio i'r Parc, dim ond trafodaethau/ Awgrymiadau swyddogion y Parc, ei bod bron yn amhosibl iddynt fod yn adeiladol a phositif ynghylch y dyluniadau fel yr oeddent. Nid y siawns fach o gael caniatâd cynllunio oedd y broblem, ond diffyg bwriad a phenderfyniad. Twyllo allan o ddatblygiad / Yn dilyn y noson agored, aeth rhieni i gysylltiad ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - swyddogion y Parc yn gwadu y byddai wedi bod yn amhosibl cael caniatâd cynllunio. Cynlluniau mor sâl bod Swyddog Cynllunio wedi eu disgrifio fel 'the cheapest plans possible, mere sketches, only a box to consider') ac y byddent yn croesawu cais cynllunio. Roedd 350 wedi gwrthwynebu i'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol yn Llanegryn, a'r Parc hefyd wedi gwrthwynebu, ond aethpwyd â'r maen i'r wal yn yr achos hwnnw yndo? Pam ddim yn y Brithdir? / Pam na wnewch chi fod yn onest o leiaf, a pheidio â beio Swyddogion Cynllunio er enghraifft, a chyfaddef mai arbed costau yw'r unig bwrpas i gau ein hysgolion?</p>		
8.7	<p>Hoffwn weld copi o'r ohebiaeth/e-bost rhwng yr adran Eiddo a'r Parc Cenedlaethol lle mae'r Parc yn dweud na fyddai adeilad traddodiadol drws nesaf i Ysgol Brithdir yn dderbyniol ganddynt, ac y byddai'n rhaid i'r ysgol fod i lawr yn isel o olwg tŷ'r ysgol.</p>	1	<p>Mae copïau o ohebiaeth sy'n bodoli eisoes wedi eu darparu i'r ymholydd. Eglurwyd hefyd mai mewn cyfres o gyfarfodydd a sgysiau rhwng penseiri a'r cynllunwyr oedd y wybodaeth yma yn cael ei rhannu.</p>

8.8	Dim ond rhan o adroddiad Betts Geoenvironmental Ltd derbyniodd Grŵp Rhieni Brithdir – ni chafodd cais cyntaf Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gael gweld yr adroddiad llawn ei ateb yn gyflawn – hoffem weld yr adroddiad llawn, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth / Eisiau gweld lluniau o Trial Pits 1 – 5 o Adroddiad Geotechnical Cais gan Grwp Rhieni Brithdir cael gweld adroddiad y Penseiri Ainsley Gommon Architects, ac unrhyw adroddiad arall a ddefnyddiwyd yn sail i'r penderfyniad i roi'r gorau i ddatblygu Ysgol Brithdir	1	Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb yn dilyn ateb y cais Rhyddid Gwybodaeth felly nid oedd y cyngor yn ymwybodol o'r dymuniad am wybodaeth bellach. Mae pob darn o'r adroddiad oedd yn cyfeirio at yr asesiad tirwedd wedi'i ddarparu yn yr ymateb gwreiddiol. Roedd hwn yn ddarn o adroddiad ehangach ar holl faterion amgylcheddol y safle e.e. ystlumod, dŵr, bioamrywiaeth ayb. Mae'r wybodaeth ychwanegol hon wedi'i darparu i'r ymholydd.
8.9	Cynrychiolaeth Grwp Rhieni Ysgol Brithdir am fynychu diwrnod agored lau 6ed Tachwedd tua 6pm - eisiau cael siarad gyda rhywun sy'n deall gwaith tyllu peirianyddol a'r rhesymau technegol pam na aethpwyd ymlaen â'r cynnig, efallai un o'r penseiri neu beiriannydd gwaith daear?	1	Gan mai ar 4 Tachwedd y derbyniwyd y cais hwn, nid oedd modd trefnu i benseiri na pheiriannydd fod yn bresennol. Roedd swyddogion yr Adran Eiddo yno a chynhaliwyd trafodaeth gyda chynrychiolwyr gan ymateb i ymholiadau technegol ar y safle.
8.10	Dim rhesymau technegol na chynllunio yn bodoli, pam na fyddai creu ysgol yn Brithdir yn bosib. Fe gadarnhawyd hyn gan yr Adran Eiddo yng Nghanolfan Glanwnion ar 6ed Tachwedd. Hollol groes i'r wybodaeth a gafodd rhieni Brithdir pan benderfynwyd rhoi stop ar y cynllun.	1	Mae rhwystrau i ddatblygu safle gyfochrog i ysgol Brithdir fel eglurwyd uchod. Eglurwyd hyn yn gyson mewn ymatebion gohebiaeth ac ar lafar yn y diwrnodau agored gan swyddogion yr adran Eiddo.
8.11	Gan rieni a chymuned Ysgol Brithdir gwmnïau tyllu a gwaith daear, peirianwyr sifil sydd wedi arfer a delio gyda chraig etc a fyddai'n barod iawn i baratoi'r cae gerllaw'r ysgol ymlaen llaw ar gyfer y datblygwyr	7	Nid rhwystrau tyllu'r cae yw'r unig reswm pam y penderfynwyd peidio â pharhau â'r datblygiad yn y Brithdir.
8.12	Rhieni a phlant Ysgol Brithdir efallai'n fodlon ystyried opsiwn symud i ysgol fwy ac ynddi'r holl adnoddau diweddaraf, fel Tywyn; neu Y Bala. Sut allwch chi ddisgwyl i ni dderbyn symud i Ysgol Ieuan Gwynedd sydd yn amhoblogaidd o ran lleoliad, niferoedd yn gostwng o hyd? Gwelliant i'n plant?...	2	Fel rhan o'r cynnig, ni fydd Ysgol Ieuan Gwynedd yn parhau yn ei ffurf bresennol. Bydd safle addysgol yn parhau yn Rhydymain a bydd buddsoddiad £620,000 i ymestyn ac uwchraddio'r adeiladau. Y gwaith bwriedir ei wneud yn safle Rhydymain yw creu dosbarth ychwanegol, stafell athrawon, gwelliannau i'r trefniadau parcio a gollwng/casglu plant, mwy o doiledau a gwella cyflwr yr adeilad presennol.
8.13	Pryderon trigolion ardal Brithdir a rhai o resymau dros gadw Ysgol Brithdir ar agor ar ôl y broses ymgynghori gyntaf yn 2011: <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol Brithdir yw'r unig ysgol yn y dalgylch sydd heb lefydd gweigion- mae cynnydd o 114% wedi bod yn nifer y disgyblion rhwng 1975-2011. Mae'r ysgol yn orlawn. • Llawer mwy o blant (84%) yn byw yn nes at yr ysgol yn y Brithdir 	8	Mae nifer o wahanol ffactorau wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r opsiwn arfaethedig a ffafrir. Yn wir mae nifer o'r rhesymau a restrwyd yn rhai o'r rhesymau dros ddewis safle Brithdir fel rhan o'r cynnig blaenorol. Yn anffodus, nid yw datblygu safle ysgol Brithdir yn opsiwn posib bellach am nifer o resymau a eglurwyd uchod. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod safle Ysgol Brithdir yn nes at safle Ysgol Dinas Mawddwy,

	<p>nag at yr ysgol yn Rhydymain – llai o deithio o lawer (plant a phellter) gan gyd-fynd a pholisi Cyngor Gwynedd ar leihau teithio ac felly ein ôl-troed carbon. Bydd hwn yn ffactor hollbwysig i'r dyfodol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Ysgol Brithdir yn ganolog iawn i hwyluso cydweithio/rhannu adnoddau rhwng safleoedd • Mae lleoliad Ysgol Brithdir, mor agos at Ddolgellau yn un o nifer o'i chryfderau – mae'n ddewis ymarferol (o ran pellter) i'r rhieni hynny sy'n dymuno rhoi addysg wledig i'w plant, lle mae'r Gymraeg i'w chlywed yn cael ei siarad yn naturiol ar iard yr ysgol. • Lleoliad daearyddol addas (hygyrch) • Cynnydd amlwg yn niferoedd y plant • Niferoedd cynaliadwy o ddisgyblion – dim llefydd gwag • Darpariaeth feithrin gerllaw (yn y Brithdir) • Yn nes i ysgol Dinas Mawddwy • Pellter teithio derbynol i ddisgyblion all-ddalgylch • Buddsoddiad doeth a chynaliadwy i ddiogelu addysg wledig dalgylch y Gader. 		<p>ac yn wir, roedd hyn yn rheswm o blaid y safle pan penderfynwyd ei gynnwys fel rhan o'r cynnig blaenorol. Yn anffodus nid yw'n bosib bellach datblygu safle Brithdir.</p> <p>Mae'r Cyngor o'r farn bod yr opsiwn arfaethedig yn cynnig y ffordd orau ymlaen i sicrhau hyfywedd darpariaeth addysgol dalgylch y Gader.</p> <p>Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i weld pob plentyn o fewn y Sir yn cael cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg a chyfleoedd. Oherwydd hynny, mae'r cynnig hwn i ddarparu addysg gynradd ar 5 safle yn hytrach na 9 safle yn mynd i olygu gwella adnoddau, lle storio adnoddau, llyfrgell, technegol gwybodaeth, neuadd a chae chwarae.</p> <p>Aelodau staff a disgyblion sy'n creu awyrgylch braf mewn ysgolion ac sy'n sicrhau ffyniant yr ysgol honno ac wrth gyfuno ysgolion mewn unrhyw gynllun, ni ddaw i hynny i ben.</p>
8.17	<p>Siom fod y Cyngor yn meddwl cau Ysgol Brithdir a pheidio â defnyddio'r safle. Amlwg dewis rhieni lleol ydy Ysgol Brithdir / Fel rhiant yn byw yn Brithdir, gwneud estyniad ar ysgol Brithdir yn well na Rhydymain. Ddim yn hoff o'r syniad o yrru plentyn ymhellach – mwy hwylus casglu plentyn o'r Brithdir yn y pnawn – dim yn gallu ei chasglu o Rydymain/ DIM llefydd gweigion yn y Brithdir na llefydd gweigion i'r dyfodol. Dyma'r safle a'r lleoliad sydd yn denu rhieni yn flynyddol ac yn parhau i ddenu er y cwmwl o gau. Mae llwyddiant meithrinfa Seren Fach yn y pentref yn profi bod y Brithdir yn safle sy'n hygyrch i rieni ac yn safle fydd yn sicrhau dyfodol llewyrchus i addysg wledig yn nwyrain Dolgellau</p>	11	
8.18	<p>Cyngor gwneud ymchwil annibynnol i ganfod i ble y byddai'r rhieni am yrru eu plant? Mae'n amlwg, gan nad oes llefydd gweigion yn Brithdir, mai dyma'r safle y maent yn ei ffafrio.</p>	2	<p>Mae cynllunio llefydd mewn ysgolion wastad yn anodd oherwydd bod dewis rhieni a theithio o du allan i ddalgylch naturiol yn digwydd. Pe byddai gwaith ymchwil wedi'i wneud, 'snapshot' yn unig fyddai gan bod tuedd dwewis rhieni'n gallu newid am nifer o resymau mewn amser sydyn iawn. Yn yr opsiwn a ffafrir arfaethedig mae digon o le yn safle Rhydymain i ddisgyblion presennol Brithdir, Rhydymain a Machreth ond croeso i rieni wneud cais mynediad i safle benodol arall.</p>

8.19	Ysgol Brithdir heb gae chwarae, heb ystafell fwyta, heb ystafell staff, a heb ddelwedd fodern, er hynny mae rhieni'n dymuno anfon eu plant i Ysgol Brithdir i dderbyn addysg o'r radd flaenaf gan staff ymroddedig	1	Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhai diffygion yn safle Ysgol Brithdir a dyna pam byddai rhaid gwneud estyniad yn y cae gyfochr i alluogi'r safle dderbyn mwy o ddisgyblion ac i uwchraddio ansawdd ac addaswydd yr adeiladau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod staff ymroddedig yn y dalgylch a'r gobraith yw bydd y staff yma'n gallu gweithio fel rhan o'r ysgol ddilynol ddalgylchol.
8.20	Nifer o ffactorau yn erbyn Brithdir – adeilad, anodd i fysis droi, dim tir addas	1	Mae datblygu safle Rhydymain yn rhwyddach ac yn rhatach na datblygu safle Brithdir.
9.	Materion Safle ac Adeiladu Eraill		
9.1	Croesawir buddsoddiad adeiladau Ysgol Gynradd Dolgellau	1	Bydd y buddsoddiad yn darparu adnodd priodol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
9.2	Disgwyl bydd ymgynghoriad llawn gyda staff Cynradd Dolgellau wrth gynllunio'r adeiladau newydd er mwyn cael mewnbwn proffesiynol fel y bydd yr adeilad newydd yn addas i bwrpas	1	Bydd llwyddiant y datblygiad yn ddibynnol ar allu ymgynghori'n llawn gyda phob carfan o ddefnyddwyr yr adeilad.
9.3	Pryderu bod safle Friog am fod heb cyfarpar i gymharu a'r safleoedd eraill gan ystyried mai £15,000 yn unig sy'n cael ei fuddsoddi yno. Pryder bydd rhieni yn mynd a'i plant i safleoedd sy'n derbyn mwy o fuddsoddiad.	1	Mae adeilad Friog mewn cyflwr derbyniol ac nid oes gofynion gwario mwy ar ei gyflwr. Nid oes cyllideb ar gael i uwchraddio'r safle yn ei chyfanrwydd.
9.4	Lluniau Ysgol Friog yn y ddogfen ymgynghori ddim yn cyfleu gwir cyflwr y safle gan bod y lluniau yn hen a gwaith wedi ei wneud ers i'r lluniau cael eu tynnu. Pryderu bod hyn yn cyfleu safle gwael i gymharu a'r safleoedd eraill.	1	Derbyn y sylw – mae'r adeilad mewn cyflwr da.
9.5	Gan fod ysgol y dalgylch nesaf yn ysgol newydd gyda'r adnoddau a'r offer gorau sydd ar gael heddiw – denu sylw rhieni. Eisiau parhau a'r nifer uchel dderbyniadau Meithrin yn y Friog – 7 yn Medi 2014. 18 disgybl yn nosbarth y CS. Ardal tu-allan safon uchel. Pryderu nad yw dosbarth CS yn ddigon mawr i alluogi'r CS weithredu'r i'r gallu gorau. 2 ddosbarth presennol sydd yn cael eu defnyddio fel dosbarthiadau i'r disgyblion. Defnyddir y trydydd dosbarth fel ardal Dylunio Tech. , Celf a Llyfrgell. Gobeithio gall gwariant ei roi ar yr ysgol i dorri wal er mwyn gwneud 2 ddosbarth yn 1.	1	Bydd pob opsiwn yn cael ystyriaeth yn ystod y cyfnod dylunio gyda'r nod o ddarparu'r adnodd gorau o fewn y gyllideb sydd ar gael.
9.6	Angen buddsoddiad yn Ysgol Y Gader / Nid yw Ysgol Y Gader yn cael cymaint o sylw a'r gweddill e.e. Ysgol OM Edwards / Anfodlonrwydd diffyg gwariant i wella cyfleusterau presennol Ysgol y Gader o fewn y ddogfen - gofyn i'r Cyngor ail-edrych ar hyn.	4	Mae £439,000 o ôl-groniad cynnal a chadw yn cael ei wario ar Ysgol Y Gader yn ystod y blynyddoedd nesaf.
9.7	Ffenestri yn y ddwy neuadd yn Ysgol Y Gader yn hen ac yn gadael	1	

	oerni i mewn		
9.8	Rhai ystafelloedd Ysgol Y Gader yn rhy fach i'w defnyddio fel dosbarth/ Ystafell Ddaearyddiaeth yn hyll – waliau brown a dwr yn gollwng ohono. Mae llwydni ar hyd y wal – effeithio ar iechyd plant / Angen newid mawr i'r dosbarthiadau, maent yn blaen ac yn hyll	2	
9.9	Un bloc Ysgol Y Gader sydd ddim yn cael llawer o ddefnydd, awgrymwyd gellid newid 1 swyddfa a storfa i fod yn ddosbarth	1	Nid oes gofyn am ddosbarth ychwanegol yn y Gader ar hyn o bryd.
9.10	Ysgol Y Gader gyda hen dechnoleg megis cyfrifiaduron yn cael effaith ar waith cwrs / Ystafell goginio - offer gwael a popeth yn fudr	1	Mae sut bydd cyllid yr ysgol yn cael ei ddyrannu/wario yn benderfyniad i'r pennaeth a'r corff llywodraethol newydd benderfynu, efallai bydd penderfyniad i uwchraddio rhai adnoddau penodol.
9.11	Hapus gyda rhai gwelliannau sydd wedi digwydd yn y Ysgol Y Gader eisoes e.e. carped ystafell Ffrangeg.	1	Croesawu'r sylw.
9.12	Ffordd A496 gyfochr safle Llanelltyd yn un brysur iawn a rhaid sicrhau fod pob un ymdrech yn cael ei wneud i arafu'r traffig a safleoedd pwrpasol i rieni i ollwng a chodi eu plant.	1	Cytuno. Mae'r cynllun arfaethedig yn rhoi sylw i drefniadau parcio a thraffig ger y safle.
9.13	Gwell gwario'r arian ar ddarparu gwell cyfleusterau a rennir ar gyfer y dalgylch yn hytrach nag estyniadau, gwell cyfleusterau parcio a gostyngiad mewn niferoedd staff, gyda arbedion cyflog yn ymddangos fel y prif yriad i'r cynnig.	1	Nod y Cyngor yw creu darpariaeth addysgol chadarn a cynaliadwy i'r dyfodol gan ystyried bod consensws wedi ei gyrraedd ers cryn amser bod y ddarpariaeth bresennol yn anghynaliadwy yn ei ffurf bresennol.
9.14	Eisiau ysgol o safon 21 ^{ain} ganrif fel yr enghreifftiau a geir ar y rhyngwrwyd nid plaster, system gwresogi a paent newydd/ Ble mae'r weledigaeth tymor hir ynglŷn a'r adeiladau a'r cyfleusterau? Mae'r cynnig yn dynodi estyniadau bach, gwell cyfleusterau parcio a gwelliannau trafniadaeth. A ellir cyfiawnhau'r gwariant ar newidiadau bach? Sut mae'r rhain yn gwella addysg?	2	Nid gwariant bach sydd yn digwydd, mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yn y dalgylch. Bydd safleoedd Cynradd Dolgellau, Llanelltyd a Rhydymain yn derbyn buddsoddiad i'w uwchraddio fel bod plant yr ardal yn derbyn eu haddysg mewn sefydliad addysgol addas i'r 21ain ganrif. Bydd anghenion ôl-groniad cynnal a chadw safleoedd ysgolion Friog, Dinas Mawddwy ac Y Gader hefyd yn cael ei gwblhau.
9.15	Dogfen ymgynghori statudol yn cynnwys manylion am uwchraddio gwaith i adeiladau presennol, sy'n debygol o wella'r amgylchedd dysgu.	1	Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhai adeiladu ysgolion y dalgylch ddim yn hollol addas i bwrpas. Dyma pam bod ymrwymiad i fuddsoddi £4,831,000 yn safleoedd addysgol y dalgylch erbyn Medi 2017 - i sicrhau yr ansawdd dysgu gorau posib pe bai'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yn cael ei sefydlu.
9.16	Adeiladau ysgolion y dalgylch yn dyddio o oes Victoria, bellach yn anaddas ar gyfer gofynion addysg yr oes	1	
9.17	Os yw pob safle yn perthyn i'r un sefydliad yn nalgylch y Gader oni ddylai pob un felly gynnig yr un adnoddau a'r un cyfleoedd addysgu i'r disgyblion? Gorfod 'gwneud y tro' ers llawer iawn o flynyddoedd. Felly dyma gyfle i'r Cyngor fod yn arloesol a gwella yr holl safleoedd yn gyfartal er budd pob disgybl, nid dim ond rhai.	1	Gan ystyried yr hinsawdd economaidd mae buddsoddiad ariannol sylweddol yn cael ei wneud i ddatblygu safleoedd y dalgylch. Wrth fuddsoddi £4.34miliwn o arian cyfalaf i uwchraddio safleoedd mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau ansawdd amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf. Yn ogystal â'r gwaith yma mae safleoedd Friog, Gader a Dinas Mawddwy yn derbyn gwariant ôl-groniad cynnal a chadw i'w gwella. Mae cyfanswm y gwariant ôl-

			ddefnydd cynnal a chadw yn £491,000. Golyga hyn bod y Cyngor yn ymrwymo i fuddsoddi £4,831,000 erbyn Medi 2017 i sicrhau yr ansawdd dysgu gorau posib pe bai'r Ysgol Ddilynol Ddalgyllchol yn cael ei sefydlu.
9.18	Costau ar gyfer yr dosbarthiadau newydd yn chwerthinllyd a dros bris. Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau?	1	Mae'r costau wedi eu cyfrifo gan Faint-fesurwyr Siartredig sy'n brofiadol iawn yn y maes yma ac yn seiliedig ar brisiau wedi eu derbyn drwy dendr yn yr ardal yn y flwyddyn ddiwethaf.
9.19	Undeb yn croesawu'r nod o gael adeiladau ac adnoddau 'addas i bwrpas' ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Rydym yn cytuno bod cael yr amgylchedd dysgu gorau yn hanfodol i addysg disgyblion; byddem am ychwanegu bod hyn yn llesol i foral staff hefyd. I sicrhau hynny mae angen i'r gwaith cefndir manwl o ran addasrwydd ac argaeledd y tir ble mae adeiladau i'w codi ddiwydd yn ddi-oed. Ar hyn o bryd deil gormod o amwysedd neu ansicrwydd ar faterion o'r fath.	1	Os bydd y cynnig yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet bydd modd symud y gwaith manwl yn ei flaen.
10	Ymgynghori gyda Plant a Phobl Ifanc		
10.1	Wedi ymateb cwestiwn "Beth yw'r pethau pwysicaf i chi mewn ysgol?" gyda: Ffrindiau da, ffeind a chyfeillgar / Athrawon / Chwarae / Larwm tan a toiledau estyniad / Digon o le i chwarae / Maes parcio mwy / Gwersi diddorol / Ffrindiau da / Athrawon Fi / Ysgol agos i fy nghartref / Addysg wledig / Cymraeg yn cael ei siarad yn yr iard yn naturiol / Athrawon caredig a ffrindiau da a gallu cymryd rhan mewn cystadlaethau fel pêl-rwyd, pêl-droed a chwaraeon a hefyd gallu cymryd rhan mewn canu, llefaru, dawnsio / Ysgol bentrefol lleol gydag addysg dda a bod pawb yn cael tro i gwneud gweithgareddau gwahanol / Gwaith	12	Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi sylwadau plant a phobl ifanc yr ysgolion ac yn falch o weld y nodweddion penodol mae disgyblion yn edrych ymlaen atynt ac yn eu hystyried yn bwysig mewn ysgol.
10.2	Wedi ticio wyneb hapus yn yr holiadur plant - 😊	2	
10.3	Wedi ymateb cwestiwn "Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf?" gyda: Yr ysgol yn fwy er mwyn y dosbarth yn fwy / Os byddaf yn mynd i'r ysgol rhywle arall byddwn yn gwneud ffrindiau newydd /	2	
10.4	Mwy o ffrindiau a mwy o le / Mwy o offer yn y neuadd.	2	
10.5	Wedi ymateb cwestiwn "Beth sy'n eich poeni am hyn?" gyda: Dim Byd	1	
10.6	Wedi ticio wyneb trist yn yr holiadur plant - ☹️ Un plentyn wedi creu wynab trist yn crio / Teimlo'n drist iawn eich	12	Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi sylwadau plant a phobl ifanc yr ysgolion ac yn cymryd sylw o'r pryderon penodol nodwyd. Bydd bob ymdrech yn cael ei gwneud i leddfu'r

	bod yn gwneud newidiadau ac yn bwriadu cau fy ysgol / Trist a blin bod bwriad cau fy ysgol / Trist iawn a blin mae ysgol Brithdir yn ysgol hapus -mae yna llawer o blant yna mae pawb yn ffrindiau. Rydan i yn cystadlu yn yr urdd / Dydw i ddim yn hapus bod sôn bod ysgol Brithdir am gau oherwydd mae yr ysgol yn ysgol hapus a mae llawer o blant yno a felly does dim rheswm i symud ysgol gyda llawer o blant ynddo i ysgol gyda dim llawer o blant. Dydi o ddim yn gwneud synnwyr.		pryderon pe bai'r cynnig yn parhau e.e. trefnu amser cydweithio fel bod disgyblion gwahanol safleoedd fydd yn dod at ei gilydd yn dod i nabod ei gilydd cyn Medi 2017.
10.7	Wedi ymateb cwestiwn "Beth sy'n eich poeni am hyn?" gyda: Mae ysgol y Brithdir yn dda ac yn llawn pam raid iddi gau mae ysgol Rhydymain yn bell / Rydw i yn drist a pryderus pam raid inni fynd mor bell i ysgol ac ysgol y Brithdir mor dda / Rwyf yn hoff iawn o fy ysgol a dydw i ddim am iddo gau / Mwy o blant cas / Ofnus o athrawes newydd / Poeni byddai ddim gyda fy ffrindiau / Rydw i yn hapus iawn yn fy ysgol. Dydw i ddim yn hoffi y newid iddo, dydw i ddim eisiau teithio'n bell / Bydd rhaid i mi deithio yn bell i fy ysgol ac mae sôn bydd rhaid i mi deithio hefyd i safle ysgol y Gader am rai gwersi. Mae yn fy mhoeni eich bod wedi cau Ysgol Brithdir gan eu bod yn ysgol hapus llwyddiannus ac yn llawn o blant / Bod ffrindiau fi ddim yn mynd i fynd oherwydd mae o rhy bell i ffwrdd o Ysgol Brithdir. Os does na ddim plant am fynd i'r ysgol byddan ddim yn gallu cystadlu mewn chwaraeon na ddim byd / Athrawon yn colli jobiau nhw a y trafeilio yn bell bob bore. colli ffrindiau da / / Mae lot o ffrindiau yn deud bydd eu mam yn gyrru nhw i ysgol arall, achos bod o'n rhy bell o'r dre / Disgybl uwchradd yn poeni am addysg Y Gader	11	
10.8	Wedi ymateb cwestiwn "Beth ydych yn edrych ymlaen ato fwyaf?" gyda: Dim Byd / Dim yn edrych ymlaen / Dydw i ddim yn edrych ymlaen at y newid sy'n cau fy ysgol	8	Mae'r Cyngor yn derbyn y sylwadau, pe bai'r cynnig yn parhau, gobeithir bydd rhai agweddau o'r cynnig bydd y disgyblion yma'n mwynhau.
10.9	Roeddwn yn edrych ymlaen at yr ysgol newydd yn y Brithdir.	1	Mae'r Cyngor yn cymryd y sylw yma ac yn ymwybodol o'r rhwystredigaeth lleol bod y cynnig blaenorol heb ei wireddu.
10.10	Dwi'n hoffi'r ysgol	1	Mae'r Cyngor yn falch bod rhai disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn gobeithio bydd hyn yn parhau yn yr ysgol arfaethedig newydd
10.11	Pam ymgynghori gyda phlant? Maent yn ifanc ac nid oes angen eu cynnwys.	1	Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) mae'n hanfodol fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol i ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad.

10.12	<p>Rydych wedi anfon taflen i'r plant yn egluro'r ymgynghori a pham fod angen y cynnig newydd hwn. Ynddi, o dan bwynt 1 - PWRPAS NEWID? – Rydych yn rhoi'r rhesymau hyn:</p> <p><i>Gwella ansawdd addysg;</i> <i>Gwella ansawdd adeiladau e.e. paentio</i> <i>Gwneud gwell defnydd o adnoddau e.e. offer TG</i> <i>Sicrhau trefn addysgol dda i'r dyfodol</i> <i>Lleihau nifer llefydd gwag mewn ysgolion</i> <i>Darparu ysgolion sy'n bwysig i'r gymuned</i> <i>Cryfhau'r Iaith Gymraeg</i> <i>Cael dosbarthiadau o faint addas</i></p> <p>Gan Ysgol Brithdir y pethau hyn yn barod – beth yw'r gwelliant i blant yr ysgol hon felly?</p>	1	<p>Mae'r ddogfen ymgynghorol statudol wedi ei grynhoi i ddisgyblion lled cynradd, nid yw'r holl ffactorau yn cael eu cynnwys. Mae rhai diffygion o ran adeilad yn Ysgol Brithdir Pe bai'r safle'n cael ei gadw, byddai angen ei uwchraddio a'i ymestyn i dderbyn mwy o ddisgyblion. Roedd hyn yn rhan o'r cynllun gwreiddiol ond yn anffodus nid yw'n opsiwn realistig posib bellach ac felly nid yw'n cael ei gynnwys fel un o safleoedd yr ysgol ddilynol ddalgylchol.</p>
10.13	<p>Pam na hysbyswyd rhieni y bydd aelod o staff y Cyngor yn mynychu'r ysgol. Cyfrifoldeb a phenderfyniad y rhieni yw pasio'r neges i'r plant, nid y Cyngor / Camgymeriad mawr ar ran y Cyngor oedd peidio â chynnwys manylion yn yr amserlen ar dudalen 74 o'r Ddogfen Ymgynghori Statudol yn nodi y byddai aelod annibynnol yn dod o amgylch pob ysgol yn y dalgylch i roi cyflwyniad ar yr ad-drefnu i'r disgyblion. Mae sawl rhiant wedi eu cythruddo yn fawr nad oeddent wedi derbyn gwybodaeth am hyn ymlaen llaw a bu i rai eithrio eu plant o'r cyfarfodydd.</p>	2	<p>Nodwyd yn rhan 1 y ddogfen ymgynghorol statudol:</p> <p><i>“Bydd trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i dderbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion dan ystyriaeth. Bydd hwylusydd arbenigol yn ymweld â phob ysgol i gynnal sesiynau penodol i alluogi plant gael rhoi eu barn. Mae yna ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion yn ogystal â ffurflen ymateb addas. Golyga hyn bod modd i blant a phobl ifanc unigol sydd ddim yn rhan o'r sesiynau ymateb i'r ymgynghoriad hefyd.”</i></p> <p>Dosbarthwyd copi caled o'r ddogfen ymgynghori statudol i bob rhiant/gwarchodwr yn gysylltiedig â'r 10 ysgol.</p>
10.14	<p>Cynigiwr wedi cynnwys gwybodaeth yn y ddogfen ymgynghori statudol am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda dysgwyr. Fe wnaeth hyn gynnwys hyrwyddwyr arbenigol yn ymweld â'r ysgol i gynnal sesiynau i ddysgwyr rannu eu barn. Roedd holiaduron ar gael ar wefan y Cyngor hefyd.</p>	1	
11	Llywodraethu a Mynediad		
11.1	<p>Pryder bydd Friog ddim yn cael ei gynrychioli digon ar y corff llywodraethol cysgodol gan ystyried y problemau wrth geisio recriwtio llywodraethwyr heddiw.</p>	1	<p>Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol statudol, gallai'r corff llywodraethol cysgodol gynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o'r dalgylch, gan gynnwys ardal Friog.</p>
11.2	<p>Cyfansoddiad corff cysgodol/corff llywodraethol yr ysgol arfaethedig – Teimlir yn gryf dros sicrhau cynrychiolaeth o'r 9 ysgol gynradd bresennol ar y corff dan sylw, hyn yn ogystal â chynrychiolaeth gyfartal rhwng y cynradd a'r uwchradd.</p>	1	

11.3	Pryder am y diffyg wybodaeth parthed sut y bydd y Corff Llywodraethol ar draws yr ysgol newydd arfaethedig, cwricwlwm a'r gwahanol oedrannau yn gweithredu	1	Byddai'r corff llywodraethol yn rhedeg yn yr un modd â chyrrff llywodraethol yr ysgolion ar hyn o bryd, ond bydd ganddynt reolaeth ar nifer o safleoedd ac ar ystod oedran ehangach. Fel sydd yn digwydd gyda rheolaeth ysgolion uwchradd, bydd modd creu is-bwyllgorau llywodraethu i edrych ar feysydd penodol, pe bai dymuniad.
11.4	Sut mae dileu'r holl lywodraethwyr yr ysgolion, sydd yn aberthu oriau yn wirfoddol i gefnogi'r ysgolion, yn mynd i wella addysg yr ardal a chreu arbedion? Data a thystiolaeth plis? Yn enwedig yn ngoleuni'r digwyddiadau diweddar yn yr ysgol uwchradd ble mae Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi ymddiheuro'n gyhoeddus am beidio a gweithredu er fod yr ysgol mewn argyfwng. Yn y cynllun a gynigir mae un Corff Llywodraethol ar gyfer y dalgylch, a hynny y corff Llywodraethol yn yr Ysgol Uwchradd / Dymunwn fod y Corff Llywodraethol cysgodol yn ei le cyn gynted ag y bo modd a'n bod yn gwybod yn fuan wedi'r penderfyniad beth yw strwythur staffio fel bod yr ansicrwydd sydd wedi bodoli ers blynnyddoedd maith yn dod i ben. Mae'r holl oedi sydd wedi digwydd eisoes, yn ogystal â'r newid meddwl ac ail-edrych wedi creu drwgdeimlad yn yr ardal.	2	<p>Nid corff llywodraethol presennol yr ysgol uwchradd fydd yn rhedeg yr ysgol arfaethedig. Bydd corff llywodraethol cysgodol newydd yn cael ei greu. Bydd y corff llywodraethol cysgodol yn cael ei greu allan o aelodau presennol llywodraethwyr yr ysgolion. Yn unol â chanllawiau, os yw'r ysgol dros 600 o ddisgyblion bydd 19 llywodraethwr a byddai'r rhain yn gallu dod o holl ardaloedd y dalgylch.</p> <p>Mae proses benodol o ddewis aelodau i'r Corff Cygosodol yn cynnwys gwahoddiad i fynegi diddordeb drwy ffurflen gais i lywodraethwyr yr holl ysgolion presennol.</p> <p>Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir cychwyn y broses o sefydlu'r corff llywodraethol cysgodol mor fuan a phosib yn dilyn y penderfyniad terfynol.</p> <p>Gan bod y cynnig arfaethedig wedi ffafrio statws cymunedol ar yr ysgol ddalgylch ddilynol, ni fydd lle penodol ar y corff llywodraethol cysgodol i gynrychiolaeth yr Eglwys yng Nghymru</p>
11.5	Pwysleisiwn fod angen cynrychiolaeth o bob Corff Llywodraethol presennol ar y Corff Cysgodol / Hanfodol fod y Corff Llywodraethol a fydd yn cael ei ffurfio yn cynnwys cynrychiolaeth gytbwys o blith rhieni a chymunedau'r ardaloedd gwledig yn ogystal â'r dref ac yn cynnwys nifer arwyddocaol o aelodau sydd â dealltwriaeth gadarn o anghenion addysg yr unfed ganrif ar hugain, er mwyn sicrhau ei hygredded. Dylai proses dethol aelodau cymunedol y corff fod yn hollol dryloyw, a dylid ystyried gwahodd ceisiadau ar gyfer y cynrychiolwyr hyn fel y gwna amryw o gyrff llywodraethol mewn mannau eraill. Pe cynigir lle ar y Corff Llywodraethol i gynrychiolydd o blith aelodau'r Eglwys yng Nghymru fel rhan o unrhyw drafodaethau ynglŷn â symud ymlaen gyda chategori'r ysgol, a fydd lle yn cael ei gynnig hefyd i gynrychiolydd o blith cymuned anghydfurfiol y dalgylch? Nid yr Eglwys yng Nghymru yw unig gynrychiolwyr buddiannau Cristnogol cymunedau'r dalgylch hwn.	3	
11.6	Hoffai petai'r canllawiau cenedlaethol ynglŷn â sefydlu'r corff llywodraethu cysgodol wedi eu cynnwys yn y ddogfen.	1	Nid oedd yn bosib cynnwys yr holl wybodaeth ynglŷn â sefydlu corff llywodraethol cysgodol yn y ddogfen ymgynghori statudol. Mae'n bosib gweld rhagor o wybodaeth yn Etholiadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 (Rhif 2912 (Cy209) a Canllaw ar y Gyfraith i Lywodraethwyr Ysgolion (Pennod 20).

11.7	Ni wnaiff Adran 15:14, tudalen 62 gyfeirio at dderbyn myfyrwyr i Flwyddyn 7 o ysgolion y tu allan i'r dalgylch (39% o Ysgol y Gader yn bresennol), na pha drefniadau gellir eu rhoi ar waith i integreiddio'r disgyblion hynny.	1	Cydnabod nad oes cyfeiriad penodol i ddisgyblion blwyddyn 7 sy'n mynychu o tu allan dalgylch ysgol y Gader. Bydd angen i'r disgyblion yma wneud cais mynediad i'r Awdurdod yn unol â'r drefn bresennol.
11.8	Pe byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn a'i bod wedyn yn agor ym Medi 2017 a fydd y disgyblion oll o safleoedd Ieuan Gwynedd, Llanfachreth a'r Brithdir yn symud i safle Rhydymain ble bynnag fo eu cartrefi ? Ynteu a fydd yn rhaid i ddisgyblion all dalgylch yr ysgolion hynny fynd i'r safle sydd agosaf at eu cartrefi ? Trueni a chreulondeb fyddai rhwygo uned o blant sydd wedi arfer bod gyda'i gilydd mewn un ysgol. Er mwyn i safle Rhydymain fod yn gynaliadwy byddai angen i holl ddisgyblion fynychu gan mai yn y Brithdir y mae'r niferoedd / Sefyllfa'n poeni plant hefyd – cael mynd i'r ysgol lle fydd eu ffrindiau'n mynychu? Yw hyn yn deg?	2	Mae'r Cyngor wedi cynllunio digon o lefydd yn safle Rhydymain fel bod disgyblion presennol ysgolion Brithdir, Ieuan Gwynedd a Machreth yn gallu mynychu (disgyblion dalgylch ac all-ddalgylch presennol). Mae'r cynnig yn golygu lle digonol yn Llanelltyd i dderbyn disgyblion presennol ysgolion Ganllwyd, Clogau a Llanelltyd (disgyblion dalgylch ac all-ddalgylch presennol). Mae safleoedd Rhydymain a Llanelltyd yn cael eu datblygu i dderbyn tua 70 o ddisgyblion (3 dosbarth ar bob safle). Yn seiliedig ar ragamcanion niferoedd Medi 2017 rhagwelir 74 yn Llanelltyd a 67 yn Rhydymain. Bydd dewis rhieni'n gallu effeithio ar hyn a bydd angen i gorff llywodraethol cysgodol yr ysgol ddilynol (pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu) gydweithio'n agos gyda'r Sir i reoli mynediad safleoedd presennol.
11.9	Nid yw'r datblygu yn Ysgol Llanelltyd yn creu digon o gapasiti ar gyfer disgyblion Llanelltyd, Bont Ddu a Ganllwyd. Bydd yn gorfodi rhieni i anfon eu plant i'r ysgol dref. Allwch chi fynd â'r dewis hwn o ddwylo rhieni?	1	Bydd yna hefyd lefydd gweigion yn safleoedd cynradd Dolgellau, Friog a Dinas Mawddwy os bydd rhieni eisiau dewis amgen i'w plant.
11.10	Pryderir am y rhifau mynediad a nodir ar gyfer rhai o'r safleoedd. Ystyrir tybed a fydd y gwir nifer fydd angen mynediad i rai safleoedd ym Medi 2017 yn fwy na'r capasiti bwriadol ar gyfer y safleoedd dan sylw.	1	Rhagwelir bod lle digonol i blant y safleoedd sydd yn cau ar y safleoedd newydd heb i blant orfod gwahanu oddi wrth eu ffrindiau – mae hyn wrth gwrs yn ddarostyngedig i ddewis rhieni.
12	Proses Ymgynghori Statudol		
12.1	Pobl Friog yn ddiolchgar am y cyfle i cyflwyno sylwadau a rhoi eu syniadau	1	Mae'r Cyngor yn falch bod ymgynghorai lleol wedi cymryd y cyfle i gyflwyno sylwadau a chyfleu eu barn – derbyniwyd 82 ymateb i'r ymgynghoriad statudol a chroesawyd dros 100 o bobl i'r diwrnodau agored.
12.2	Dogfen ymgynghori'n un cynhwysfawr a manwl / Cydnabod gwaith manwl a thrylwyr wnaethpwyd gan swyddogion ar gyfer yr ymgynghoriad	2	Mae'r Cyngor yn falch bod y ddogfennaeth wedi cyfleu'r wybodaeth angenrheidiol fel bod modd i'r ymgynghoriad roi eu barn yn llawn ar y cynnig arfaethedig.
12.3	UCAC yn falch o gael y cyfle i ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori Statudol. Mae UCAC yn gwerthfawrogi dyhead yr Awdurdod i 'sicrhau darpariaeth addysg gref a chynaliadwy o fewn y dalgylch cyfan' - sylweddoli bod Cyngor Gwynedd yn wynebu her sylweddol 'wrth	1	Croesewir y sylwadau yma sydd yn amlygu rhai o'r rhwystrau sydd wedi bod yn nalgylch Y Gader wrth geisio llunio cynigion addas ar gyfer sicrhau addysg gynaliadwy i'r dyfodol. Wrth i'r trafodaethau ddatblygu, mae'r consensws yma wedi datblygu. Yn wir, o'r ymateb i'r ymgynghoriad, nid oes unrhyw un wedi nodi eu bod yn gwrthwynebu newid. Prin yw'r

	geisio cynllunio ar gyfer sicrhau'r ddarpariaeth orau' mewn ardal mor wledig â Dalgylch y Gader. Cydnabyddir hefyd bod ad-drefnu ysgolion yn fater cymhleth a bod amrywiaeth barn a theimladau cryfion o du disgyblion, rhieni, staff ysgol a'r cymunedau eu hunain. Da deall felly bod 'consensws wedi'i gyrraedd bod angen newid darpariaeth addysgol bresennol y dalgylch'.		ymateb yn erbyn y model arfaethedig. Elfennau'r cynnig hoffai rhai ymgynghorai newid e.e. safleoedd a ddewiswyd ayyb.
12.4	UCAC yn falch nad oedd 'rhagdybio unrhyw gynlluniau penodol' wedi digwydd a bod ystyriaeth wedi ei roi i sawl opsiwn; cytunwn nad yw 'gwneud dim' yn ddewis realistig. Ein haelodau yn lleol, fodd bynnag, yn rhwystredig iawn bod cymaint o oedi dod i benderfyniad terfynol ar gyfer y dalgylch hwn. Mae'n destun pryder bod cymaint o amser ac egni wedi'i wario ar wyntyllu cynigion, heb sôn am y miloedd sydd wedi'i wario'n ofer ar hyn. Cyfan wedi creu diffyg ymddiriedaeth yng ngallu'r Cyngor i sicrhau bod unrhyw ddeilliannau i'r ymgynghoriad yn mynd i fod yn sail i weithredu. Wedi creu teimlad o ddiplastydd a rhwystredigaeth wrth i ddyfodol ysgolion a swyddi barhau yn y fantol cyhyd.	1	Mae cryn waith ymchwil wedi'i gynnal cyn i'r model arfaethedig gael ei ddewis. Datblygwyd gwahanol fodelau ac yna gwerthuswyd y modelau hynny yn erbyn gwahanol ffactorau. Roedd y ffactorau yma yn cynnwys elfennau o strategaeth trefniadaeth ysgolion y sir, gweledigaeth dalgylch Y Gader, elfennau o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) a ffactorau perthnasol eraill. Roedd yn bwysig cynnwys manteision, anfanteision a risgiau'r cynnig arfaethedig yn y ddogfen ymgynghorol fel bod modd i'r ymgynghorai gael rhoi eu barn ar wybodaeth gyflawn a rhoi cyfle i unrhyw un holi am wybodaeth bellach. Mae'r broses statudol wedi'i dilyn wrth gynnal rhag-ymgynghoriad ac yna ymgynghoriad statudol. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan gynnwys sylwadau'r tabl yma fel atodiad fel bod modd i'r Cabinet ystyried y sylwadau cyn gwneud penderfyniad i barhau â'r cynnig ai peidio. Pe bai'r penderfyniad i barhau yn cael ei wneud bydd rhybudd statudol yn cael ei gyhoeddi a bydd cyfle i unrhyw un wrthwynebu'r cynnig. Bydd angen adrodd i'r Cabinet unwaith eto yn dilyn hyn i wneud y penderfyniad terfynol.
12.5	Cynigiwr wedi nodi'n glir ac yn deg beth yw'r manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol.	1	
12.6	Cynigiwr wedi nodi'n briodol beth yw'r manteision posibl i ddisgyblion sy'n gysylltiedig â nodau craidd Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn. Mae'r rhain yn cynnwys ethos ar y cyd a disgwyliadau tebyg, lleihau'r ansicrwydd rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd a rhannu arfer dda ar draws pob sector a safle. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad yn y cynnig at y modd y byddai unrhyw aflonyddwch i ddysgwyr yn lleihau pe bai'r cynigion yn mynd yn eu blaen.	1	
12.7	Siom o'r mwyaf ydi bod trefniadaeth ysgolion yn yr ardal hon wedi parhau cyhyd a'n bod ni yn dal i fynd drwy'r felin. Cwmwl du ers degawd bellach ac mae gweithio dan y fath bwysau wedi bod yn gwbl annheg i staff o ystyried yr addewidion a wnaed yn y gorffennol a'r torri gair a ddigwyddodd wedyn. Mae'r dalgylch hwn wedi cael ei drin yn warthus, hen bryd cael datrysiad teg.	1	Mae'r Cyngor hefyd yn siomedig nad oes cynnig wedi ei weithredu yn nalgylch Y Gader hyd yma. Natur ad-drefnu ysgolion, datblygu modelau a'r broses ymgynghori yw bod posib i gynlluniau gael eu haddasu a newid y ffordd ymlaen wrth i amser fynd yn ei flaen. Mae'r Cyngor yn ymwybodol ac yn deall rhwystredigaeth pobl yn nalgylch Y Gader. Yn ddibynnol ar benderfyniadau Cabinet, anelir i weithredu'r cynnig arfaethedig erbyn Medi 2017.
12.8	Rheolaeth gwael yn arwain at benderfyniadau gwael/ Dim gweithrediad effeithiol hyd yma/ Dim ymddiriedaeth ym mhrosesau'r gorffennol a chyfredol yn seiliedig ar brofiad	3	

12.9	Dangoswyd cynlluniau o ysgol newydd ym Mrithdir i rieni a phlant a darganfuwyd trwy'r <i>Cambrian News</i> fod y cynlluniau hyn wedi eu gollwng o ganlyniad i broblemau cynllunio / Pam dweud wrth blant Brithdir fod ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, ac yna, wythnosau yn ddiweddarach, cyhoeddi nad oes ysgol newydd / Mae Cyngor Gwynedd yn ddyledus i'r plant i gael pethau'n iawn y tro hwn.	2	Dangoswyd cynlluniau gan mai'r cynnig blaenorol (destun ymgynghoriad yn 2011) oedd i ddatblygu safle Ysgol Brithdir. Rhannwyd newyddlen yn Rhagfyr 2012 oedd yn nodi bod rhwystrau gyda'r cynllun gwreiddiol a bod amheuaeth am ei ddyfodol. Cyhoeddwyd newyddlen arall ym Mai 2013 yn datgan nad oedd yn bosib parhau gyda datblygiad safle Brithdir felly ni fyddai Ysgol Ardal Aml-Safle yn y Brithdir a Dinas Mawddwy yn cael ei weithredu. Mae'r cyngor yn gyrru copi e-bost o newyddlenni i aelodau PAD y Gader ac yn gyrru copïau caled i ysgolion i staff, llywodraethwyr a rhieni. Nid oedd unrhyw reswm i bobl gael gwybod trwy'r cyfryngau nad oedd y cynnig yn parhau.
12.10	Camgymeriad arddangos lluniau Ysgol OM Edwards ac Ysgol Penybryn lle gwnaed gwariant mawr. Twyllo rhieni dalgylch y Gader gan nad oes arian o'r fath ar gael i ni / Tachwedd 5 a 6 yng Nghanolfan Hamdden Glan Wnion arddangoswyd lluniau ysblennydd o ysgolion a godwyd neu y gwariwyd arnynt gan y Cyngor yn ddiweddar. Braidd yn ansensitif, yw defnyddio lluniau o'r fath i wneud i rieni a staff gredu y byddant hwythau yn derbyn adnoddau o'r fath. Nid oes cyllideb o'r fath yn bodoli bellach ac mae'r arian y bwriedir ei wario yma, yn sylweddol llai nag a dderbyniodd y safleoedd hynny. Twyllo pobl a rhoi camagraff yw hyn.	2	Heblaw am luniau sydd yn rhan o'r ddogfen ymgynghorol ac yn gysylltiedig â safleoedd arfaethedig yr ysgol ddilynol, yr unig luniau oedd yn y dyddiau agored oedd rhai oedd yn gysylltiedig ag Ysgol OM Edwards ac Ysgol Penybryn, Tywyn. Derbyniodd Ysgol OM Edwards fuddsoddiad o £1miliwn i'w huwchraddio. Bydd y datblygiad yma yn debyg iawn i'r hyn fydd yn cael ei wneud yn Llanelltyd (£1.02miliwn buddsoddiad) a dyna pam ystyrir eu bod o ddiddordeb yn y diwrnodiau agored. Derbyniodd Ysgol Penybryn, Tywyn fuddsoddiad o £1.47 miliwn i'w huwchraddio. Mae safle Cynradd Dolgellau yn derbyn buddsoddiad o £2.7miliwn a gall y gwelliannau ym Mhenybryn roi syniad o'r math o newidiadau fydd yn cael eu cynnig yno, dyna pam ystyrir eu bod o ddiddordeb yn y diwrnodiau agored.
12.11	Cais i gael gwybod cost i gynnal y 2 ddiwrnod ymgynghori yn Nolgellau ar 5-6 Tachwedd	1	Nid oes modd rhoi cost manwl ar gynnal y diwrnodau agored gan eu bod yn rhan o waith tîm y rhaglen ac wedi'i gynnal fel rhan o'r ymgynghoriad statudol. Petai'r Cyngor wedi cynnal 30 cyfarfod ar wahân (yn unol â'r hen drefn) byddai'r gost wedi bod yn sylweddol uwch. Roedd y Cyngor yn falch o groesawu dros 100 o bobl i'r diwrnodau agored.
12.12	Mae'r holl broses wedi ei threfnu'n sâl; achosi amheuaeth, celwyddau a dicter / Dim tryloywder drwy gydol y broses/ Siomedig gyda'r adborth	3	Cyngor yn cydnabod rhwystredigaeth ar lawr daear gan fod ymgynghoriad blaenorol heb ei wireddu. Dyma yw natur y broses ad-drefnu ysgolion, mae modd addasu ac ail-ymgyngori ar opsiynau gwahanol wrth ddatblygu'r cynnig. Dyma pam bod y Cyngor yn glir mai opsiwn a ffafrir yw'r cynnig ar hyn o bryd, nid yw'r penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto.
12.13	Proses ymgynghori cyntaf Hydref-Tachwedd 2011 i'r casgliad dyliid sefydlu Ysgol Gymuned Ardal Aml-Safle 3-11 oed ar safleoedd ysgolion Brithdir a Dinas Mawddwy oherwydd nifer o resymau / Ysgol Brithdir wedi ei brofi o'r blaen fel yr un sydd yn gwneud mwyaf o synnwyr. Opsiwn Brithdir cymeradwyodd y deilydd portffolio a'r Cynulliad, tydi'r rhesymau o blaid Ysgol y Brithdir yr adeg honno heb newid, ac mae'r tystiolaeth yna i brofi hyn.	2	Mae'n wir bod nifer o resymau o blaid datblygu safle'r Brithdir a phenderfynodd y cyngor ei gynnwys fel rhan o'r cynnig gwreiddiol. Yn anffodus, darganfuwyd cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynnydd sylweddol yng nghost datblygu'r safle a phenderfynwyd peidio â pharhau â'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle yn y Brithdir a Dinas Mawddwy.
12.14	Gwybodaeth Gamarweiniol, Diffyg Bwriad a Gwrthddweud Difrifol:	3	Mae'r hyn a nodwyd mewn e-byst yn ymateb i'r ymholiadau, yn ogystal â'r hyn nodwyd ar


<p>Mae rhieni Ysgol Brithdir wedi cael gwybod gan swyddogion yn y noson agored 6^{ed} Tachwedd 2014 NAD y graig a'r gost yw'r brif broblem ond methu cael caniatâd cynllunio. Teimlwn y cawsom ein camarwain yn sylweddol o ran beth oedd y brif broblem gyda datblygu'r cae gerllaw'r ysgol ac y gallen ni fod wedi gofyn am fwy o wybodaeth am y broblem gynllunio a gwthio'r mater yn llawer cynt. Roeddem i gyd yn meddwl mai'r graig a chost cloddio'r graig oedd y brif broblem - dyma a ddywed Cyngor Gwynedd ar ei wefan yn yr Archif: <i>'Yn y cyfamser, gwnaethpwyd cryn waith cefndirol er mwyn datblygu'r cynllun, gan roi sylw manwl i ddaearog y safle a materion cynllunio. Yn anffodus, darganfuwyd cyfyngiadau a phroblemau sylweddol a olygai gynydd sylweddol yng nghost datblygu'r safle a phenderfynwyd peidio parhau â'r cynnig i sefydlu Ysgol Ardal Aml-safle yn y Brithdir a Dinas Mawddwy.'</i></p> <p>E-bost gan Adran Eiddo ar 5ed Tachwedd 2014 yn dweud yn gwbl groes i hyn: <i>'Yn gyntaf oll dylwn bwysleisio un mater. Nid presenoldeb y graig yw'r unig reswm nac yn wir y prif reswm dros benderfyniad y Cabinet i ddirwyn y broses ddiwethaf i ben. [ac mae'n mynd ymlaen i esbonio] Y risg sylweddol o fethu cael caniatâd cynllunio doed a ddel. Yn ystod y cyfnod dylunio aeth barn y swyddogion cynllunio yn llawer mwy negyddol nag yr oedd adeg yr ymgynghori ac roeddent yn mynd yn fwy pryderus wrth i amser fynd heibio. Roeddem wedi cyrraedd pwynt lle'r oedd y siawns o fod yn llwyddiannus yn fychan os nad amhosib. Dyma'r prif reswm felly, mater na all arian ei oresgyn wrth gwrs' Adran Eiddo hefyd yn dweud yn yr e-bost bod modd goresgyn problem y graig a'r gost, ond nid y broblem gynllunio.</i></p>		<p>lafar yn ystod y diwrnodau agored. Mae'r e-bost yn nodi "<u>Nid presenoldeb y graig yw'r unig reswm</u>".</p> <p>Mae newyddlen Mai 2013 yn nodi... <i>"gwnaethpwyd gwaith manwl ar safle Ysgol Brithdir a daethpwyd ar draws problemau a rhwystrau sylweddol o safbwynt materion cynllunio a chostau.</i></p> <p>Sut a pham fod hyn wedi digwydd?</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Ers cyfnod yr ymgynghori ac wrth ddatblygu'r dyluniadau, daeth yn amlwg y byddai'n anodd iawn derbyn caniatâd cynllunio.</i> • <i>Nodwyd byddai'n rhaid gostwng lefel y tir yn sylweddol ar gyfer adeiladu a hynny mewn ardal ble mae craig, a byddai cost sylweddol ynghlwm a hyn.</i> • <i>Yn ystod yr un cyfnod daeth yn amlwg fod gofynion technegol y Llywodraeth wedi newid ac y byddai angen mwy o ofod yn yr estyniad.</i> • <i>Canlyniad hyn ydyw fod yr hyn a ystyrir bellach yn wahanol i'r hyn dybiwyd adeg yr ymgynghori, a chynnydd yn y gost a risg sylweddol na fyddai caniatâd cynllunio yn cael ei roi.</i> • <i>Y pryder ydyw y byddai'r arian ychwanegol yn cael ei wario er mwyn goresgyn problemau peirianyddol y safle yn hytrach nag ar adnoddau addysg i ddisgyblion yr ardal.</i> <p><i>Yn sgil hyn daethpwyd i gasgliad na fydd y cynnig gwreiddiol yn cael ei weithredu a bydd rhaid datblygu cynllun arall."</i></p> <p>Mae rhai ymholiadau wedi eu derbyn yn dilyn y newyddlen ac ymatebwyd yn gyson gyda'r un wybodaeth gan ymhelaethu ar bwyntiau penodol a graffwyd.</p>
<p>12.15 Rydym eisoes wedi cyflwyno'r cwestiynau hyn ond nid ydym wedi derbyn ymatebion adeiladol 'constructive' sydd yn ein galluogi i gael dealltwriaeth cywir o'r cynnig. Diffyg data sy'n cefnogi a phrofi fod y cynnig yn gallu darparu gwelliant i'r plant yn y dalgylch.</p>	1	<p>Mae'r Swyddfa Trefniadaeth Ysgolion yn ymateb i bob ymholiad yn unol â pholisï'r Cyngor. Mae pob un sylw a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Mae gwybodaeth lawn am y cynnig ar gael yn y Ddogfen Ymgynghori Statudol.</p>
<p>12.16 Pam nad ydy'r Cyngor wedi gofyn i rheini pa safle y byddent eisiau datblygu a mynd hefo dewis y mwyafrif?</p>	1	<p>Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor wneud hyn. Byddai'r wybodaeth a gynhwysir o arferiad o'r math yn rhoi 'snapshot' o wybodaeth, gall dewis rhieni newid o un flwyddyn i'r llall, felly ni welir mantais sylweddol o wneud hyn.</p>
<p>12.17 Proses penderfynu sydd yn gadael i'r Cyngor a'r unigolion wneud y</p>	3	<p>Mae ad-drefnu addysg o fewn dalgylch y Gader wedi cychwyn ers peth amser. Yn sgil yr</p>

	<p>penderfyniadau yn amheus iawn - gwybodaeth sy'n cael ei rannu yn anghyflawn a peth ohono yn ffug. Enghraifft glasurol arall o wiriondeb y Cyngor/ Cytuno bod rhaid gwneud rhywfaint o newidiadau, ddim yn credu bod y Cyngor a thrigolion eraill sydd yn ystyried y newid yn rhoi'r wybodaeth gyflawn a chywir a bod peth o'r wybodaeth a gyflwynir yn amlwg yn gelwydd. Pryder yw 'incompetency' y Cyngor a'r unigolion sydd yn gwneud y penderfyniad ar ein rhan / Pwy sydd yn lleisio barn a phryderon Brithdir yn y cyfarfodydd a'r Cabinet? Oherwydd sefyllfa ein cyngorwyr, nid oes gennym llais, boed i gefnogi neu wrthwynebu – lle mae'r tegwch yma?</p>		<p>holl drafodaethau, mae gweledigaeth ar gyfer y dalgylch wedi dod i'r amlwg. Mae'r weledigaeth yn nodi beth mae'r Cyngor yn anelu i'w gyflawni yn yr ardal.</p> <p>Mae arolygiad o'r cynlluniau ar gyfer y dalgylch wedi'i gynnal a chynhaliwyd cyfarfod o gynrychiolwyr lleol – aelodau etholedig lleol, penaethiaid, cadeiryddion llywodraethwyr a chynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru – ar 9 Mai 2013 i egluro'r oedi ac i drafod y ffordd orau ymlaen.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi gwneud pob ymdrech i wella a chynnal ansawdd addysg yn y dalgylch. Mae'r Cyngor yn gallu deall rhwystredigaeth am yr oedi cyn symud ymlaen gyda'r cynllun.</p> <p>Mae pob sylw a gyflwynwyd yn ystod cyfnod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.</p>
12.18	<p>Siomedig gyda diffyg ymateb y Cyngor i gwestiynau pobl a rhieni y Brithdir ac hefyd yn siomedig na ddaeth cynrychiolydd o'r Swyddfa Drefniadaeth i siarad gyda llywodraethwyr.</p> <p>Ni chafwyd unrhyw gyfle i drafod wyneb yn wyneb gyda neb o'r swyddfa trefniadaeth ond eto aethoch o gwmpas i drafod gyda'r disgyblion – syniad doeth?</p>	2	<p>Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad ar gynigion trefniadaeth ysgolion cyn eu cyhoeddi. Penderfynwyd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o ddeuddydd mewn man canolog a chyfleus i bawb gan sicrhau bod swyddogion perthnasol e.e. cludiant, mynediad ac ati ar gael i ateb cwestiynau yno. Roedd cyfle i aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys staff, llywodraethwyr a rhieni'r ysgolion fynychu'r diwrnodau agored i drafod gydag unrhyw swyddog.</p> <p>Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (006/2013) mae'n hanfodol, fel rhan o unrhyw ymgynghoriad statudol, i ymgynghori gyda phlant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion sy'n destun yr ymgynghoriad, gan egluro unrhyw newidiadau posibl iddynt a chael eu hymateb. Penderfynwyd mai'r drefn orau er mwyn ymgynghori â hwy fyddai trefnu bod Hwylusydd Arbenigol yn ymweld â'u hysgol ac yn treulio amser gyda'r disgyblion.</p> <p>Nodwyd yn rhan 1 y ddogfen ymgynghorol statudol: “Bydd trefniadau hefyd yn cael eu gwneud i dderbyn barn plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ysgolion dan ystyriaeth. Bydd hwylusydd arbenigol yn ymweld â phob ysgol i gynnal sesiynau penodol i alluogi plant gael rhoi eu barn. Mae yna ddogfen ymgynghori i blant a phobl ifanc ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk/trefniadaethysgolion yn ogystal â ffurflen ymateb addas. Golyga hyn bod modd i blant a phobl ifanc unigol sydd ddim yn rhan o'r sesiynau ymateb i'r ymgynghoriad hefyd.”</p> <p>Dosbarthwyd copi caled o'r ddogfen ymgynghori statudol i bob rhiant/gwarchodwr yn gysylltiedig â'r 10 ysgol.</p>

12.19	Roedd Seren Fach yn bater pwysig yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf, pam bellach bod o ddim yn ystyriaeth?	1	Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod Seren Fach yn feithrinfa breifat sydd wedi'i lleoli yn y Brithdir, ond mae nifer o resymau wrth benderfynu ar ddewis safle.
12.20	Cyngor wedi bod yn derbyn adroddiadau oddi wrth ein Cynghorwyr Gwynedd Lleol ar y gwaith yma felly nad oedd y cynnwys yn gyfan gwbl newydd i'r Cyngor Tref	1	Wrth reswm, mae gwybodaeth wedi cael ei chyflwyno i aelodau lleol ac Aelodau Cabinet wrth i'r broses fynd rhagddi. Mae'n amlwg fod yr aelodau hynny wedi bod yn cyfathrebu yn effeithiol ac wedi rhaedru gwybodaeth berthnasol ac amserol i chi yng Nghyngor Tref Dolgellau. Mawr hyderir y bydd y dull gweithio hyn yn parhau i'r dyfodol.
13	Opsiynau Amgen, Ystadegau a Cyllid		
13.1	Ffaffio opsiwn 3 sydd yn cadw Ysgol Clogau ac yn rhoi arbedion o £253,000	1	Mae opsiwn 3 yn golygu elfen gref o gydweithio anffurfiol, fe fyddai darpariaeth addysg ar gael o fewn pellter teithio rhesymol ac fe fyddai maint dosbarthiadau yn gwella o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw drefniadau cydweithio ffurfiol, dim ond rhwydwaith anffurfiol ac nid oes sicrwydd y bydd hynny yn digwydd yn effeithiol. Ni fydd unrhyw fuddsoddi er mwyn uwchraddio safleoedd ac fe fydd y safleoedd yn parhau fel ag y maent. Yn ogystal, ni fyddai hyn yn lleddfu'r problemau o ran staffio gan y byddai'r angen am 7 corff llywodraethu a 7 pennaeth yn parhau.
13.2	Llywodraethwyr wedi creu tudalen 'Facebook' gyda'r cyflwyniad a gyflwynwyd i CG flynyddoedd yn ôl – mae'r egwyddorion yn parhau yr un fath sef gweledigaeth addysg glir yn arbennig ar gyfer yr ardal. Yn gryno, dylid (i) rhannu cyfleusterau rhagorol, (ii) Cadw beth sy'n rhagorol yn ein ysgolion bach (iii) Gweithredu cynnig sy'n ystyried ein ardal gwledig unigryw yng Nghymru.	1	Fel y gwelir yn y Ddogfen Ymgynghorol, rydych yn cyfeirio at Opsiwn 3 sef creu rhwydwaith cydweithio rhwng ysgolion Clogau, Friog, Ganllwyd, Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy, Cynradd Dolgellau a'r Gader. Mae'r gwerthusiad opsiynau yn yr un ddogfen yn nodi bod yna nifer o resymau dros beidio â dewis Opsiwn 3 e.e. cydweithio anffurfiol ddim yn effeithiol, dim buddsoddiad refeniw yn digwydd yn yr ardal er mwyn gwella adnoddau ar y safleoedd, problemau wrth recriwtio penaethiaid a chorff llywodraethol i bob ysgol (tudalen 27-32 yn y ddogfen ymgynghorol).
13.3	Symud Bl6 i YYG neu y rhai a'r gallu i symud ymlaen. Bod yn hyblyg gyda hyn efallai?	1	Ystyriwyd nifer fawr o wahanol opsiynau yn ystod trafodaethau cychwynol, gan gynnwys lleoli holl disgyblion cynradd y dalgylch ar un safle (un ysgol gynradd fawr) neu lleoli rhai o disgyblion oed cynradd y dalgylch ar safle'r ysgol uwchradd. Penderfynir nad oedd yr opsiynau yma'n ymarferol. Fel rhan o'r cynnig arfaethedig, gall bod achosion lle bydd rhai o disgyblion cynradd (gan gynnwys blwyddyn 6) yn ymweld a'r safle uwchradd. Mae yna nifer fawr o opsiynau i'w gwyntyllu a'u trafod a mater i'r Corff Llywodraethol ei drafod ar y cyd â'r Pennaeth newydd.
13.4	Mae'r cynigiwr, yn adran 4 y ddogfen ymgynghori statudol, yn cynnwys manylion nifer o fodolau sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor. Ddogfen yn amlinellu'n glir fanteision ac anfanteision y modelau. Mae'r ddogfen ymgynghori statudol yn cynnwys manylion am y 'gwerthusiad llawn o'r opsiynau' a gynhaliwyd gan y cynigiwr.	1	Mewn unrhyw drefn fel hon, mae'n allweddol ystyried pob opsiwn yn fanwl a phwyso a mesur manteision ac anfanteision unrhyw fodel a dyna a geir yn y Gwerthusiad Llawn o'r Opsiynau.

13.5	Defnyddio Brithdir fel safle – nid oedd Brithdir yn parhau mewn unrhyw un o'r 8 opsiwn, heblaw gwneud dim	1	Oherwydd bod safle'r Brithdir wedi cael ei ymchwilio yn helaeth yn flaenorol a bod penderfyniad wedi'i wneud i ddirwyn y broses honno i ben am nifer o resymau, roedd angen edrych o'r newydd ar y sefyllfa yn nalgylch y Gader ac ystyried opsiynau newydd. Dyna a wnaed wrth lunio'r rhestr hir ac yna'r rhestr fer o opsiynau.
13.6	Adran 5:3, tud. 37 dogfen Saesneg – ystadegau anghywir.	1	Nid yw'r ystadegau'n anghywir ond derbyn dylai llinell olaf y tabl ddarllen 'nifer disgyblion sy'n mynychu ysgolion yn y dalgylch' yn hytrach na 'cyfanswm y dalgylch' sydd yn rhoi'r argraff mai disgyblion sy'n byw yn nalgylch Y Gader sydd dan sylw.
13.7	Teimlwn yn gryf nad yw'r ysgol hon wedi cael ei thrin yn deg a bod y cynnig sydd gerbron gyda'r cyllid annigonol yn debygol o greu rhwystrau enbyd. Gan ystyried hyd y broses yn yr ardal hon, teimlwn fod angen dangos parch a chydabyddiaeth erbyn hyn, drwy fuddsoddi yn gadarn ar gyfer y dyfodol. Er mwyn i gynllun o'r math yma lwyddo, dylid sicrhau adnoddau teg a chyfartal i bob disgybl (nid dim ond rhai) a dylid osgoi cynllunio ar gyfer sefyllfa lle byddai'n her aruthrol i reolwyr yr ysgol newydd drefnu ar gyfer sicrhau ansawdd a chysondeb ar draws y dalgylch cyfan. Mae'n hanfodol fod y dewis o addysg wledig yn greiddiol yn y dalgylch	1	Mae'r Cyngor yn ymwybodol ac yn deall rhwystredigaeth pobl yn nalgylch Y Gader gan ystyried nad oes cynnig wedi ei weithredu hyd yma a bod trafodaethau'n parhau. Natur ad-drefnu ysgolion, datblygu modelau a'r broses ymgynghori yw bod posib i gynlluniau gael eu haddasu a newid y ffordd ymlaen wrth i amser fynd yn ei flaen. Yn ddibynol ar benderfyniadau Cabinet, anelir i weithredu'r cynnig arfaethedig erbyn Medi 2017. Gan ystyried yr hinsawdd economaidd mae buddsoddiad ariannol sylweddol yn cael ei wneud i ddatblygu safleoedd y dalgylch. Nid yw'n bosib uwchraddio holl safleoedd i fod yr un peth. Wrth buddsoddi £4.34miliwn o arian cyfalaf i uwchraddio safleoedd mae'r Cyngor yn ymrwmo i sicrhau ansawdd amgylchedd ddysgu o'r radd flaenaf. Yn ogystal â'r gwaith yma mae safleoedd Friog, Gader a Dinas Mawddwy yn derbyn gwariant ôl-groniad cynnal a chadw i'w gwella. Mae cyfanswm y gwariant ôl-ddefnydd cynnal a chadw yn £491,000. Golyga hyn bod y cyngor yn ymrwmo i fuddsoddi £4,831,000 erbyn Medi 2017 i sicrhau yr ansawdd dysgu gorau posib pe bai'r Ysgol Ddilynol Ddalgylchol yn cael ei sefydlu. Nid gwariant bach sydd yn digwydd, mae buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud yn y dalgylch. Bydd safleoedd Cynradd Dolgellau, Llanelltyd a Rhydymain yn derbyn buddsoddiad i'w uwchraddio fel bod plant yr ardal yn derbyn eu haddysg mewn sefydliad addysgol addas i'r 21ain ganrif. Bydd anghenion ôl-groniad cynnal a chadw safleoedd ysgolion Friog, Dinas Mawddwy ac Y Gader hefyd yn cael ei gwblhau.
13.8	Ymgynghoriad gwreiddiol yn 2011 o blaid safle Brithdir, un rheswm yw mai Ysgol y Brithdir yw'r unig ysgol yn y dalgylch sydd heb lefydd gweigion – mae cynnydd o 114% wedi bod yn nifer y disgyblion rhwng 1975 – 2011. Mae'r ysgol yn orlawn. I'r gwrthwyneb, gan Ysgol Ieuan Gwynedd y mae'r ail nifer fwyaf o lefydd gweigion yn y dalgylch – mae'n 60% erbyn heddiw (capasiti'r ysgol 45, 15 ar y gofrestr yn 2013, a dim ond chwech yn 3-7 oed) gyda rhagolygon y bydd yn 71% erbyn 2017.	4	
13.9	Disgyblion yn mynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylch: Un o bryderon y Cyngor yw bod 29% (cyfartalog, Mai 2011) o blant oed ysgol yn mynd i ysgolion y tu allan i'r dalgylch lle maent yn byw (e.e. Ysgol Brithdir (26) 40%; Ysgol Ieuan Gwynedd (7) 37%, 2012/13). O ystyried bod llawer mwy o blant (84%) yn byw yn nes at yr ysgol yn y Brithdir nag at yr ysgol yn Rhydymain, sut fydd cau Ysgol Brithdir a symud ei phlant i Ysgol IG yn llawer pellach o'u dalgylch naturiol yn datrys y broblem hon a sut felly y gall y Cyngor sicrhau bod yr ysgol yn Rhydymain yn gynaliadwy i'r dyfodol?	4	Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod ymgynghoriad 2011 wedi cynnwys safle Brithdir fel rhan o'r cynnig. Yn anffodus, nid yw datblygu safle Ysgol Brithdir yn opsiwn posib bellach. Roedd niferoedd disgyblion a llefydd gweigion yn rhai o'r ffactorau ystyriwyd fel rhan o'r gwerthusiad opsiynau y tro yma a mae'r Cyngor yn ymwybodol o niferoedd Ysgol Ieuan Gwynedd ar hyn o bryd.

<p>13.10 Nifer yr ysgolion yn y model gyda llefydd gweigion: Mae'n bosibl iawn y bydd nifer y plant, er gwaetha'r ad-drefnu, yn parhau i ostwng yn Ysgol IG, bydd o leiaf 3 allan o'r 4 ysgol gynradd wledig (Ysgolion IG, Dinas Mawddwy a Friog) wedyn gyda llefydd gweigion. Gyda model mor gyfyng, sut y gall y Cyngor ddisgwyl iddo lwyddo ar sail hyn a sut y bydd yn egluro hyn i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau?/ Sut all y Cyngor ddisgwyl i rieni gael ffydd yn y model hwn ac Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain (Ysgol IG) yn cychwyn o sylfaen mor sigledig o ran niferoedd ac o ystyried bod dwy o'r ysgolion eraill yn y model newydd (Ysgol Dinas Mawddwy ac Ysgol Friog) hefyd gyda llefydd gweigion sylweddol a rhagolygon ansicr o ran niferoedd i'r dyfodol?/Sut y mae dewis ysgol sydd eisoes yn mynd â'i phen iddi gyda 18 o blant a hynny yn lle ysgol sy'n ffynnu (Brithdir – 45 o blant) ac yn argoeli'n ardderchog ar gyfer y dyfodol, yn ateb hyfyw? A sut y gall dewis ysgol fydd yn sicr o fod â mwy o lefydd gweigion yn y dyfodol, fod yn hyfyw o ran cost y ddarpariaeth?/ Mae'r Cyngor yn rhagweld (Pecyn Cefndirol 16/09/14) y bydd 127 yn llai o blant yn y dalgylch yn gyffredinol erbyn Medi 2016 – cyfanswm presennol 764 – rhagamcan 637 – gostyngiad pellach o tua 17%. Nid oes gan Ysgol Brithdir unrhyw lefydd gweigion (0%) ac mae cynnydd o 114% wedi bod yn nifer y disgyblion rhwng 1975 a 2011. Gan Ysgol IG y mae'r ail nifer fwyaf o lefydd gweigion yn y dalgylch – mae'n 60% erbyn heddiw (capasiti'r ysgol 45, 18 ar y gofrestr yn 2013, a dim ond chwech yn 3-7 oed) gyda rhagolygon y bydd yn 71% erbyn 2017. Yng ngoleuni hyn ac ofn na all y Cyngor ddenu plant o'r tu allan i'r dalgylch yn y dyfodol oherwydd pellter, sut all y Cyngor sicrhau bod Ysgol IG yn gynaliadwy i'r dyfodol?</p>	<p>3</p>	<p>Yn ystod trafodaethau ad-drefnu ysgolion mae'r dalgylch wedi bod yn glir o'r awydd i barhau ag addysg wledig. Yn sgil hyn mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw addysg wledig yn opsiwn ac yn gwneud hyn wrth gynnwys safle Rhydymain yn rhan o'r model a ffafirir. Golyga hyn bod opsiwn addysg wledig i ardal Dwyrain y dalgylch. Bydd cynladwyedd safle Rhydymain yn fwy hyfyw yn dilyn y buddsoddiad i'w ymestyn. Os oes dyhead yn lleol i gadw addysg wledig, y gobaith yw y bydd rhieni yn cefnogi safle addysgol Rhydymain. Drwy ddod â phlant yr ardaloedd lleol (Machreth, Brithdir a Rhydymain) at ei gilydd mewn un safle, y gobaith yw bydd yr ysgol yn un ffyniannus. Os yw rhieni'r dref yn parhau i ddewis addysg wledig i'w plant, serch y pellter, bydd hyn yn cyfrannu ymhellach tuag at gynladwyedd y safle</p> <p>Gan bod y Cyngor wedi ymrwymo i gadw addysg wledig ac eisiau cyfyngu amseroedd teithio i gydfynd a polisi Sirol a Cenedlaethol mae ystyriaeth llawn wedi ei wneud yn gysylltiedig a pa safleoedd fydd yn cael eu cynnig fel rhan o'r ysgol ddilynol dalgylchol.</p> <p>O ran pellteroedd i safleoedd, bydd cludiant di-dal yn cael ei ddarparu yn unol a'r pholisi cludiant i alluogi disgyblion cyrraedd safle Rhydymain. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghorol statudol, bydd angen addasu'r polisi cludiant ychydig i gydnabod elfen aml-safle yr ysgol arfaethedig, felly bydd angen iddo ddarllen bod y Sir yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o dan yr amgylchiadau canlynol: <i>"Disgyblion Oed Cynradd - i ddisgyblion sy'n byw 2 filltir neu fwy o <u>safle'r ysgol</u> yn eu dalgylch, neu'r <u>safle'r ysgol agosaf</u>.</i> <i>Disgyblion Oed Uwchradd - ar gyfer disgyblion o dan 16 oed sy'n byw 3 milltir neu fwy o <u>safle'r ysgol</u> yn eu dalgylch neu <u>safle'r ysgol agosaf</u>."</i></p> <p>Yn ogystal â hyn, mae wedi dod yn amlwg bod rhai disgyblion sydd yn byw yn nalgylch presennol Ysgol Brithdir yn byw yn nes i safle Cynradd Dolgellau o gymharu â safle Rhydymain. Gan fod y Cyngor yn cynllunio llefydd i holl ddisgyblion ysgolion Brithdir, Machreth a Ieuan Gwynedd yn safle Rhydymain, argymhellir cyfeiriad penodol at hen ddalgylchoedd yr ysgolion fel bod disgyblion y dalgylchoedd hynny'n cael cludiant am ddim i Rydymain (os ydynt yn byw dros 2 filltir o'r safle). Y dalgylch dan sylw byddai'r map ar y dde:</p>
---	----------	--

			
13.11	<p>Ydy £255,000 y flwyddyn yn arbedion sylweddol? O ystyried y bwriedir gwario £4.34 (heb ystyried costau cynnal a chadw) a bod yr arbedion disgwylidig o gwmpas £255,000 y flwyddyn, byddai'n cymryd 17 o flynyddoedd i adennill y buddsoddiad ar sail model sy'n anghynladwy a chibddall ym marn llawer. Ydy hyn yn ddefnydd doeth o arian cyhoeddus yn yr hinsawdd ariannol bresennol?</p>	3	<p>Mae'r Cyngor o'r farn bod yr arbedion disgwylidig o £255,625 yn sylweddol. Mae buddsoddiad cyfalaf (gwariant unwaith ac am byth) o £2.54miliwn yn cael ei wneud gan y Cyngor a £1.8miliwn gan Llywodraeth Cymru i uwchraddio safleoedd ysgolion y dalgylch a sicrhau trefn a model gynaliadwy i'r dyfodol. Mae ffactorau cyllidol yn un o'r ffactorau ystyrir wrth gymharu modelau yn ogystal a cyflwr ac addasrwydd adeiladau addysgol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'r buddsoddiad i sicrhau bod y safleoedd addysgol yn addas i bwrpas i'r dyfodol.</p> <p>Yn yr hinsawdd ariannol ddigynsail cyfredol, gyda phosibilrwydd na fydd amddiffyniad i'r gyllideb ysgolion yn y blynyddoedd nesaf, bydd sicrhau arbediad £255,625 yma yn helpu i isafu unrhyw doriadau cyllidebol yn ysgolion Gwynedd.</p>
13.12	<p>Gwarchodaeth staffio: Un o bryderon mwyaf y Cyngor yw'r costau Gwarchodaeth Staffio. Yn ôl ystadegau'r Cyngor (Pecyn Cefndirol i'r Cabinet 16/09/14), mae 6 allan o'r 9 ysgol gynradd yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio (bron i £200k yn 2013/14) i sicrhau lleiafswm staffio hyd yn oed mewn ysgolion bach. Mae gwarchodaeth staffio Brithdir yn £6,109, mae gwarchodaeth staffio Dinas Mawddwy, Ysgol Machreth ac Ysgol Ieuan Gwynedd yn £105, 507. Mae gwarchodaeth Ysgol Ieuan Gwynedd Rhydymain yn £39,908. O dan y model newydd, tybiwn y bydd o leiaf 2 allan o'r 5 ysgol gynradd yn parhau i dderbyn gwarchodaeth sylweddol. Ble mae'r arbedion parhaol yn hyn?/ Nid yw Brithdir yn derbyn gwarchodaeth staffio a mae cost y pen yn isel i gymharu a Rhydymain</p>	5	<p>Mae cyfrifiad yr arbediad £255,625 ar ôl ystyried cyllido holl safleoedd yr Ysgol Ddilynol yn llawn, i sicrhau darpariaeth addysg ar draws y dalgylch.</p> <p>Mae dyraniad Ysgol Ieuan Gwynedd cyfateb i £10,616 y disgybl. Mae hyn yn cynnwys gwarchodaeth lleiafswm staffio gwerth £45,201 a dyraniad o £29,750 ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol).</p> <p>Wrth sefydlu fformiwla dyrannu Ysgol Ddilynol byddwn yn ystyried yr angen i ddarparu dyraniad aml safle, i sicrhau darpariaeth addysg ar draws y dalgylch.</p>
13.13	<p>Sarhad a siom o'r mwyaf i Ysgol Brithdir ar ochr ddwyreiniol y dalgylch yw bod y Cyngor yn bwriadu cau ein hysgol ni sydd â chost y pen sylweddol llai na gweddill ysgolion gwledig y dalgylch a sydd heb rwyd ddiogelu</p>	1	<p>Mae'n wir bod gan Ysgol Brithdir y cost y pen isaf am yr ysgolion wledig ac ddim yn derbyn gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae cost y pen a'r gwarchodaeth staffio yn rhai o'r ystyriaethau cyllidol, a mae materion cyllidol yn un o nifer o ffactorau a ystyrir wrth gymharu modelau. Nid yw'r opsiwn a ffafrir yn cael ei ddewis yn seiliedig ar materion</p>

			cyllidol yn unig.
13.14	Faint mae'r broses Ad-drefnu Ysgolion wedi costio dros mwy na degawd? Pa 'arbedion' fydd yn cael eu gwneud o ystyried hyn?	1	<p>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gyllido'r broses trefniadaeth ysgolion fel bo modd sicrhau gyfundrefn addysgol gynaliadwy i'r dyfodol yn unol ag amcanion y strategaeth ad-drefnu. Mae'n wir na fydd holl arbedion cynllunio ar gael yn syth gan bydd angen talu costau unwaith ac am byth gwireddu'r cynllun.</p> <p>Gan ystyried yr hinsawdd economaidd, mae'r arbedion sydd yn cael ei greu yn golygu bod y toriadau bydd yn effeithio gweddill ysgolion y Sir yn is i gymharu a'r toriadau byddai'n cael ei wneud pe bai ad-drefnu ysgolion heb ddisgwydd o gwbl.</p>
13.15	Bron yn sicr bydd nifer plant, er gwaetha'r ad-drefnu, yn parhau i ostwng yn Ysgol Ieuan Gwynedd, ac y bydd o leiaf 3 allan o'r 4 ysgol gynradd wledig (Ysgolion Ieuan Gwynedd, Dinas Mawddwy a Friog) wedyn gyda llefydd gweigion. Gyda model mor gyfyng a gwasgarog, sut gall y Cyngor ddisgwyl iddo lwyddo ar sail hyn a sut y bydd yn egluro hyn i Lywodraeth Cymru a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau maes o law? / Os bydd ei niferoedd yn parhau i ostwng ar ôl ad-drefnu, a fydd y Cyngor yna'n cau Ysgol IG ac yn cyfyngu'r dewis i rieni'n fwy fyth? / Os bydd Ysgol Ieuan Gwynedd yn methu, bydd y model newydd yn chwalo a phwy fydd yn atebol?	2	<p>Nid yw'r symudiadau all-dalgylch yn pryderu'r Cyngor ond mae'n un ffactor pwysig sydd angen cadw mewn cof wrth gynllunio llefydd addysgol yn y dalgylch i'r dyfodol. Yn ystod trafodaethau ad-drefnu ysgolion, mae nifer o bobol wedi cyfleu'r angen i barhau y ddarpariaeth addysg wledig a dyma mae'r Cyngor yn geisio ei wneud wrth parhau a 4 safle cynradd wledig.</p> <p>Mae digon o lefydd yn cael ei gynllunio yn Llanelltyd ar gyfer disgyblion presennol ysgolion Ganllwyd, Clogau a Llanelltyd a digon o lefydd yn cael ei gynllunio yn Rhydymain ar gyfer disgyblion presennol ysgolion Machreth, Brithdir a Ieuan Gwynedd. O ran niferoedd yn safle Rhydymain, bydd disgyblion cynradd sydd yn byw yn dalgylchoedd presennol ysgolion Machreth, Brithdir a Ieuan Gwynedd a dros 2 milltir o safle Rhydymain yn derbyn cludiant di-dal. O edrych ar niferoedd Medi 2013 roedd 48 o disgyblion yn byw yn y dalgylchoedd yma. Golyga hyn gall bod 48 o ddisgyblion yn y safle heb ystyried y rhai all-dalgylch sydd yn mynychu'r safleoedd ar hyn o bryd.</p>
13.16	Un o bryderon y Cyngor yw bod 29% (cyfartalog, Mai 2011) o blant oed ysgol yn mynd i ysgolion y tu allan i'r dalgylch lle maent yn byw (e.e. Ysgol Brithdir (26) 40%; Ysgol Ieuan Gwynedd (7) 37%, 2012/13). O ystyried bod llawer mwy o blant (84%) yn byw yn nes at yr ysgol yn Brithdir nag at yr ysgol yn Rhydymain, sut fydd cau Ysgol Brithdir a symud ei phlant i Ysgol IG yn llawer pellach o'u dalgylch naturiol yn datrys y broblem hon a sut felly y gall y Cyngor sicrhau bod yr ysgol yn Rhydymain yn gynaliadwy i'r dyfodol?	1	<p>Nid yw'n ofynnol i'r cynnig mynd at sylw'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am benderfyniad terfynol. Mae'n bosib iddo fynd ond yn unol â'r Cod trefniadaeth Ysgolion (006/2013), mewn rhai achosion yn unig bydd yn cael ei gyfeirio. Nid yw derbyn gwrthwynebiadau i'r rhybudd statudol yn golygu bod y Gweinidog yn penderfynu, fel digwyddodd yn y cynnig blaenorol (2011).</p>
13.17	Mae Ysgol IG yn ddewis i deuluoedd Dolgellau eisoes, pam felly nad oes ond 18 o blant yno?	1	Y gobaith yw drwy buddsoddi ac uno plant o Machreth, Brithdir a Ieuan Gwynedd yn safle Rhydymain bydd yn creu sefydliad addysgol sy'n addas i'r 21 ^{ain} Ganrif.
13.18	Mae'r ddogfen yn datgan bod rhagamcaniadau yn dangos y bydd llai na 15 disgybl mewn tair o'r ysgolion cynradd yn y pum mlynedd nesaf. O ganlyniad, bydd gan yr ysgolion hyn bennaeth ac uwch gynorthwyydd ystafell ddogarth yn unig (yn hytrach na phennaeth ac athro). Mae'r adroddiad yn datgan y 'byddai hyn yn heriol iawn i'r	1	Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ddiogelu addysg yn yr ardal trwy sicrhau darpariaeth gynaliadwy a sicrhau bod adnoddau yn cael eu dosbarthu'n decach. Y bwriad yw sicrhau bod unrhyw newid yn y ddarpariaeth addysg ar gyfer yr ardal yn ddigon gwydn i gwrdd â newidiadau posib yn niferoedd disgyblion yn y dyfodol. Mae'r lleihad yn niferoedd disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf wedi creu nifer sylweddol o leodd

	unigolion sy'n ceisio cynnal safonau addysgol yn yr ysgolion hyn'. Mae'r honiadau hyn yn rhesymol.		gweigion yn ysgolion dalgylch y Gader – cyfanswm o 41% (neu 248 mewn nifer). Mae hefyd nifer o leoedd gweigion yn yr adran uwchradd, 18% (86 o leoedd) sydd yn golygu bod nifer y lleoedd gweigion ar draws y dalgylch yn 31% (334 o leoedd ysgol). Mae'r rhagamcanion yn achosi pryder gan y bydd yr ysgolion yn dod yn rhai bregus iawn, fe fydd gormod o bwysau ar benaethiaid wrth iddynt geisio cynnal safonau a darparu profiadau a chyfleoedd o ansawdd i'r disgyblion. Mae angen gwir ystyried lles personol a chymdeithasol y disgyblion fyddai yn yr ysgol ar yr adeg hynny.
13.19	Mae'r cynigiwr wedi dangos yn effeithiol sut bydd nifer y lleoedd dros ben yn cael eu lleihau hefyd.	1	Y nod yma fyddai sefydlogi niferoedd y disgyblion yn y dalgylch cyfan gan gynnig hyblygrwydd er mwyn gallu gwrthsefyll newidiadau demograffig yn y dyfodol.
13.20	Gan bod y Cyngor yn nodi arbedion o £255,000 rhaid bod yna cryn waith manwl o ran arbedion staff	1	Mae ysgolion yn cael eu hariannu trwy Fformiwla Dyrannu wedi'i sefydlu gan ddilyn deddfwriaeth benodol gyda unrhyw effaith ariannol unrhyw addasiad yn nhrefniadaeth ysgolion yn deillio o'r fformiwla dyrannu.
13.21	O edrych ar ddata eang mae'r Cyngor wedi ei gynhyrchu, mae model 8 yn cau yr unig ysgol llawn sydd yn gweithredu o fewn ei gyllideb	1	Mae'r Cyngor o'r farn bod y model a ffafrir yn gyllidol gynaliadwy i'r dyfodol.
13.22	Rhaid sicrhau fod y model ariannu yn un fydd yn ystyried sawl safle a chostau teithio i staff. Bydd y blynyddoedd cyntaf yn rhai tyngedfennol i'r ysgol	1	Nid yw'r arbediad £255,625 wedi ystyried costau ychwanegol ar gyfer deithio o un safle i un arall i'r staff, y Tîm Rheoli a disgyblion. Bydd hyn yn fater i'w drafod ymhellach gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethol cysgodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.
13.23	Nodi bod dull o bennu dyraniad yr ysgol newydd 'eisoed yn cael ei ddatblygu' yn rhy amwys a phenagored. Sut mae modd honni bod arbedion mor sylweddol os nad yw'r arian fydd yn cael ei ddyrannu i'r ysgol newydd wedi'i adnabod? Yn ogystal â manylu ar sut y byddai'r dyraniad i'r Ysgol Ddilynol Ddalgylch newydd yn cael ei bennu mae angen gwybod faint o hyblygrwydd fyddai gan y Corff o ran cyfeirio arian at wahanol safleoedd. Bydd angen rhywfaint o strwythur i sicrhau cydbwysedd gwariant priodol rhwng y gwahanol sectorau. A allai sefyllfa godi lle byddai'r Corff yn gallu dod i'r farn bod un neu fwy o'r safleoedd yn anghynladwy am eu bod yn dreth ar gyllideb yr 'ysgol'? / Derbyn bydd arbedion, ansicrwydd ynglŷn ag union maint yr arbedion, gan nad yw'r fformiwla ysgol ddilynol wedi'i ddatblygu yn gyflawn eto / Ansicrwydd ynglŷn ag union maint yr arbedion, gan nad yw'r fformiwla ysgol ddilynol wedi'i ddatblygu yn gyflawn eto. Pwysleisiwyd bod angen buddsoddiad hir dymor i sicrhau llwyddiant addysgol yr ardal.	2	Mae cyfrifiad yr arbediad o £255,625 ar ôl ystyried cyllido holl safleoedd yr Ysgol Ddilynol yn llawn. Mater i'r Pennaeth newydd a'r Corff Llywodraethol parhaol fydd materion cyllidol yr ysgol newydd - bydd Swyddogion yr Awdurdod yn rhoi arweiniad i'r Corff parthed y materion hyn. Mae'n wir fod posibilrwydd yn y dyfodol i niferoedd disgyblion ostwng. Byddai'n rhaid i'r Corff Llywodraethol ystyried y sefyllfa gyllidol yn ofalus gan gynnwys ystyried y broses Diswyddo oherwydd Gormodedd fel pob ysgol arall pe byddai hynny'n codi. Gallai'r Corff Llywodraethol parhaol benderfynu ei bod yn anghynladwy i gynnal safle ond mater i'r Corff Llywodraethol fyddai penderfynu ar hyn gan gymryd i ystyriaeth nifer o ffactorau perthnasol gan gynnwys pellter i safleoedd eraill. Byddai disgwyl i'r Corff Llywodraethol ymgynghori'n fanwl gyda'r Awdurdod pe byddai sefyllfa o'r fath yn codi. Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol parhaol fydd materion Cyllidol yr ysgol newydd.
13.24	Profiad UCAC wrth ddelio ag ad-drefnu ysgolion yw nad oes digon o sylw yn cael ei roi i gostau, mewn amser ac arian, o deithio o un safle i un arall. Mae hyn o safbwynt y staff, y Tîm Rheoli, ac o safbwynt y	1	Nid yw'r arbediad £255,000 wedi ystyried costau ychwanegol ar gyfer deithio o un safle i un arall i'r staff, y Tîm Rheoli a disgyblion. Bydd hyn yn fater i'w drafod ymhellach gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethol cysgodol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

	disgyblion. A yw'r gost yma wedi'i gynnwys yn llawn yn y rhagamcanion cyllidol?		
13.25	Teimlir yn gryf am yr angen i fformiwla gyllido gydol oes adlewyrchu amrywiaeth yr heriau fydd gerbron ac i beidio â bod yn estyniad yn unig o'r fformiwla gyllido bresennol.	1	Mae'r fformiwla gyllido gydol oes wrthi'n cael ei ddatblygu ac mi fydd yn destun ymgynghoriad ffurfiol gyda holl ysgolion yn y flwyddyn newydd.
13.26	Niferoedd y disgyblion mewn rhai ysgolion bach yn anhyfyw o isel	1	Mae'r Cyngor yn ymwybodol o hyn, dyma un o'r rhesymau am yr achos dros newid.
13.27	Mewn cyfnod o doriadau anghymharus o fewn y Sir rhaid gofyn a fydd yr arian sydd ei angen i sicrhau bod y cynlluniau'n dwyn ffrwyth ar gael?	1	Mae'r cwestiwn ynghylch buddsoddiad cyfalaf yn un hynod o bwysig mewn cyfnod mor heriol yn gyllidol. Trwy'r 'Rhaglen Ysgolion 21 ^{ain} Ganrif', mae gan y Cyngor £3.6 miliwn ar gyfer dalgylch y Gader wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor. Bydd angen cyflwyno achosion busnes cynhwysfawr i ddenu'r arian. Mae angen ystyriaeth fanwl o sut y dylid gwneud y defnydd gorau o'r buddsoddiad ac fel y trafodwyd yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor ym mis Rhagfyr 2013, gan fod y dalgylch cyfan yn cael ei drafod, bydd unrhyw anghenion ariannol ychwanegol yn cael eu cynnwys fel rhan o adolygiad y cynllun rheoli asedau. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i'w cyfraniad ariannol.
14	Cyffredinol		
14.1	Wedi nodi ers rhai blynyddoedd byddai rhoi amser a cyllid sydd wedi ei wario ar yr ymgynghori i mewn i geisio denu teuluoedd byddai niferoedd ysgolion ddim wedi disgyn cymaint a byddai'r brys i ad-drefnu ddim yn bodoli cymaint.	1	Mae'r cynllun arfaethedig ym marn y Cyngor yn creu sefydliad addysgol cadarn all wrthsefyll newidiadau demograffig i'r dyfodol.
14.2	Dim ymddiriedaeth na synnwyr cyffredin ar ôl yng Nghyngor Gwynedd	1	Deall bod y sefyllfa yn anodd i drigolion dalgylch y Gader yn ogystal ag i aelodau staff yr ysgolion yn y dref ac yng nghefn gwlad a bod unrhyw sôn am gyflwyno newid yn destun pryder yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Hoffai'r Cyngor eich sicrhau bod yn rhaid dilyn prosesau statudol a bod y cyfnod ymgynghori bellach ar ben ers Tachwedd 24 ^{ain} . Yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Ionawr, fe fydd yr Aelodau Cabinet yn trafod yr ymateb i'r ymgynghoriad ac yn penderfyni bwrw ymlaen gyda'r cynnig ai peidio. Gan ddibynnu beth fydd y penderfyniad hwnnw, fe fydd angen wedyn gosod allan amserlen ar gyfer gweithredu.
14.3	Wedi blino ac yn ddigalon fod trafodaethau ar gau ysgolion yn dal i barhau – mae'n llygredig i rieni a staff sy'n aberthu amser prin i fynychu cyfarfodydd / Mae'r drefn hyd yma wedi creu sefyllfa hynod anghyfforddus yn lleol, gan achosi straen cwbl ddiangen.	2	
14.4	Ddim yn gwrthwynebu newid	1	Mae'r Cyngor yn falch o'r sylw cadarnhaol yma.
14.5	Mae'r Cyngor wedi cael beth oedd y Cyngor eisiau ar hyd y blynyddoedd.	1	Mae'r Cyngor wedi cynnal trafodaethau gyda phobl leol ac wedi dilyn trefniadau ymgynghori yn unol â'r prosesau statudol. Nid yw'r penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto. Bydd cyfle i bobl wrthwynebu pe bai'r Cabinet yn penderfynu cyhoeddi rhybudd statudol.
14.6	Rydym yn ystyried fel teulu i aros yn yr ardal - un rheswm am aros yw Ysgol Machreth	1	Rydym yn llwyr ddeall a dirnad ymlyniad teuluoedd gyda safleoedd ysgolion ac yn derbyn bod wynebu cyfnod o newid yn gallu bod yn anodd iawn gan beri pryder ac ansicrwydd. Fe fydd plant a phobl ifanc y dalgylch yn cael cynnig addysg o ansawdd uchel ym mha

			bynag safle y byddant yn dewis mynychu.
14.7	<p>Dyfynnu o Adroddiad 'State of the Nation – Social Mobility and Child Poverty' (2014) gan nodi bod angen cynllun wedi ei seilio ar dystiolaeth yn hytrach na gwleidyddiaeth. Mae elfen wleidyddol y broses wedi cyfyngu'r opsiynau posib ac o ganlyniad bydd yn paratoi plant at y gorffennol nid y presennol.</p> <p>"Dylai Llywodraeth Cymru wella ansawdd y dystiolaeth ar effaith y polisiau drwy gynllunio a gweithredu rhaglenni mewn ffordd sy'n galluogi gwerthusiad effaith mwy cynhwysfawr i gael ei feithrin o'r cychwyn. Mae cynnydd yn cael ei rwystro drwy ddiffyg mesur canfyddiadau, yn enwedig yn yr Alban a Chymru: nid yw rhieni na darparwyr gofal plant yn ___ ynghylch y cwestiwn a yw plant yn barod i gychwyn addysg gynradd ai peidio."</p>	1	Mae'r cynllun arfaethedig wedi ei selio ar dystiolaeth a gwerthusiad opsiynau llawn.
14.8	<p>Annhegwch ag addysg wledig yn ardal y Gader: Byddai rhieni a phlant Ysgol Brithdir yn fodlon ystyried opsiwn lle byddai'n rhaid iddynt symud i ysgol fwy ac ynddi'r holl adnoddau diweddaraf, fel a ddigwyddodd yn ardal Tywyn (lle bu'n rhaid i Ysgol Brynchrug, oedd hefyd bron yn llawn, gau) lle symudodd y plant i ysgol newydd yn Llanegryn; neu yn ardal y Bala lle bu'n rhaid cau ysgol y Parc, ond lle symudwyd ei phlant i'r ysgol fwy ac wedi'i hymestyn yn Llanuwchllyn. Ond sut allwch ddisgwyl i ni dderbyn bod symud i Ysgol Ieuan Gwynedd sydd eisoes yn amhoblogaidd o ran lleoliad, a'i niferoedd yn gostwng o hyd, yn welliant i'n plant ni. NID YW'N DEG.</p>	1	<p>Derbyniodd Ysgol OM Edwards buddsoddiad o £1miliwn i'w huwchraddio. Bydd y datblygiad yma yn debyg iawn i'r hyn fydd yn cael ei wneud yn Llanelltyd (£1.02miliwn buddsoddiad) a dyma pam ystyrir eu bod o ddiddordeb yn y diwrnodiau agored.</p> <p>Derbyniodd Ysgol Penybryn, Tywyn buddsoddiad o £1.47 miliwn i'w huwchraddio. Mae safle Cynradd Dolgellau yn derbyn buddsoddiad o £2.7miliwn a gall y gwelliannau ym Mhenybryn roi syniad o'r math o newidiadau fydd yn cael eu cynnig yno, dyma pam ystyrir eu bod o ddiddordeb yn y diwrnodiau agored.</p>
14.9	<p>Mae'n hanfodol bod unrhyw safle wledig yn Nyffryn yr Wnion yn gynaliadwy. Os na fydd y safle newydd yn llwyddo, ni fydd addysg wledig i'r Dwyrain o Ddolgellau. Mae cynaladwyedd safle Rhydymain yn gwbl ddbynnol ar niferoedd y Brithdir. Nid yw cynaladwyedd y Brithdir fel safle yn dibynnu ar neb arall gan nad oes llefydd gweigion yma, does dim angen rhwyd ddiogelu ac mae cost y pen yn sylweddol is nac ysgolion gwledig gweddill y dalgylch.</p>	1	<p>Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghorol statudol, mae'r cynllun hwn yn fuddsoddiad tymor hir er mwyn sicrhau addysg o'r radd flaenaf yn y dalgylch i'r dyfodol, er gwaethaf unrhyw newidiadau demograffig allai wynebu'r ardal.</p> <p>Pe bai Brithdir yn cael ei ddatblygu byddai'n ddibynnol ar niferoedd Rhydymain a Llanfachreth i fod yn gynaliadwy.</p>
14.10	<p>Does neb i gwffio ein cornel ni yma yn y Brithdir oherwydd sefyllfaoedd unigryw ein Cynghorwyr. Pwy sy'n ymwybodol o'n pryderon ni yn y Brithdir er mwyn eu lleisio yn deg yn y Cabinet? Rydym yn teimlo'n ddilais, yn ynysig ac yn eilradd.</p>	1	Mae pob ymateb yn cael ei yrru i sylw Aelodau'r Cabinet, fel bod barn holl ymatebwyr yn cael ei dderbyn.
14.11	Gofynnir yn garedig i Ddalgylch y Gader, Dolgellau gael ei ystyried ar	1	Mae'r Cyngor yn falch o'r sylw cadarnhaol hwn. Mae'n allweddol edrych yn greadigol ac

	gyfer unrhyw gynlluniau strategol arbrofol gan y sir i'r dyfodol – hyn er mwyn caniatáu datblygu cyd-weithio ymhellach yn y dalgylch yn y cyfnod yn arwain at yr ad-drefnu, gyda hyn wedi'i gynllunio'n fwriadol a threfnus.		yn arloesol ar sefyllfa addysg yng Ngwynedd gyfan er budd plant a phobl ifanc y Sir.
14.12	Angen mwy o ymgynghori gyda rhieni'r plant sy'n dod o ysgolion tu allan i'r dalgylch ac sy'n mynychu ysgol y Gader. Ble fydd rhieni yn anfon eu plant yn y dyfodol, yn y tymor byr a'r tymor hir, os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo? Dwi'n meddwl y byddan nhw'n dewis ysgol arall. Mae integreiddio plant o fewn y dalgylch ac all-ddalgylch yn fater y dylid ei ystyried gan fod y cyfnod trosiannol hwn yn anodd ac yn llawn straen o hyd. Y peryg ydy y bydd y plant all-ddalgylch dan anfantais.	1	Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori statudol i rieni bob disgybl yn y dalgylch. Ni ystyrir fod cynnal ymchwil i ddewisiadau rhieni'n ddefnyddiol gan mai 'snapshot' yn unig fyddai – gall dewis rhieni newid mewn amser byr am nifer o resymau. Bydd yr ysgol yn croesawu disgyblion all-dalgylch yn ddarostyngedig i ddewis rhieni.
14.13	Cryfder ysgol wledig ydy plant all-ddalgylch. I gael plant all-ddalgylch, rhaid i'r ysgol wledig fod o fewn pellter cyrraedd hawdd. Fe welwch fod Ysgol Llanelltyd yn ffynnu gyda bron 50 o blant, ysgol Brithdir sydd â bron 50 o blant ynddi. 2 ysgol o fewn pellter cyrraedd hawdd i dref Dolgellau (2 filltir o Ddolgellau yw Brithdir, nid 3 fel dywed y Ddogfen Ymgynghori). Ni all poblogaeth cefn gwlad gynnal ysgolion gwledig bellach, ac felly dyna paham mai'r unig rai sy'n dal i ffynnu ydy'r rheini sy'n ddigon agos i bobl sy'n dymuno rhoi addysg wledig i'w plant gludo eu plant yno – Llanelltyd a Brithdir yn yr achos hwn. Mae'r gwaith ymchwil hwn i gyd wedi'i wneud, sut ar y ddaear ydych chi felly'n diystyru safle Brithdir yn yr opsiwn hwn?	1	Mae niferoedd disgyblion ac amseroedd a pellteroedd teithio wedi ei ystyried fel rhan o'r ffactorau yn y gwerthusiad opsiynau. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod nifer o rinweddau o blaid safle Brithdir, yn wir, dyma pam cynigwyd y safle fel rhan o'r cynnig blaenorol yn 2011. Yn anffodus, roedd angen i'r Cyngor ystyried safleoedd eraill.
14.14	Er mwyn rhoi siawns i'r model hwn fod yn hyfyw rhaid dewis y lleoliadau iawn. Mae gan rieni hawl dewis mynd â'u plant i unrhyw ysgol boed honno'n ysgol eglwysig, drefol neu wledig. Er mwyn i'r agwedd wledig ar y model lwyddo, a sicrhau bod gan rieni ddewis ymarferol i ddewis ysgol wledig, rhaid dewis y lleoliad cywir.	1	Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth lawn i leoliadau safleoedd yr ysgol dalgylch dilynol ac yn ystyried bod y safleoedd a ddewiswyd yw'r rhai mwyaf addas. Mae'r cynnig yn parhau gydag addysg wledig wrth gynnal pedwar safle gwledig.